Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
29/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
07/05/2024

# Gwerthuso ymyraethau digartrefedd: adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesng.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron Digidol ISBN **978-1-83577-962-0**

Gwerthuso ymyraethau digartref: adroddiad terfynol

Awdur(on): Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson, Anita Birchall, Nicholas Pleace and Sarah Chalmers-Page

Adroddiad Ymchwil Llawn: Imogen Blood, Sarah Alden, Shelly Dulson, Anita Birchall; (2023). Gwerthuso ymyraethau digartref: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 29/2024
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gam-2-ymyraethau-digartrefedd-adroddiad-terfynol

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Tîm Ymchwil Tai

Adran: SRID

Llywodraeth Cymru

Parc CathaysCaerdydd

CF10 3NQ

Ebost: HousingResearchTeam@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ........ 2

Rhestr o ffigurau ........ 3

Geirfa 4

1. Cyflwyniad / Cefndir ........ 6
2. Cynllun y Gwerthusiad ........ 8
3. Cefndir ........ 18
4. Ailgartrefu Cyflym ........ 30
5. Atal ac Ymyrryd Cynnar ........ 42
6. Gweithio ar y cyd ........ 50
7. Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ........ 59
8. Cydgynhyrchu ........ 71
9. Defnyddio Tystiolaeth: Mesur Perfformiad ac Effaith ........ 79
10. Casgliadau ac Argymhellion ........ 85

Cyfeiriadau ........ 95

Atodiad A ........ 100

Atodiad B ........ 103

Atodiad C ........ 131

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Teipoleg atal digartrefedd ........................................................................ 10
Tabl 2: Gwaith maes - nifer y cyfweliadau yn ôl mathau o swyddogaeth ................. 15

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1 Elfennau system ddelfrydol ar gyfer ailgartrefu cyflym ................................ 12

**Geirfa**

| Talfyriad/gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Rheolau cysylltiad lleol | Gall awdurdod lleol asesu a oes gan berson sy'n cyflwyno’i hun iddynt fel person digartref gysylltiad â'r ardal honno (trwy fyw neu wedi byw yno, cael cysylltiadau teuluol, gwaith neu amgylchiadau arbennig eraill) wrth benderfynu a oes ganddo ddyletswydd i'w darparu ar eu cyfer neu eu cyfeirio at ardal arall. |
| *Cuckooing* | Arferiad yw *cuckooing* lle mae pobl yn cymryd drosodd cartref rhywun arall trwy orfodaeth, ac yn ei ddefnyddio ar gyfer camfanteisio a/neu weithgaredd anghyfreithlon, megis paratoi a/neu werthu cyffuriau, gwaith rhyw, etc. |
| Llinellau Sirol | Model o werthu cyffuriau lle mae grwpiau troseddol cyfundrefnol yn defnyddio llinellau ffôn i symud a chyflenwi cyffuriau, fel arfer o ddinasoedd i drefi llai ac ardaloedd gwledig. Maent yn camfanteisio ar bobl fregus, gan gynnwys plant a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gaethiwed, trwy eu recriwtio i ddosbarthu'r cyffuriau. |
| Tîm Amlddisgyblaethol | Mae tîm amlddisgyblaethol yn grŵp o staff sy'n aelodau o wahanol sefydliadau a phroffesiynau (e.e. nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, etc), sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion ag anghenion lluosog. |

Talfyriadau Saesneg a ddefnyddir yn aml

| Talfyriad | Diffiniad |
|---|---|
| ADHD | Anhwylder diffyg canolbwyntio gorfywiogrwydd |
| ASD | Anhwylder y sbectrwm awtistig |
| COPD | Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint |
| HF4Y | Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc |
| HSG | Grant Cymorth Tai |
| KPI | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| LHA | Lwfans Tai Lleol |
| MDT | Tîm Amlddisgyblaethol |
| PCSOs | Swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu |
| PRS | Sector rhentu preifat |
| RSL | Landlord cymdeithasol cofrestredig |
| SLA | Cytundeb lefel gwasanaeth |
| VfM | Gwerth am arian |
| YIF | Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc |

# 1. Cyflwyniad / Cefndir

## Trosolwg o'r rhaglenni a werthuswyd

1.1 Ym mis Chwefror 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Imogen Blood & Associates (IBA) i gynnal gwerthusiad o ymyraethau digartrefedd yng Nghymru ac iddynt y nod o helpu trawsnewid gwasanaethau digartrefedd. Nod y gwerthusiad yw deall effaith a dulliau'r ymyraethau a ariennir drwy 3 rhaglen genedlaethol: Dull Cam 2 o ymdrin â Digartrefedd; Tai yn Gyntaf; a'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr Adroddiad Interim (Llywodraeth Cymru, 2023c) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

Dull Cam 2 o Ymdrin â Digartrefedd

1.2 Mewn ymateb i'r pandemig, derbyniodd awdurdodau lleol gyllid o £5.2 miliwn i gyflawni dros 70 o fentrau a oedd â'r nod o greu newid cynaliadwy a sylfaenol i wasanaethau digartrefedd ledled Cymru. Daeth cyllid y prosiect i ben ym mis Mawrth 2021. Roedd rhai prosiectau'n gynlluniau peilot a lle roedd y rhain yn llwyddiannus, maent wedi'u prif ffrydio i gynlluniau Grant Cymorth Tai awdurdodau lleol. Cyflawnodd y gwerthusiad hwn astudiaethau achos ar draws 4 awdurdod lleol. Wrth i gyllid y prosiect ddod i ben (ac mae gwasanaethau dilynol bellach yn cael eu hariannu trwy wahanol ffynonellau), mae unrhyw ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn a ddarparwyd gan awdurdodau lleol unigol, sy'n golygu nad yw'r tîm ymchwil yn gallu darparu gwybodaeth benodol ynghylch niferoedd a manylion cyllido.

Tai yn Gyntaf

1.3 Yn wreiddiol, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer prosiectau peilot Tai yn Gyntaf yn ystod 2017/18. Mae'r holl brosiectau wedi'u hanelu at oedolion sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. Mae dau brosiect yn gweithio'n benodol gyda'r rhai sy'n gadael carchar a hyn yn unig mae un

ohonynt yn ei wneud. Mae rhaglen dreigl grantiau Tai yn Gyntaf bellach yn dyrannu tua £1.9m bob blwyddyn i gefnogi prosiectau Tai yn Gyntaf a phrosiectau eraill sy'n ymwneud â thai, ar draws 7 ardal awdurdod lleol wahanol (cyfanswm o 8 prosiect, y derbyniodd 2 ohonynt gyllid fel rhan o'r cynllun peilot cychwynnol). Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer pob un o'r 8 prosiect yn 2020-21 ac mae pob un ohonynt wedi parhau i gael eu hariannu yn 2021-22, 2022-23 a 2023-24. Cyflawnodd y gwerthusiad hwn astudiaethau achos o 4 o'r prosiectau hyn a ariennir. Mae rhagor o fanylion am y model Tai yn Gyntaf wedi'i atodi.

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref

1.4 Mae'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref (Y Gronfa Arloesi o hyn ymlaen), a gafodd ei lansio yn 2019, yn cefnogi prosiectau i ddarparu dulliau newydd ac arloesol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Nod y gronfa yw cynyddu'r opsiynau tai a chymorth sydd ar gael i bobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys, ymysg eraill, pobl sy'n gadael gofal, pobl ifanc anabl a'r rhai sydd wedi bod yn y system cyfiawnder ieuenctid o'r blaen. Ar y cychwyn, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer 25 o brosiectau ar gyfer 2019-20, gyda 4 ohonynt yn cael eu rhedeg fel un prosiect i bob pwrpas dros wahanol leoliadau. Mae 18 o brosiectau wedi parhau i gael eu hariannu yn 2020-21, 2021-22 a 2022-23. O'r 18 prosiect sy'n cael eu monitro, mae 12 yn cynnig llety gyda chymorth, 4 yn cynnig llety a chymorth fel bo'r angen, ac mae 3 yn cynnig cymorth fel bo'r angen. O'r rhai sy'n cynnig llety, caiff 4 eu disgrifio fel Tai yn Gyntaf ar Pobl Ifanc (a dalfyrrir i HF4Y yn Saesneg) (sydd ar wahân i'r prosiectau Tai yn Gyntaf a amlinellir uchod), 8 fel tai â chymorth, 3 fflat hyfforddi, un cynllun lletya ac un cynllun llety a rennir. Mae dau yn cynnig cymorth 24 awr dwys tymor byr (noder – mae rhai prosiectau'n gweithredu mwy nag un model). Cynhaliodd y gwerthusiad hwn astudiaethau achos gyda 7 prosiect a ariannwyd gan y Gronfa Arloesi.

## 2. Cynllun y Gwerthusiad

### Trosolwg

2.1 Roedd angen dull gwerthuso ar Lywodraeth Cymru a fyddai'n edrych yn systematig ar draws y tair menter ariannu, ill tair wedi'i chynllunio i gynhyrchu arloesedd y tu allan i gyllid prif ffrwd. Y nod cyffredinol oedd gosod sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar y ffordd orau o helpu i lunio ymyraethau i atal a lliniaru digartrefedd. Nodau'r gwerthusiad oedd:

- Archwilio effeithiolrwydd ymyraethau digartrefedd yng Nghymru, sef, a yw'r ymyraethau yn cael eu darparu yn ôl y bwriad/angen?
- Sefydlu theorïau rhaglenni ar gyfer ymyraethau digartrefedd yng Nghymru er mwyn galluogi datblygu fframwaith gwerthuso parhaus.
- Deall pa mor effeithiol yw'r ymyraethau digartrefedd a ariennir ar hyn o bryd wrth gyfrannu at nod strategol digartrefedd Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Digartrefedd a'r Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026.
- Deall y gost a'r buddion sy'n gysylltiedig ag ymyraethau digartrefedd yng Nghymru.

2.2 Trafodir costau a buddion mewn adroddiad Gwerth am Arian ar wahân. Mae cwestiynau ymchwil yn gwerthusiad i'w gweld Atodiad 1.

2.3 Ar ddechrau'r prosiect, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mai'r flaenoriaeth i'r comisiwn hwn oedd deall i ba raddau, ac ym mha gyd-destunau, roedd y tair rhaglen gyllido wedi cefnogi gweithredu strategaeth ddigartrefedd lefel uchel y llywodraeth, a amlinellwyd bryd hynny yn ei Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019).

2.4 Er mwyn cyflawni hyn o fewn adnoddau'r comisiwn, mabwysiadwyd strategaeth ymchwil astudiaethau achos, a chasglwyd data sylfaenol ar draws 11 o 'safleoedd', gydag un ohonynt yn cynnwys 3 awdurdod lleol a oedd wedi derbyn cyllid Cam 2. Cytunwyd nad oedd modd cynnal gwerthusiad llawn o weithgarwch a ariennir ym mhob un o'r safleoedd hyn;

yn hytrach, y bwriad oedd casglu data ynghylch i ba raddau’r oedd gweithgarwch a ariannwyd yn cydgyfeirio â strategaeth ddigartrefedd lefel uchel y llywodraeth.

2.5 Cafodd data ansoddol a gasglwyd ar lefel prosiect neu awdurdod lleol ei driongli â gwybodaeth a ddarparwyd mewn ceisiadau am gyllid a ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru. Yna cafodd tystiolaeth o bob un o'r safleoedd astudiaethau achos ei integreiddio i ddatblygu gwerthusiad cyffredinol o'r 3 rhaglen, a ddarlunir gan enghreifftiau a dynnwyd o gyd-destunau amrywiol pob un o'r safleoedd.

2.6 Fel rhan o ddatblygiad y ffrâm samplu (gweler isod), dechreuwyd trwy gwblhau adolygiad arwynebol o'r ceisiadau cyllido gwreiddiol a ffurflenni monitro pob prosiect.

2.7 Roedd y gwerthusiad wedi ei seilio ar ddamcaniaethau ac ar egwyddorion realaidd cymhwysol (Pawson a Tilly, 1997), gan ganolbwyntio ar sut mae ymyraethau’n gweithio yng ngwahaol gyd-destunau safleoedd yr astudiaethau achos, yn ogystal â rhwystrau, neu alluogwyr, hyn. Dewiswyd dull realaidd gan ei fod yn arbennig o addas ar gyfer adolygu a gwerthuso ymyraethau sy'n gysylltiedig â thai, lle gall mesur sut mae mecanweithiau achosol yn gweithredu o dan amgylchiadau penodol arwain at ganlyniadau penodol (bwriadol ac anfwriadol). Mae hefyd yn cynnig addasrwydd priodol sy’n seiliedig ar gwmpas y prosiectau a ariennir a'r amrywiaeth eang o gyd-destunau daearyddol y maent wedi'u lleoli ynddynt.

2.8 Mae'r gwerthusiad wedi ystyried teipoleg Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd (Tabl 1, fel y'i cynhwysir yn y Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Llywodraeth Cymru 2019):

*Tabl 1: Teipoleg atal digartrefedd*

| **Teipoleg** | **Disgrifiad/Manylion** |
|---|---|
| Sylfaenol | Atal neu leihau risgiau digartrefedd ymysg y boblogaeth yn gyffredinol |
| Eilradd | Atal ar gam cynnar gan ganolbwyntio ar grwpiau risg uchel, neu'r rhai sy'n dechrau dangos arwyddion cynnar o broblem benodol |
| Trydyddol | Ymyrryd unwaith y bydd problem er mwyn ei hatal rhag gwaethygu |
| Aciwt | Gwariant i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn – nid yw’n gwneud dim, neu fawr ddim, i atal problemau rhag digwydd eto yn y dyfodol |

Ffynhonnell: Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Digartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2019)

2.9 Gan ddefnyddio'r teipoleg hon, mae'r astudiaethau achos a werthuswyd (a'r rhan fwyaf o'r prosiectau a ariennir ar draws y 3 rhaglen) yn canolbwyntio mwy ar atal trydyddol, sef cymryd camau a all arwain at sicrhau nad yw digartrefedd yn digwydd eto.

**Theori Newid**

2.10 Er mwyn asesu i ba raddau y mae'r rhaglenni a ariennir yn gweithredu egwyddorion strategaeth ddigartrefedd lefel uchel Llywodraeth Cymru, roedd angen dadansoddi’r strategaeth hon yn set o themâu neu egwyddorion.

2.11 Yn ystod y cyfnod cwmpasu, adolygodd y tîm gwerthuso strategaeth 2019, ac o hyn cynhyrchodd Theori Newid ar lefel polisi, sydd i'w weld yn Atodiad 3.

2.12 Cynhyrchodd yr ymarferiad hwn y themâu a oedd, unwaith y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, yn cael eu defnyddio i strwythuro pob cam o'r astudiaeth - canllawiau pwnc y cyfweliadau, y penawdau thematig ar gyfer dadansoddi ansoddol, a phenawdau'r adran ar gyfer allbynnau ysgrifenedig. Y rhain yw:


- Defnyddio tystiolaeth (data lleol ac ymchwil / tystiolaeth y gwerthusiad).
- Atal / ymyrryd ar y cam cynharaf bosibl.
- Blaenoriaethu Ailgartrefu Cyflym a Pharhaol (er enghraifft, gallai rhywun fod mewn ffurf o lety dros dro, ond mae'r pwyslais ar eu helpu i ganfod tenantiaeth a rhoi cymorth i gynyddu hyd ag y bo modd y tebygolrwydd o gynnal tenantiaeth).
- Dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn / sy’n ystyriol o drawma
- Cyd-gynhyrchu
- Gweithio cydgysylltiedig / mewn partneriaeth

2.13 Fel y nodir yn amcanion y gwerthusiad ar ddechrau'r bennod hon, gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd i'r gwerthusiad 'sefydlu theorïau rhaglenni ar gyfer ymyraethau digartrefedd yng Nghymru er mwyn galluogi datblygu fframwaith gwerthuso parhaus'. Cafwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y cychwyn ynglŷn â beth ddylai'r pwyslais fod ar gyfer y theorïau 'rhaglenni' hyn, gan fod pob un o'r 3 rhaglen (ar wahân i Tai yn Gyntaf) yn ariannu amrywiaeth o fodelau gyda gwahanol weithgareddau a chanlyniadau. Cytunwyd y gallai wneud mwy o synnwyr i ddatblygu theori rhaglen ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o weithgarwch:

- Brysbennu ac asesu
- Cynlluniau i wella mynediad at dai / cynyddu’r cyflenwad tai
- Cymorth + tai (a ddarperir fel pecyn, h.y., mewn prosiect llety â chymorth ac iddo derfyn amser) gyda'r nod o hwyluso symud ymlaen
- Cymorth a ddarperir i aros mewn eiddo (prif ffrwd) (e.e. cymorth fel bo’r angen, Tai yn Gyntaf), lle nad oes dim disgwyliad y bydd yr unigolyn yn symud os na fydd yn derbyn y cymorth mwyach.

2.14 Mae pob un o'r mathau hyn o ddarpariaeth – ynghyd â gweithgarwch atal – yn chwarae rhan allweddol mewn system Ailgartrefu Cyflym, fel y cynigiwyd gan y tîm gwerthuso yn y diagram isod. Eu nod yw creu canlyniadau tebyg: naill ai atal digartrefedd, galluogi ailsefydlu llwyddiannus, creu, neu gynnal tenantiaethau.

*Ffigur 1 Elfennau system ddelfrydol ar gyfer ailgartrefu cyflym*




Ffynhonnell: Imogen Blood & Associates.

2.15 Fe wnaeth y categorïau hyn helpu i adeiladu fframwaith gwerthuso cadarn a haenu astudiaethau achos; roeddent yn annog cwestiynau pwysig am swyddogaeth arfaethedig prosiect o fewn y system Ailgartrefu Cyflym ehangach a'n helpu i ganfod ffactorau a oedd yn galluogi neu'n rhwystro hyn ar lefel leol.

2.16 Er bod y gwerthusiad yn ein dysgu am bob un o'r mathau hyn o weithgareddau, roedd rhai yn cael eu tangynrychioli o fewn y gweithgaredd a ariannwyd (e.e. mynediad at dai ac atal). Roedd prosiectau a ariannwyd yn

amrywio'n fawr o ran y modelau a fabwysiadwyd, y carfannau a dargedwyd, a'r cefndir cyd-destunol, gan olygu ei bod yn anodd cynhyrchu Theorïau Newid ar lefel rhaglen y gellid eu cymhwyso'n fwy defnyddiol y tu hwnt i ddibenion gwerthuso.

**Mynd ati trwy Astudiaethau Achos**

2.17 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 2.4, defnyddiwyd cynllun astudiaethau achos, gyda dull haenog – a ddisgrifir isod – i samplu safleoedd yr astudiaethau achos.

2.18 Ar y dechrau, cynhaliwyd adolygiad arwynebol o ddogfennaeth oedd ar gael ar bob un o'r prosiectau a ariannwyd gan bob un o'r 3 rhaglen. Cofnodwyd gwybodaeth ac arsylwadau o bob prosiect ar grid, yn cynnwys y penawdau thematig o'r Theori Newid polisi a chategorïau eraill, megis swm cyllido, math o drefniadaeth, carfan darged a daearyddiaeth. Roedd prosiectau hefyd yn cael eu categoreiddio yn ôl y teipoleg a nodwyd yn y Theori Newid ar lefel rhaglen (h.y., Brysbennu ac asesu, mynediad at dai etc).

2.19 Gydag adborth gan y tîm polisi, cytunwyd ar sampl o safleoedd astudiaeth achos i gynnwys:

- Safleoedd o bob rhaglen ariannu.
- Safleoedd o bob rhan o Gymru, sy'n cynrychioli cymysgedd o leoliadau trefol, gwledig ac arfordirol.
- Safleoedd o bob un o'r categorïau: Brysbennu ac asesu; Mynediad at Dai; Cymorth + tai fel pecyn; Cymorth i aros mewn eiddo.
- Safleoedd lle'r ymddangosai - yn ôl yr adolygiad o ddogfennaeth a/neu adborth gan y Tîm Polisi - fod dull arloesol wedi cael ei ddefnyddio i ymdrin ag un neu fwy o themâu'r polisi, neu'r garfan darged.

2.20 I grynhoi, roedd y safleoedd a ddewiswyd yn cynnwys:

- Saith prosiect a ariennir o dan y Gronfa Arloesi sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr ledled Cymru, gan gynnwys Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc a gwasanaethau cymorth i aros yn yr eiddo a modelau pecyn cymorth + tai.
- Dau faes lle mae modelau Tai yn Gyntaf yn cael eu hariannu o dan y rhaglen Tai yn Gyntaf, gyda chyfanswm o 4 gwasanaeth
- Un model brysbennu ac asesu Cam 2 a ariennir
- Tair astudiaeth achos awdurdod lleol i ddeall gwaddol a/neu brif ffrydio rhaglenni Cam 2 a ariennir

2.21 Mae disgrifiad manwl (dienw) o bob un o'r prosiectau neu awdurdodau lleol a ddewiswyd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## Gweithgareddau Gwerthuso

2.22 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys pedwar prif gam:

Cyfnod cwmpasu

2.23 Cynhaliwyd dadansoddiad dogfennol a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol cenedlaethol yn ystod y cam hwn ynghyd â dadansoddiad cyflym o’r dystiolaeth.

2.24 Roedd hyn yn cynnwys:

- Adolygiad cyflym o ddogfennau rhaglenni a phrosiectau (gan gynnwys adroddiadau monitro a chynnydd), dogfennau polisi allweddol, adroddiadau a gomisiynwyd, fframweithiau, a chynlluniau pontio Ailgartrefu Cyflym.
- Cyfarfodydd gyda'r tîm polisi Atal Digartrefedd a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol gyda 3 rheolwr rhaglen o fewn Llywodraeth Cymru, grŵp ffocws gyda rheolwyr cysylltiadau ag awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru; cyfweliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol sy'n cynrychioli'r awdurdod lleol, cymdeithas dai, sectorau cymorth tai ac sy’n ymwneud â chyd-gynhyrchu o fewn y sector digartrefedd. Roedd

cyfanswm o 4 rhanddeiliad cenedlaethol a 7 Rheolwr Rhaglen/Rheolwyr Cysylltiadau yn rhan o'r cyfweliadau hyn.

Cyfnod cynllunio'r gwerthusiad

2.25 Roedd y cam hwn yn cynnwys datblygu'r fframwaith gwerthuso a theorïau rhaglenni, a samplu safleoedd astudiaethau achos, fel y disgrifir uchod.

Cyfnod y gwaith maes

2.26 Roedd y cam hwn yn cynnwys casglu data ansoddol (wedi'i driongli ag adolygiad o ddogfennau a data a ddarparwyd) ym mhob un o safleoedd yr astudiaethau achos. Cyfwelwyd cyfanswm o 98 o bobl rhwng gwahanol safleoedd yr astudiaethau achos. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 59 o staff mewnol prosiectau a 23 o bartneriaid a rhanddeiliaid ehangach
- 15 o ddefnyddwyr gwasanaethau (a 2 weithiwr cymorth pellach â phrofiad bywyd)
- 88 o weithwyr proffesiynol (un wedi'i gategoreiddio fel 'arall'):

*Tabl 2: Gwaith maes - nifer y cyfweliadau yn ôl mathau o swyddogaeth*

| Swyddogaeth | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Digartrefedd / Tai / Grantiau Cymorth Tai Awdurdodau Lleol | 35 |
| Sector gwirfoddol / darparwr cymorth | 37 |
| Cymdeithas dai | 17 |
| Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 3 |
| Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol | 2 |
| Y Gwasanaeth Prawf | 1 |

2.27 Ategwyd hyn â 2 grŵp ffocws gyda chymdeithasau tai (a drefnwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru) ym mis Medi 2023, a fynychwyd gan gyfanswm o 12 o bobl.

2.28 Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys datblygu naratif gwerth am arian mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Polisi Tai (CHP) Prifysgol Caerefrog, gan gynnwys casglu a dadansoddi astudiaethau achos unigol a chyfunol i asesu a dangos gwerth am arian.

Cyfnod dadansoddi

2.29 Cynhaliwyd dadansoddiad o'r holl ffrydiau data, a groesgyfeiriwyd yn ôl prosiect, i dynnu sylw at enghreifftiau penodol o arfer dda a meysydd i'w datblygu.

2.30 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o ddogfennau a chyfweliadau, gan ddefnyddio'r 5 thema werthuso fel fframwaith codio.

2.31 Mae dadansoddi parhaus o ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y tîm ymchwil, ac mewn cyflwyniadau i dîm polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer adborth, wedi galluogi llunio cymariaethau a phrofi damcaniaethau am y gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd eu hangen mewn cyd-destunau gwahanol.

**Cyfyngiadau**

2.32 Er eu bod yn rhoi sail gyfoethog o wybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth gynllunio rhaglenni cyllido yn y dyfodol, mae gan y dull gwerthuso y cyfyngiadau canlynol:

- Gan na chyflawnwyd gwerthusiad effaith llawn ym mhob safle astudiaeth achos, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad prosiectau nac awdurdodau lleol, e.e. barnu prosiect cyfan fel un sy'n cynrychioli 'arfer da' neu fel arall; fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da, wedi'u hasesu yn ôl y themâu sy'n deillio o strategaeth lefel uchel y Llywodraeth.

- Mae'r 3 rhaglen wedi ariannu amrywiaeth o fodelau, a chytunwyd ar y dechrau na allai'r astudiaeth hon werthuso'r modelau hyn yn realistig na'n ddibynadwy nac asesu eu cywirdeb. Felly, nid yw'n bosibl asesu o'r dystiolaeth a gasglwyd a yw model penodol yn gweithio, er y dysgwyd am y cyd-destunau lle mae ymyraethau gwahanol yn fwy neu'n llai tebygol o gyflawni uchelgeisiau strategol y llywodraeth. Gan mai ar Tai yn Gyntaf mae pob un o'r 3 rhaglen ariannu yn canolbwyntio'n benodol, a bod gan y model sylfaen dystiolaeth ryngwladol sydd eisoes wedi'i datblygu'n sylweddol, cytunwyd y byddai'r comisiwn hwn yn anelu at gynyddu'r sylfaen dystiolaeth am ei gost-effeithiolrwydd o fewn cyd-destun Cymreig. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad annibynnol.
- Mewn cynllun unrhyw astudiaeth achos, mae yna gwestiwn bob amser ynghylch i ba raddau y gellir cyffredinoli canfyddiadau, o gofio mai dim ond ychydig enghreifftiau o brosiectau o bob rhaglen gyllido a oedd wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth. Pwysleisiwyd hyn drwy fabwysiadu dull trylwyr o samplu'r safleoedd, a ddisgrifir uchod.

2.33 Un peth pwysig i'w gofio yw bod cyllid Cam 2 wedi cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol o dan amgylchiadau eithriadol yn ystod Pandemig COVID-19, ac mai cyfyngedig o'r herwydd yw'r data monitro sydd ar gael ar lefel y llywodraeth o ran allbynnau a ariennwyd gan refeniw. Mewn rhai astudiaethau achos o awdurdodau lleol, bu trosiant staff a oedd yn ei gwneud hi'n anodd casglu adlewrchiadau cywir am y cam gwreiddiol o gynllunio a llunio cais. Weithiau nid oedd y rhestr o brosiectau yr adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi'u hariannu gyda'u harian Cam 2 yn cyfateb yn gywir i'r rheini a nodwyd ar y ceisiadau gwreiddiol. Yn aml, roedd yn amlwg bod cyllid Cam 2 wedi chwarae rhan gymharol fach (ond nad oedd yn cael ei werthfawrogi ddim llai), law yn llaw â ffynonellau cyllid eraill ar gyfer mentrau, gyda rhai ohonynt eisoes wedi bod ar waith cyn y pandemig. Y teimlad oedd bod y gwerthusiad hwn yn gyfle gan Lywodraeth Cymru i ddeall yn well allbynnau prosiectau a chynaliadwyedd cyllid.

## 3. Cefndir

3.1 Mae'r cyd-destun strategol ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys:

- Y Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019) a greodd y themâu y cafodd y gwerthusiad hwn eu cynllunio o'u cwmpas.
- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021–2026 (Llywodraeth Cymru, 2021d) a'r Cytundeb Cydweithio (Llywodraeth Cymru, 2021c), a ymrwymodd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol, canolbwyntio ar atal ac Ailgartrefu Cyflym, trwy gyflwyno pecyn o ddiwygiadau deddfwriaethol i greu newid sylweddol i'r system digartrefedd.
- Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026 (Llywodraeth Cymru, 2021b), a ymatebodd i'r argymhellion a gynhwysir yn 3 adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2019); Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020a; Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020b). Mae'r cynllun gweithredu hwn ers hynny wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn haf 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023d).
- Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2023b a gyhoeddwyd bellach yn 2024), a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori arno ym mis Mehefin 2023.
- Ymgynghoriad y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023f) 10 Hydref 2023 i 16 Ionawr 2024.
- Dros y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddatblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym (Llywodraeth Cymru, 2021a).

3.2 Mae ffactorau cyd-destunol ehangach sydd wedi dylanwadu ar weithredu'r 3 rhaglen wedi cynnwys:

- Roedd pandemig COVID-19, y teimlwyd gan randdeiliaid ei fod wedi cael nifer o effeithiau, gan gynnwys: sbarduno Ailgartrefu Cyflym, trwy ddod â

phobl sy'n cysgu allan i lety dros dro o dan y cynllun Neb Heb Help[1] a chryfhau cydweithredu lleol ar draws partneriaid gweithredol mewn awdurdodau lleol, iechyd a chyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi dod â heriau enfawr, gan gynnwys yr anawsterau ymarferol o ddarparu cymorth yn ystod cyfnodau clo, yn enwedig mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar lety; effeithiau negyddol ar recriwtio, cadw a llesiant staff; a phrinder llymach o opsiynau tai dros dro a sefydlog ar ôl y pandemig.

- Adroddir bod mynediad at dai fforddiadwy yn her enfawr ledled Cymru. Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu mae rhenti'r farchnad yn cynyddu tra bod cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi aros wedi'u capio; mae'r galw am dai rhent cymdeithasol (yn enwedig eiddo 1 ystafell wely, o ystyried polisi Dileu Cymhorthdal Ystafell Sbâr Llywodraeth y DU) yn llawer mwy na'r cyflenwad ledled y wlad; pwysau ychwanegol ar y galw gan ffoaduriaid o Syria ac Wcrain, y cynllun Neb Heb Help a'r argyfwng costau byw.

**Ailgartrefu Cyflym**

Strategaeth a gweledigaeth y Llywodraeth

3.3 Yn ei Strategaeth Digartrefedd yn 2019, mae Llywodraeth Cymru yn 'cydnabod yr angen i symud i ffwrdd o'r model 'grisiau' ar sail ennill gwobrau o ddarparu gwasanaethau. Rydym yn ymdrechu i ail-lunio gwasanaethau o amgylch dull Ailgartrefu Cyflym - gan newid pwyslais ein polisi, ein harferion a'n hadnoddau tuag at atebion sy’n seiliedig ar ailgartrefu hirdymor, oddi wrth ddarparu gwasanaethau argyfwng, dros dro a hostel' (t.2). Cadarnhawyd yr ymrwymiad hwn yn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Cynllun gweithredu lefel uchel, 2021-2026, a adolygwyd ac a ddiweddarwyd ym mis Awst 2023.

[1] Ers dechrau’r pandemig COVID-19 yng ngwanwyn 2020, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ddull Neb Heb Help' tuag at ddigartrefedd, lle darparwyd llety dros dro yn gyffredinol i'r rhai oedd ei angen (yn unol â chanllawiau statudol) i sicrhau nad oedd neb yn gorfod cysgu allan yn ystod y pandemig.

3.4 Mae Canllawiau Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022a) yn nodi'r prif elfennau canlynol o Ailgartrefu Cyflym:

- Tybir bod pawb yn 'barod am dai' gyda'r gefnogaeth gywir.
- Pobl yn treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn llety dros dro.
- Pan fydd angen llety dros dro ar bobl, mae o safon uchel.
- Gall pobl gael mynediad i'r cartref cywir yn y lle iawn ar eu cyfer.
- I'r rhan fwyaf o bobl, cartref annibynnol, prif ffrwd fydd y dull diofyn, ond gall eraill ddewis llety â chymorth.
- Mae pobl yn gallu cael gafael ar gymorth amlasiantaethol o ansawdd uchel, wedi'i deilwra i anghenion unigol, lle bo angen.
- Mae digartrefedd yn cael ei atal lle bynnag y bo modd.

3.5 Eto i gyd, roedd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn disgrifio heriau strwythurol sylweddol mewn perthynas â llawer o'r elfennau hyn, gan gynnwys:

- Nifer cynyddol o bobl mewn llety dros dro awdurdodau lleol: ym mis Mawrth 2023, roedd ystadegau swyddogol yn adrodd cynnydd o 23% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 5,481 o aelwydydd, ac roedd 40% ohonynt (o gymharu â 38% yn y flwyddyn flaenorol) mewn llety Gwely a Brecwast (Llywodraeth Cymru, 2023e). Roedd awdurdodau lleol yn adrodd sefyllfa o 'ymateb i argyfyngau' yn wyneb y galw cynyddol hwn.
- Arosiadau hirach i lawer mewn ffurfiau anaddas o lety dros dro yn aml: lle mae awdurdodau lleol unigol wedi cyhoeddi data (Bro Morgannwg, 2023; Rhondda Cynon Taf, dim dyddiad) neu lle bu Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Clementine, 2023) ar gyfartaledd hyd arhosiad mewn llety dros dro yng Nghymru, mae hyn yn tueddu i fod rhwng 2 a 10 mis.
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn llawer mwy na'r cyflenwad, gydag arosiadau hir a dewis cyfyngedig yn aml, yn enwedig mewn perthynas â lleoliad, yn cael ei adrodd gan aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru.
- Adroddwyd am ddiffyg mewnbwn a chyfrifoldeb amlasiantaethol a chorfforaethol am ddigartrefedd.

- Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn arbennig yn cael eu gor-ymestyn ac yn wynebu ôl-groniadau sylweddol (Watkins, 2023); clywodd y gwerthusiad hwn fod amseroedd aros ar gyfer asesiad cyntaf tua 2 flynedd mewn rhai rhannau o Gymru. Adroddir bod hyn yn cael effaith ar ymyraethau sy'n eiriol dros gymorth iechyd meddwl i gefnogi pobl i symud i lety sefydlog, megis yr hwb iechyd amlasiantaethol sy'n gweithio i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl 'prif ffrwd' ar waith yn dilyn cynnig mwy dwys.

3.6 Mae dogfennau polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd trawsnewid i Ailgartrefu Cyflym yn cymryd amser, o ystyried yr angen i gryfhau'r cyflenwad o dai fforddiadwy a mynediad atynt mewn sawl ardal, ac i drawsnewid diwylliannau a phrosesau o fewn gwasanaethau digartrefedd. Roedd gofyn i bob awdurdod lleol symud ymlaen tuag at ddatblygu cynllun pontio Ailgartrefu Cyflym erbyn mis Medi 2022 fel rhan o'u Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

Canllawiau a gofynion ariannu

3.7 Mae Canllawiau Cynllunio Cam 2 (Llywodraeth Cymru, 2020b), sy'n cydnabod yr her a'r cyfle o'r dull Neb Heb Help yn ystod y pandemig, yn cyfeirio dro ar ôl tro at osod Ailgartrefu Cyflym wrth wraidd gwasanaethau a phrotocolau symud ymlaen:

> 'Bydd y canolbwyntio ar ddarparu tai a chymorth priodol a sefydlog cyn gynted â phosibl i'r rhai sydd ei angen trwy amrywiaetho fodelau, gan gynnwys Tai yn Gyntaf, cymorth tenantiaeth ac allgymorth dyfal' (t.5).

3.8 Er na chyhoeddwyd canllawiau cyllid canolog ar gyfer y rhaglen Tai yn Gyntaf, mae dogfennau eraill y llywodraeth, fel y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn glir am y berthynas rhwng y model Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym:

> 'Bydd Tai yn Gyntaf yn cynrychioli un math o Ailgartrefu Cyflym i bobl sydd ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn ogystal â'u hangen am dai'. (t.8)

3.9 Nid yw Canllawiau'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Digartref (t.2) yn cyfeirio'n benodol at Ailgartrefu Cyflym; ei ddiben yn ehangach yw cynyddu'r 'opsiynau tai a chymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n agored i niwed'. Fodd bynnag, mae Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc yn cael ei grybwyll fel un model posibl, ac mae pwyslais cryf ar atal digartrefedd, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, y rhai sydd wedi bod yn y system cyfiawnder ieuenctid a phobl ifanc anabl.

**Atal ac Ymyrryd Cynnar**

Strategaeth a gweledigaeth y Llywodraeth

3.10 Mae atal ar flaen y gad yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru 2019, t.1), sy'n cydnabod 'angen i symud llawer mwy o'n hegni a'n hadnoddau i atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf'. Mae'r strategaeth yn pwysleisio effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar, a'r ffaith bod atal yn gofyn am ddull system gyfan i gyflawni hyn.

3.11 Mae symud i ddull 'atal gwirioneddol' yn golygu ymgorffori gwasanaethau a chymorth cyn-56 diwrnod (h.y., y cyfnod cyn y diffiniad statudol o aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn unol ag adran 55(4) o Ddeddf Tai Cymru 2014). Cynigiwyd estyniad o'r ffenestr atal hyd at 6 mis ym mhapur gwyn diweddar Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023f) ar gyfer ymgynghori. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried dyletswyddau o fewn y Ddeddf Tai fel y 'llinell amddiffyn olaf' unwaith y bydd llwybrau ataliol eraill wedi'u harchwilio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau, pan fydd digartrefedd wedi digwydd, yn gweithio i'w atal rhag cael ei 'ailadrodd' (Llywodraeth Cymru, 2021b).

3.12 Gall gweithgareddau atal leihau'r galw hefyd am wasanaethau llety brys, fel yr amlygwyd yn adran Ailgartrefu Cyflym yr adroddiad hwn.

3.13 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Deddf Tai Cymru, 2014) i adolygu digartrefedd yn eu hardal, gan ddatblygu strategaethau i atal digartrefedd tra hefyd yn darparu cymorth i'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. Rhaid i'r awdurdod tai lleol weithio law yn llaw ag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol, a phersonau eraill, i sicrhau bod y gwasanaethau hyn wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion grwpiau sydd mewn perygl penodol o ddigartrefedd (Cyfraith Cymru, 2023).

Canllawiau a gofynion ariannu

3.14 Amlygodd adroddiad Grŵp Cynghori ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2020 (Grŵp Cynghori ar Ddigartrefedd, 2020b) yr angen i gryfhau llwybrau ataliol ar gyfer pobl ifanc yn benodol. Mae'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n cefnogi'r grŵp hwn yn unig, mewn sefyllfa allweddol i gyfrannu at wasanaethau, a dysgu am sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.

3.15 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr i'r Gronfa Arloesi, fel rhan o'u diweddariadau cynnydd, adrodd ar sut mae eu prosiect wedi cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 trwy weithio'n uniongyrchol gyda phartneriaid i atal pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref (a darparu ymyraethau dwys sy'n canolbwyntio ar atebion i'r rhai sy'n cael eu hunain heb lety).

**Gweithio ar y cyd**

Strategaeth a gweledigaeth y Llywodraeth

3.16 Thema reolaidd mewn datganiadau gweinidogion[2] yw bod digartrefedd yn fater gwasanaethau cyhoeddus, nid mater sy'n ymwneud â thai yn unig, a bod dod â digartrefedd i ben yn gofyn am ddull traws-sectorol system gyfan.

---

[2] Sefydlu Grŵp Gweithredu Digartrefedd; Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i'r adroddiad ac argymhellion gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd cyntaf; Diweddariad Atal Digartrefedd; Ymateb Covid 19 Diweddariad digartrefedd a chysgu ar y stryd; Cyfnod 2 y Cynllun Digartrefedd; Cam 2 y Diweddariad Cynllun Digartrefedd; Datganiad llafar; Cyhoeddi Cynllun Gweithredu.

Yn fwy penodol, mae Canllawiau Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn argymell:

- 'dull canolbwynt' gyda mynediad at asiantaethau eraill neu eu cydleoli o fewn y model asesu brysbennu
- llywodraethu amlasiantaethol ar gyfer cynlluniau pontio Ailgartrefu Cyflym
- cyd-ddealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio a meini prawf cymhwysedd
- canolbwyntio ar bontio lle mae'r risg o ddigartrefedd yn uchel (e.e. gadael carchar neu ofal awdurdod lleol)

3.17 Gwnaeth y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd argymhellion hefyd ar weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys:

- allgymorth dyfal amlasiantaethol a chynadledda achos (Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2019)
- defnydd parhaus o 'gelloedd cydlynu' COVID-19 i gydlynu gwaith gweithredol amlasiantaethol, a'r defnydd o strwythurau presennol, megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi goruchwyliaeth strategol draws-sectorol (Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020b).
- Gwaith parhaus i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymateb i bobl sy'n profi problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl (Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020a).

3.18 Mae Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2019, t.1) yn nodi:

> '... mae gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector ran i'w chwarae, gan weithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd a lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw’n digwydd eto. Felly mae'n rhaid i weithio mewn partneriaeth fod wrth wraidd popeth a wnawn."

3.19 Yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2023f), mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cryfhau gweithio cydgysylltiedig ymhellach drwy gyflwyno dyletswydd i nodi a chyfeirio'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd at amrywiaeth o asiantaethau statudol, gan gynnwys;

dyletswydd ehangach i gydweithredu ar gyfer amrediad ehangach o wasanaethau cyhoeddus; dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus penodedig i weithredu pan fydd ganddynt swyddogaethau statudol; dull cydgysylltu achos ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd ac sydd ag anghenion lluosog a chymhleth; arweinyddiaeth strategol gryfach o ddigartrefedd ar lefel ranbarthol.

Canllawiau a gofynion ariannu

3.20 Mae Canllawiau’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn nodi bod ceisiadau 'yn agored i bob sector a bod cynigion cydweithredol yn cael eu hannog' (t.3) ac y byddai 'Llywodraeth Cymru yn croesawu ceisiadau sy'n cynnwys tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth rhwng y sector statudol a'r trydydd sector, a chyfranogiad statudol traws-sector' (t.4).

3.21 Yn ei Chanllawiau Cynllunio Cam 2 (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae Llywodraeth Cymru yn nodi fel un o'r egwyddorion cynllunio: 'cyfranogiad amlasiantaethol ar lefel strategol ac wrth ddarparu cymorth' (t.7). Argymhellir asesu amlasiantaethau yn ystod y cam o frysbennu gyda chymorth cofleidiol yn ôl yr angen gan wasanaethau iechyd meddwl, defnyddio sylweddau a gwasanaethau eraill i alluogi cynnal tenantiaeth. Cynghorir awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda'i gilydd i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

**Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr unigolyn**

Strategaeth a gweledigaeth y Llywodraeth

3.22 Dywed Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021b, t.5) fel un o'i phrif egwyddorion: 'Dylai pob gwasanaeth roi'r unigolyn yn ganolog a chydweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma'.

3.23 Amlygodd adroddiad y Grwp Gweithredu ar Ddigartrefedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (y Grwp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020a) fod angen hyfforddiant parhaus a gwaith ynghylch newid diwylliant er mwyn i awdurdodau lleol symud i ddull cyson sy'n seiliedig ar drawma.

3.24 Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (dim dyddiad) yn cynnig y diffiniad canlynol o'r hyn y mae'n ei olygu i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:

> ‘Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyfeirio at broses sy'n canolbwyntio ar bobl, yn hyrwyddo annibyniaeth ac ymreolaeth, yn rhoi dewis a rheolaeth ac sy'n seiliedig ar athroniaeth tîm cydweithredol. Mae'n ystyried anghenion a safbwyntiau pobl ac yn meithrin perthynas ag aelodau'r teulu.'

3.25 Mae sicrhau bod y gwasanaeth yn ystyriol o drawma yn sail i'r dull hwn, ac wedi'i ddiffinio fel un sy'n ceisio:

> "Gwrthsefyll pobl sy'n trawma unwaith eto ac atal a lliniaru canlyniadau niweidiol, gan flaenoriaethu diogelwch corfforol ac emosiynol ac ymrwymo i 'beidio â gwneud unrhyw niwed' yn ymarferol ac i gefnogi a helpu pobl yr effeithir arnynt i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain." (Hyb ACE Cymru, 2022, t.10).

3.26 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo cyllid penodol i Cymorth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol a chomisiynu staff i ddysgu egwyddorion sy'n ystyriol o drawma, trwy ariannu hyfforddiant wedi'i dargedu drwy'r Grant Atal Digartrefedd - cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn yn ystod 2017-18 a 2019-20 (Cymorth Cymru, 2022).

3.27 Yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2023f), mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei chynlluniau i greu 'system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' gyda llai o feini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth awdurdodau lleol i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref a chanolbwyntio ar gyd-gynhyrchu Cynlluniau Tai Personol ystyrlon.

Canllawiau a gofynion ariannu

3.28 Er y disgwylir i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod yn sail i brosiectau a ariennir (ac y crybwyllwyd yn benodol o fewn Canllawiau Cam 2), roedd yn ofynnol i'r rhai a ariennir drwy'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc a Tai yn Gyntaf ddangos wrth ymgeisio sut roeddent yn bwriadu darparu gwasanaeth sy'n ystyriol o drawma, er enghraifft, gofynnwyd i ymgeiswyr y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, 'Pa gynigion sydd gennych chi ar waith i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn briodol ystyriol o drawma neu'n ymwybodol o brofiadau pobl ifanc?'. I'r prosiectau Tai yn Gyntaf, mae mabwysiadu ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn nodwedd allweddol o athroniaeth Tai yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru, 2018).

**Strategaeth a gweledigaeth y Llywodraeth**

3.29 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cynnwys yn fwy ystyrlon wrth gynllunio a chyflawni prosiectau. Er enghraifft, mae Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021b, t.5) yn nodi: 'Dylai polisïau, y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ac arferion gael eu llywio a'u llunio drwy gydgynhyrchu rhwng y rhai sydd â phrofiad bywyd'.

3.30 Mae adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2020a) yn argymell bod pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd yn cyfrannu at gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau: 'Cynnwys pobl yn gynnar – ac ar adegau allweddol – i ganiatáu amser i bobl ddylanwadu'n wirioneddol ar y gwaith'. (t.24).

3.31 Mae Llywodraeth Cymru wedi modelu'r dull hwn, drwy gynnal a chomisiynu cyn-drafod helaeth – gan bobl â phrofiad bywyd, yn ogystal â phrofiad proffesiynol o wasanaethau digartrefedd – wrth baratoi ei Papur Gwyn diweddar, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2023f).

3.32 Yn gyffredinol, er y cyfeirir at yr angen i gynnwys pobl â phrofiad bywyd ar lefel prosiect a lleol ar lefel Llywodraeth Cymru (e.e. i lywio cynlluniau Ailgartrefu Cyflym), nid yw ystyr hyn, na sut y dylai'r rhai sy'n darparu gwasanaethau wneud hyn, yn glir.

**Canllawiau a gofynion ariannu**

3.33 Mae'n ofynnol i brosiectau a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc adrodd ar sut mae defnyddwyr gwasanaethau'yn cymryd rhan yn y broses adolygu gwasanaethau a hefyd i adrodd ar sut y cesglir adborth (er bod yr olaf yn wahanol, maent yn rhan o'r un cwestiwn). Ni chyfeirir yn benodol at gydgynhyrchu yn nogfennau'r adolygiad prosiect, er bod rheolwr rhaglen y Gronfa yn tynnu sylw at y ffaith bod gofyn i bob prosiect adrodd ar sut mae'r rhai sydd â phrofiad bywyd yn bwydo i mewn i gynnydd prosiectau.

3.34 Mae'n ofynnol i brosiectau sy'n cael mynediad at gyllid Grant Cymorth Tai, naill ai fel cymorth ychwanegol (e.e., fel rhywbeth i 'ategu' cyllid y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc), neu drwy barhau y tu hwnt i Gam 2 a chael eu 'prif ffrydio' - sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau (yn enwedig y rhai a dangynrychiolir neu a ymylir) wrth wraidd llunio pob agwedd ar y cynnig gwasanaethau (Llywodraeth Cymru, 2020a).

**Defnyddio tystiolaeth**

Trosolwg a chyd-destun

3.35 Mae gweledigaeth Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn ei gwneud yn glir bod angen i awdurdodau lleol ddatblygu dealltwriaeth glir o'r angen am dai, gan gynnwys tueddiadau ar draws gwahanol broffiliau carfannau. Mae hefyd yn pwysleisio y dylid sylfaenu cynlluniau Ailgartrefu Cyflym ar ddata lleol da am anghenion tai a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol. Ar gyfer prosiectau a ariennir, amlygodd adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020a) y dylai'r rhai sydd â phrofiad bywyd gymryd rhan weithredol wrth werthuso'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

3.36 Mae'r adran hon yn ystyried i ba raddau y mae'r rhaglenni gwerthuso yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd, naill ai er mwyn: cyfrannu at ddealltwriaeth o angen a thueddiadau ar draws yr ardaloedd lleol y maent yn gweithredu ynddynt; neu gynnig dysgu ar ba fodelau a dulliau sy'n gweithio orau ym mha gyd-destunau lleol.

3.37 Gall sicrhau bod gan brosiectau brosesau mesur cadarn ar waith helpu i ddangos yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn cyd-destunau penodol ac ar draws gwahanol rannau o'r system, gan alluogi ystyried lle mae bylchau a chyfleoedd.

3.38 Ers sefydlu'r 3 rhaglen ariannu a gynhwysir yn y gwerthusiad hwn, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, gan gynnwys Fframwaith Canlyniadau’r Grant Cymorth Tai newydd (sydd wedi'i weithredu ers mis Ebrill 2023), trwy gyd-drafod â'r sector (Llywodraeth Cymru, 2023b).

# 4. Ailgartrefu Cyflym

4.1 O ystyried y pwyslais penodol ar Ailgartrefu Cyflym o fewn rhaglen Cam 2 a phwysigrwydd allweddol y model hwn i'r strategaeth ddigartrefedd gyffredinol, mae'r gwerthusiad hwn yn ystyried a yw'r 3 rhaglen ariannu wedi cyfrannu at ddatblygiad Ailgartrefu Cyflym ac os ydynt sut maent wedi gwneud hynny, ac at ddysgu am alluogwyr a rhwystrau i Ailgartrefu Cyflym mewn cyd-destunau amrywiol a chyda gwahanol garfannau.

4.2 Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n 3 is-adran:

- **Mynediad at lety addas ac sy'n ddelfrydol yn sefydlog**, sy'n amlwg yn angenrheidiol er mwyn i system Ailgartrefu Cyflym weithio'n effeithiol. Fodd bynnag, efallai na fydd cynyddu cyflenwad tai ar ei ben ei hun yn ddigonol i weithredu Ailgartrefu Cyflym. Er yn cydnabod a chyflwyno tystiolaeth am yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â thai, roedd y tîm ymchwil hefyd yn ystyried y ffactorau isod.
- **Cynnydd a dysgu o ran creu 'system' Ailgartrefu Cyflym**, a all asesu, brysbennu a denu cefnogaeth gan amrywiaeth o wahanol asiantaethau lle bo angen, i ymateb i argyfwng a galluogi ailsefydlu, ac a all leihau llif digartrefedd newydd ac sy'n digwydd dro ar ôl tro.
- **Tystiolaeth o newid mewn diwylliant i ffwrdd o fodel 'grisiau'**, lle mae angen i bobl sy'n profi digartrefedd ddangos 'parodrwydd tenantiaeth' cyn symud ymlaen, a lle mae disgwyl y bydd pobl yn symud wrth i'w hanghenion cymorth newid, yn hytrach na chymorth sy'n dilyn yr unigolyn, gyda llai o symudiadau.

**Mynediad at Dai**

4.3 Thema barhaus yn y cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol oedd diffyg tai addas a fforddiadwy i gyflenwi'r system Ailgartrefu Cyflym ar bob cam, o ran atal, llety dros dro ac ailsefydlu a throsglwyddiadau lle bo angen i helpu cynnal tenantiaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r syniad o ailgartrefu 'cyflym' yn teimlo'n berthnasol bob amser ar lawr gwlad.

4.4 Yn ôl un swyddog cyngor sy'n goruchwylio prosiectau Grant Cymorth Tai, hyd yn oed pan fydd person ifanc mewn tai â chymorth yn cael ei gymeradwyo fel un sy'n barod i symud ymlaen a'i roi yn y band blaenoriaeth uchaf, gall ddal i gymryd blwyddyn neu ddwy i eiddo ddod ar gael, ac erbyn hynny mae rhai 'wedi mynd yn ôl, mae pobl yn colli cymhelliant' (Cyfweliad astudiaeth achos). Mewn maes arall, nid yw pobl ifanc sy'n barod i symud ymlaen o brosiect tai â chymorth a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn cael band blaenoriaeth, oni bai bod ganddynt broblemau meddygol.

4.5 Disgrifiwyd y sector rhentu preifat fel un anfforddiadwy mewn llawer o ardaloedd ac, i bobl iau sydd ar Gredyd Cynhwysol, dim ond ystafell a rennir y bydd y lwfans tai lleol yn ei ariannu, - gyda theimlad bod hyn, hyd yn oed os oedd ar gael - yn 'gam yn ôl' o lety hunangynhwysol â chymorth.

4.6 Mae'r diffyg opsiynau ar gyfer symud ymlaen yn golygu bod pobl yn aros yn llawer hirach na'r hyn a fwriadwyd mewn prosiectau llety â chymorth a ariennir megis fflatiau hyfforddi. Roedd rhai swyddogion a darparwyr cymorth awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan yn teimlo bod pobl weithiau'n cael eu hanwybyddu gan landlordiaid cymdeithasol. Nodwyd gan gyfranogwyr yng ngrwpiau ffocws Cartrefi Cymunedol Cymru fod hyn yn bwnc cymhleth a bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn rhwym wrth bolisïau a phrosesau dyrannu, a gytunwyd yn aml yn lleol arnynt. O fewn y broses ddyrannu weithiau mae gwybodaeth neu ddogfennaeth allweddol ar goll mewn ceisiadau pan gyflwynir cynnig; weithiau mae polisïau gosod sensitif ar waith, efallai oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol neu bresennol mewn ardal. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil bellach i ddeall dyraniadau tai cymdeithasol yn well (Llywodraeth Cymru, 2023a). Amlygodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig densiynau o dan yr wyneb hefyd rhwng awdurdodau lleol, sy'n canolbwyntio am resymau dealladwy ar symud pobl ymlaen o lety dros dro, a landlordiaid sy'n awyddus i greu tenantiaethau cynaliadwy.

4.7 Roedd awdurdodau lleol wedi cymryd amrywiaeth o gamau i geisio cryfhau'r cyflenwad tai, gan ddefnyddio rhywfaint o'u cyllid Cam 2 lle bo hynny'n bosibl i gefnogi hyn:

- Roedd un awdurdod lleol na fu'n llwyddiannus yn unrhyw un o'i geisiadau am gyllid cyfalaf Cam 2 ond roedd wedi defnyddio cyllid refeniw Cam 2 i ddarparu cymorth i breswylwyr 'pentref' newydd ei gaffael o 10 uned llety modiwlaidd un ystafell wely dros dro. Teimlwyd bod y fenter hon wedi bod yn llwyddiant gan yr awdurdod lleol, o ran lleihau gwariant llety dros dro yr awdurdod lleol ac roeddent yn gwerthfawrogi'n arbennig cael rheolaeth dros leoliadau, o ystyried nad ydynt yn dal eu stoc dai eu hunain.
- Roedd awdurdod lleol arall wedi llwyddo i gael rhywfaint o gyllid cyfalaf Cam 2 ac wedi defnyddio hwn i brynu'n ôl 5 o hen eiddo'r cyngor a werthwyd o dan Hawl i Brynu. Mae'r cartrefi hyn yn cael eu gosod drwy'r broses gyd-ddyrannu brif ffrwd. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan yn teimlo'n rhwystredig nad oedd ganddynt yr hyblygrwydd i brynu eiddo eraill a oedd ar y farchnad ar y pryd ac y byddent wedi diwallu anghenion tai lleol yn well ond nad oeddent yn llwyr fodloni safonau gofod cenedlaethol. Byddai'r awdurdod lleol wedi hoffi bod wedi prynu'r tai hyn a oedd ychydig yn llai hyn gydag amod naill ai i'w codi i safonau gofod cenedlaethol neu eu gwerthu dros gyfnod o 10 mlynedd.
- Teimlai trydydd awdurdod, wrth ystyried gwahanol feysydd o weithgarwch Cam 2, mai'r cyllid cyfalaf yr oeddent wedi'i ddefnyddio i wneud caffaeliadau a gafodd yr effaith fwyaf cadarnhaol mewn perthynas â chartrefu parhaol a gallu ailgartrefu'r rhai sy'n profi digartrefedd.

4.8 Roedd cyfranogwyr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn awyddus i ddatblygu tai cymdeithasol newydd i gefnogi'r dull Ailgartrefu Cyflym, ac roeddent yn croesawu cyfalaf ychwanegol i wneud hynny, ond roeddent yn disgrifio oedi a heriau yn hyn o beth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Penderfyniadau ac oedi o fewn y broses gynllunio. Er enghraifft, dywedodd un landlord cymdeithasol ei fod wedi gallu adeiladu bloc

roedd angen mawr amdano o gartrefi un ystafell wely yng nghanol tref, ond bod gwleidyddion lleol wedi llwyddo i lobïo i hyn gael ei ddynodi ar gyfer pobl hŷn.

- Materion lleol sy'n effeithio ar gyflenwad tai. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, mae problem gyda thir halogedig wedi arwain at atal pob cais cynllunio i ddatblygu neu drosi eiddo.
- Amharodrwydd landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu cartrefi un ystafell wely mewn ardaloedd mwy gwledig, lle nad yw blociau mwy o fflatiau yn debygol o gael caniatâd cynllunio, byngalos yn ddrud i'w ddatblygu, a gall fod yn anodd creu tenantiaethau cynaliadwy ar gyfer aelwydydd sengl i unigolion a oedd gynt yn ddigartref mewn ardaloedd lle mae mynediad cyfyngedig at wasanaethau, trafnidiaeth a chyflogaeth.
- Mwy o gostau llafur a deunyddiau oherwydd chwyddiant ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
- Y gofyniad i wario cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru o fewn y flwyddyn ariannol, a'r heriau o adeiladu neu brynu eiddo o fewn y graddfeydd amser hyn.

4.9 Amlygodd y cyfranogwyr rai enghreifftiau o weithio da mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu llety newydd, gan gynnwys cartrefi parhaol i'r rhai sydd â hanes o ddigartrefedd. Roedd un awdurdod lleol wedi partneru gyda chymdeithasau tai i ddatblygu sawl 'cynllun a reolir' o fflatiau hunangynhwysol i ailgartrefu pobl sydd â hanes sylweddol o ddigartrefedd ar gontractau diogel, gyda chefnogaeth ar y safle a mynediad at gymorth amlddisgyblaethol. Gellir ystyried hyn fel ymateb cadarnhaol ar sail tai i heriau cyflenwad cyfyngedig, galw cynyddol am lety dros dro a charfan sylweddol o unigolion sydd wedi bod yn 'cylchredeg o fewn gwasanaethau digartrefedd' ers blynyddoedd lawer. Trafodir yr enghraifft hon yn fanylach yn yr adroddiad gwerth am arian ar wahân.

4.10 Trafodir partneriaethau rhwng prosiectau a ariennir, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yn fanylach ym mharagraff 6.3.

**Mynediad i'r Sector Rhentu Preifat**

4.11 Adborth cyffredinol gan yr holl randdeiliaid oedd bod mynediad i'r sector rhentu preifat wedi dod yn anodd iawn i'r rhai sydd ar incwm isel neu'n dibynnu ar fudd-daliadau i dalu eu rhent. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhenti'r farchnad yn codi i raddau sylweddol uwch na chyfraddau Lwfans Tai Lleol, a oedd - yn ystod y gwerthusiad hwn - wedi aros wedi'u rhewi ers 2019, er bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau ers hynny (Hobson, 2023) i gynyddu'r rhain o fis Ebrill 2024. Canfu ymchwil a wnaed gan Sefydliad Bevan ddechrau 2023 (Sefydliad Bevan, 2023) mai dim ond 1.2% o unedau lety a hysbysebwyd ledled Cymru oedd yn fforddiadwy o fewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol. Roedd canfyddiad cryf hefyd gan rai rhanddeiliaid proffesiynol a gyfwelwyd fod y sefyllfa wedi dod yn anoddach ers gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ym mis Rhagfyr 2022. Adroddwyd bod hyn yn effeithio ar nifer y bobl oedd mewn perygl o ddod yn ddigartref a hefyd ar faint o opsiynau tai sydd ar gael i gefnogi Ailgartrefu Cyflym neu symud ymlaen o lety dros dro a/neu dai â chymorth.

4.12 Mae un prosiect Tai yn Gyntaf yn defnyddio tenantiaethau sector rhentu preifat yn bennaf. Roedd yr un prosiect Tai yn Gyntaf yn nodi manteision sylweddol o hyn – megis gallu rhoi mwy o ddewis ynghylch pa ardaloedd y mae pobl yn byw ynddynt (h.y., nid ardaloedd galw isel yn unig lle mae eiddo cymdeithasol 1 ystafell wely yn tueddu i gael eu canolbwyntio) a gwneud symudiadau rheoledig rhwng unedau llety lle nad yw pethau'n gweithio allan. Mae defnyddio'r sector rhentu preifat yn gofyn am gyswllt rheolaidd â landlordiaid a'r unig ffordd y gall weithio'n ariannol yw oherwydd y gall y prosiect (drwy Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai[3]) ychwanegu at renti Lwfans Tai Lleol, ychwanegiadau a all yn aml fod gannoedd o bunnoedd y

[3] Telir Taliadau Tai Dewisol (DHPs) i unigolion sydd eisoes yn derbyn naill ai Credyd Cynhwysol (Elfen Tai) neu Fudd-dal Tai i ddarparu cymorth pellach gyda rhent. Gwneir taliadau yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol, gyda chyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu gan Lywodraeth Cymru. Ni ddarparwyd gwybodaeth i werthuswyr ynghylch pa un o'r ffynonellau cyllid gwreiddiol hyn a ddarparodd y taliadau tai dewisol a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn.

mis. Hyd yn oed gyda hyn yn ei le, mae staff prosiectau wedi gweld rhai o'u landlordiaid preifat presennol yn tynnu'n ôl o'r farchnad yn gyfan gwbl - mae rhai landlordiaid wedi cyhoeddi gorchmynion troi allan Adran 21 – neu'n dod yn fwyfwy cyndyn i ymgymryd â thenantiaethau Tai yn Gyntaf newydd, rhywbeth y mae staff y prosiect yn ei briodoli i effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru). Mae staff y prosiect bellach yn gweithio ar feithrin perthynas â landlordiaid cymdeithasol, er eu bod yn cydnabod yr her fod ar rai pobl eisiau dechrau o'r newydd y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond eu bod wedi'u cyfyngu oherwydd rheolau cysylltiad lleol.

4.13 Defnyddiodd awdurdod lleol arall o’r astudiaethau achos rywfaint o'i gyllid Cam 2 i ychwanegu swydd Swyddog Mynediad i’r Sector Rhentu Preifat at yr Asiantaeth Gosod Lleol mewnol roedd wedi'i sefydlu yn 2015. Mae gan y swydd hon gylch gwaith penodol i frocera lleoliadau llety dros dro yn y sector rhentu preifat. Esboniodd trydydd awdurdod eu bod wedi bod yn defnyddio Taliadau Disgresiwn at GostauTai i dalu'r bwlch rhwng rhenti'r sector preifat marchnad a chyfraddau Lwfans Tai Lleol:

> "Ond os edrychwch chi ar y bwlch nawr tybed ai dyna'r defnydd gorau o arian – mae’n wir efallai y byddwn ni'n cwmpasu'r bwlch am 6-12 mis ond wedyn beth? Ai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw bod yn warantwr rhent am gyfnod amhenodol ac a yw hynny mewn gwirionedd yn atal digartrefedd … neu ddim ond glynu plaster?' (Un a gyfwelwyd o awdurdod lleol, mewn astudiaeth achos).

4.14 Disgwylir i'r cynnydd a gyhoeddwyd yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol o fis Ebrill 2024 gael effaith gadarnhaol ar yr heriau hyn.

**Creu Strategaeth Ailgartrefu Cyflym**

4.15 Roedd paragraff 2.14 yn cynnwys diagram yn disgrifio elfennau allweddol system Ailgartrefu Cyflym ac amlygodd bwysigrwydd edrych ar Ailgartrefu Cyflym fel dull system gyfan.

4.16 Mae'r adran hon yn nodi enghreifftiau a nodwyd gan y gwerthusiad fel rhai sy'n ymddangos fel pe baent yn gweithio i wella taith addas a chynaliadwy pobl trwy system Ailgartrefu Cyflym yng Nghymru.

Brysbennu ac asesu

4.17 Esboniodd un awdurdod ei fod wedi derbyn cyllid refeniw ar gyfer ei fodel brysbennu gan Gam 2, ynghyd â thempled gwerthfawr ar gyfer y model o fewn canllawiau Cam 2, a oedd wedi rhoi digon o awdurdod iddynt berswadio asiantaethau ac adrannau eraill i ymuno. Roedd y cynllun peilot wedi eu galluogi i ddangos pwysigrwydd hanfodol 'brysbennu' – wedi'i gyflwyno drwy ganolfan amlasiantaeth gyda gwasanaethau allgymorth yn annog pobl i fanteisio arno:

> "Mae asesiad amlddisgyblaethol yn gam cyntaf hanfodol lle rydych chi'n ceisio ailsefydlu pobl sydd ag anghenion lluosog a chymhleth...... Rydym wedi cael pobl eithaf ifanc yn mynd yn uniongyrchol oddi yno i ofal preswyl, felly mae angen i chi wneud hynny fel cam cyntaf tuag at Ailgartrefu Cyflym. Dydych chi ddim eisiau ailgartrefu'n gyflym i fethiant.' (Cyfweliad astudiaeth achos)

Gweithwyr sydd ‘ynghlwm’ wrth y person

4.18 Er bod rôl barhaus i lety â chymorth (lle mae'r llety a'r cymorth yn dod at ei gilydd fel pecyn), mae perygl y bydd pobl yn wynebu 'ymylon dibyn’ wrth iddynt symud allan o lety â chymorth. Mae yna hefyd y risg y byddant ynghlwm wrth lety tymor byr â chymorth lle nad oes gwir angen y gefnogaeth arnynt bellach oherwydd bod diffyg llety sefydlog i symud iddo. Y teimlad oedd gan y rhai a gyfwelwyd oedd y byddai cael rhai gweithwyr sydd ynghlwm wrth y person, yn hytrach na'r llety y maent ynddo ar hyn o bryd, yn rhoi parhad mewn perthynas ac eiriolaeth i ganfod a chael mynediad at opsiynau tai a'r cymorth sydd ei angen i'w cynnal.

4.19 Er enghraifft, roedd un awdurdod lleol wedi defnyddio peth o'i gyllid Cam 2 i gyflogi 'Gweithwyr Ailgartrefu Cyflym'. Mae'r awdurdod lleol yn teimlo bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylfaenol i’r ffordd mae'r system yn gweithio, er bod y niferoedd mewn Gwely a Brecwast wedi cynyddu mwy na phedair gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf a phrinder enfawr o denantiaethau un ystafell wely i symud pobl atynt. Nawr, gall y Gweithwyr Ailgartrefu Cyflym gynnig cymorth llawer mwy dwys i'r rhai sydd mewn llety dros dro nag y gallai gweithwyr achos Opsiynau Tai o'r blaen. Maent yn cynnig gwiriadau llesiant, yn ymweld â llety Gwely a Brecwast i roi 'cymorthfeydd' allgymorth, adborth a mynd ar drywydd ceisiadau digartrefedd a thai, helpu pobl i gael gafael ar feddyginiaeth a'u cysylltu â gwasanaethau gofal a chymorth eraill. Adroddwyd bod hyn wedi 'sefydlogi' pobl, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwella cyflymder ac effeithiolrwydd ailgartrefu, er gwaethaf heriau gyda diffyg cyflenwad tai.

4.20 Yn gwbl allweddol, pan fydd person yn symud i denantiaeth newydd, mae'r Gweithwyr Ailgartrefu Cyflym yn 'rhychwantu’r llety dros dro ac yn gwneud y gefnogaeth ailsefydlu fel nad oes bwlch yn y gefnogaeth ar ddechrau tenantiaeth' (Cyfweliad mewn astudiaeth achos). Yn y gorffennol, byddai gweithwyr achos yn gwneud atgyfeiriad i'r tîm cymorth tenantiaeth pan fyddai rhywun yn cael tenantiaeth newydd, ac fel arfer byddai angen disgwyl ychydig wythnosau ac adeiladu perthynas â gweithiwr newydd. Roedd hyn ar yr union adeg pan oedd angen cymorth dwys ar bobl i sefydlu yn eu cartref newydd - roedd swyddogion awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld yn rhoi enghraifft o bobl yn cefnu ar eiddo a oedd newydd ei ddyrannu iddynt oherwydd nad oedd ganddynt gyfleustodau. Bellach, gall y Gweithiwr Ailgartrefu Cyflym gynnig parhad ac, os oes angen cymorth tenantiaeth parhaus ar rywun, sicrhau bod trosglwyddiad di-dor.

4.21 Mae enghreifftiau eraill o wasanaethau a ganfuwyd o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn sy'n cynnig parhad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws mathau allweddol o bontio sy’n cynnwys:

- Gwasanaethau sy'n gallu cefnogi ac eirioli dros bobl ifanc, gan aros ynghlwm gyda nhw wrth iddynt symud trwy wahanol lety.
- Tai yn Gyntaf i'r Rhai sy'n Gadael Carchardai, sy'n cydgysylltu ac yn asesu pobl ag anghenion lluosog a chymhleth tra byddant yn y carchar i drefnu mynediad i dai a darparu cymorth cofleidiol wrth gael eu rhyddhau.
- Ymyrraeth Amser Allweddol, sy'n darparu 9 mis o gymorth dwys i bobl sy'n gadael y ddalfa.

Cynyddu a lleihau cymorth yn hyblyg yn ôl yr angen

4.22 Rhan allweddol arall o system lwyddiannus seiliedig ar dai yw bod digon o hyblygrwydd i ailgynyddu cefnogaeth ar adegau o argyfwng ac atal pobl rhag mynd yn ddigartref a gorfod dechrau yn ôl ar ddechrau llwybr. Disgrifiodd un gweithiwr hyn fel 'cynllunio ar gyfer pobl i ddod yn ôl o gwmpas eto' (Cyfweliad astudiaeth achos).

4.23 Er ei fod wedi'i seilio ar brosiect llety â chymorth bach iawn, mae prosiect arbenigol ar gyfer pobl ifanc LHDTC+ yn rhoi pwyslais cryf ar allgymorth ataliol i sicrhau lle bynnag y bo'n bosibl nad oes angen i bobl symud i mewn, a bod y rhai sy'n symud allan yn setlo'n dda. Mae'r prosiect yn cydnabod bod pobl ifanc yn aml nad ydynt yn dilyn llwybr llinellol ac mae digon o hyblygrwydd i ymateb i hyn wedi'i ymgorffori yn y model:

> "Cafodd rywun arall un neu ddau o gamau gwag wrth symud allan - oherwydd ein system, roedden ni'n gallu gweithio gyda nhw'n fwy hyblyg. Efallai na fyddai'n gweithio allan ac ni wnaeth, ond roedd popeth yn iawn, gan ei fod yn gallu dod yn ôl a theimlo'n iawn am y ffaith ei fod wedi methu, oherwydd nid oedd yn fethiant mewn gwirionedd. Mae wedi bod yn byw yn annibynnol ers tua 15 mis … roedd yn gallu goroesi'r dechreuadau ofer hynny heb farnu." (Cyfweliad astudiaeth achos)

4.24 Yn y modd hwn, mae'r prosiect yn cyfrannu at yr hyn a elwir yn 'atal trydyddol' yn Nhabl 1 (gweler Paragraff 2.8).

Newid Diwylliant

4.25 Ymhlith y rheini a gymerodd ran, roedd rhywfaint o ddryswch gan staff gweithredol yn enwedig ynghylch y term 'Ailgartrefu Gyflym' a rhywfaint o anesmwythyd ynghylch ei ddefnydd. Codwyd pryderon gan y rheini a gyfwelwyd o awdurdodau lleol am y term 'Ailgartrefu Cyflym' (er nad am yr ethos sy'n sail iddo) gan ei fod mewn perygl o godi disgwyliadau ynghylch pa mor gyflym y gall person 'gael tŷ' os yw'n ddigartref

4.26 Roedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran mewn cyfweliadau yn glir ynghylch pwysigrwydd dileu'r amodau i gael mynediad i dai cymdeithasol, yn enwedig i'r rhai sydd â hanes hirdymor o ddigartrefedd, trawma ac anghenion cymhleth. Disgrifiodd gweithwyr o brosiectau (oedolion) Tai yn Gyntaf yn yr astudiaethau achos yr effaith drawsnewidiol i lawer o'u cleientiaid o gael cartref eu hunain. Pwysleisiodd eraill a gyfwelwyd o awdurdodau lleol bwysigrwydd gweld tenantiaeth yn cael ei gynnal fel y prif amcan:

> "Gall fod llawer o ddisgwyliad y bydd Tai yn Gyntaf yn newid ymddygiad pobl, ond efallai mai dyma'r ffordd orau o gadw to dros ben rhywun." (Cyfweliad astudiaeth achos)

4.27 Roedd yr awdurdod lleol a oedd wedi datblygu 'cynlluniau a reolir' (y soniwyd amdanynt uchod ac a ddisgrifir yn fanylach yn yr adroddiad Gwerth am Arian cysylltiedig) wedi gwneud hynny oherwydd eu bod am 'symud i ffwrdd o'r model grisiau' ac, yn hytrach na 'rhedeg hostel', darparu 'tai parhaol, i atal pobl rhag dod yn ôl o gwmpas y system'.

4.28 Fodd bynnag, nid oedd y safbwyntiau hyn yn gyffredin ymysg y rhai a gyfwelwyd. Roedd yna ymdeimlad cryf o hyd gan lawer o bobl sy’n gweithio mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth a chymdeithasau tai bod angen i bobl fod, neu nad oeddent eto yn 'barod am denantiaeth'.

4.29 Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch pa garfannau o bobl roedd Ailgartrefu Cyflym yn berthnasol ar eu cyfer. Roedd rhai yn teimlo ei fod wedi'i fwriadu

ar gyfer y 'rhai mwyaf bregus', ac roedd eraill yn credu ei fod yn 'fwy addas i deuluoedd'. Roedd pryderon penodol ynghylch sut roedd Ailgartrefu Cyflym yn berthnasol i bobl iau:

> "Mae llawer o'r Ailgartrefu Cyflym yn cymryd yn ganiataol bod pobl yn barod i denantiaeth ac yn gallu mynd mewn i'w tenantiaeth eu hunain – mae llawer o’r rhai rydym y neu hatgyfeirio nad ydynt yn barod am hynny, dydyn nhw ddim yn barod i reoli eu drws ffrynt eu hunain... mae angen tai â chymorth, llety a rennir arnynt i gael y cymorth dwys. Maen nhw'n dal yn ifanc, maen nhw angen y cam ar y ffordd hwnnw - mae angen iddo fod yn llwybr tebyg i risiau - mwy o daith.'

4.30 Roedd rhai o gyfranogwyr yr awdurdod lleol yn amau a oedd grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel menywod neu bobl ifanc LHDTC+, yn wynebu rhwystrau yn y ddarpariaeth brif ffrwd ac a oedd ganddynt anghenion a oedd yn ddigon gwahanol i gyfiawnhau prosiectau arbenigol tai â chymorth neu Tai yn Gyntaf.

4.31 Roedd rhai darparwyr cymorth a swyddogion awdurdodau lleol yn glir eu barn ynghylch gwerth gallu 'troi' neu drosi tenantiaeth o anghenion cyffredinol â chymorth ('eithriad penodedig') yn un anghenion cyffredinol, lle roedd person wedi setlo yn yr eiddo, ond bod y gefnogaeth wedi dod i ben, neu eu bod wedi cael swydd. Rhoddodd aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru a oedd yn cymryd rhan yn y grŵp ffocws ymatebion cymysg i'r dull hwn - roedd rhai yn awyddus i hyrwyddo'r dull; roedd eraill o'r farn ei bod yn haws i'r gymdeithas dai 'symud y person' na mynd drwy'r broses o drafod gyda chydweithwyr yn yr adran Budd-dal Tai a chanfod eiddo arall i'w ddynodi fel un â chymorth. Mae hyn yn awgrymu diwylliant lle mae prosesau a systemau'n tueddu i orbwyso anghenion yr unigolyn.

4.32 Codwyd cwestiynau gan rai o'r rheini a holwyd am weledigaeth hirdymor Tai yn Gyntaf. Roedd rhai'n poeni bod cynlluniau'n llenwi’n gyflym, ond yn tyfu’n araf (oherwydd heriau yn cael mynediad at dai ac ehangu'r tîm cymorth), ac, unwaith eu bod yn llawn, mai ychydig iawn o drosiant sydd, o ystyried natur barhaus y gefnogaeth. Mynegodd rhai pobl bryderon bod y model yn annog

'dibyniaeth' ac y dylai fod yn canolbwyntio mwy ar baratoi pobl - yn enwedig pobl iau - ar gyfer annibyniaeth, trwy beidio 'gwneud gormod drostyn nhw' neu 'estyn cymorth iddyn nhw’n barhaus'. Roedd yn amlwg fod gan lawer o'r rhai sy’n gwsmeriaid Tai yn Gyntaf ers amser maith anghenion gofal iechyd uchel, ac y gallai eu hangen am gymorth gynyddu yn hytrach na lleihau dros amser – pwynt a archwiliwyd yn astudiaethau achos gwerth am arian, ac mewn ymchwil cynharach a gynhaliwyd gan IBA (Blood, Birchall a Pleace, 2021).

# 5. Atal ac Ymyrryd Cynnar

5.1 Ystyriodd y gwerthusiad hwn y ffyrdd y mae prosiectau a ariennir yn cyfrannu at amcanion polisi cenedlaethol allweddol, a sut y gallent fod yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu nodau, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae hyn yn edrych ar draws y llwybr cyfan (gan roi sylw i adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd). Mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar ffyrdd y mae digartrefedd yn cael ei atal yn y lle cyntaf; atal neu leihau'r defnydd o lety brys a dros dro (fel y'i hystyrir yn y bennod Ailgartrefu Cyflym); a chamau gweithredu i leihau'r tebygolrwydd y bydd digartrefedd yn digwydd eto.

5.2 Mae llawer o brosiectau o fewn y sampl yn gweithio gyda phobl sydd eisoes yn ddigartref a/neu sydd â hanes hir o ddigartrefedd neu ansefydlogrwydd llety, gan gynnwys cysgu allan. Roedd y rhai sy'n defnyddio prosiectau seiliedig ar lety yn tueddu i gael eu hadnabod unwaith eu bod eisoes wedi mynd i mewn i'r system digartrefedd statudol, naill ai trwy wneud cais fel rhywun digartref, wrth gael eu symud trwy dai â chymorth, neu adael gofal (yn hytrach na chefnogi rhywun tra eu bod mewn gofal). Yr unig le mae 'atal' yn berthnasol i'r prosiectau hyn yw lle mae iddynt y nod o helpu pobl i adael digartrefedd mewn modd cynaliadwy.  Mae hyn yn groes i wariant 'acíwt' sydd wedi'i ddisgrifio gan Fitzpatrick, Mackie a Wood (2021) fel 'rhwystro rhag digwydd eto'.

5.3 Fodd bynnag, mae rhai o brosiectau’r astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad hwn yn ceisio gweithio’n rhagofalus gyda phobl (gellir dadlau mai 'atal eilaidd' yw hyn). Er enghraifft, targedu'r rhai sy'n gadael gofal neu garchar, neu gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

5.4 O 7 prosiect y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc sy'n cynnig cefnogaeth fel y bo'r angen, mae pob un yn cyfeirio at ryw elfen o waith ymyrraeth gynnar.

5.5 Mae'r prosiectau Tai yn Gyntaf, oherwydd natur y gwasanaeth (h.y., gweithio gyda phobl sydd ag anghenion lluosog a chymhleth a/neu brofiad o gysgu

allan) – yn gweithio gyda phobl sydd naill ai eisoes wedi mynd heibio i 56 diwrnod, neu sy'n debygol o ddod yn ddigartref heb gael mynediad i'r gwasanaeth. Pan fydd defnyddwyr gwasanaethau’n cael eu gosod mewn llety (boed yn llety â chymorth neu lety barhaol), disgwylir i brosiectau weithio tuag at sicrhau cynnal tenantiaeth yn y dyfodol er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd yn y dyfodol. Mae un o'r prosiectau Tai yn Gyntaf sydd wedi'u hariannu, wedi datblygu is-brosiect newydd sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n gadael carchar; mae hyn yn ymwneud â phobl tra byddant yn y ddalfa er mwyn atal digartrefedd wrth gael eu rhyddhau.

5.6 O ran defnyddio lety dros dro, soniodd pob prosiect sy'n gysylltiedig â llety am leihau'r defnydd o lety dros dro trwy gynnig llwybr amgen (gydag asesiad o gymorth rhagofalus fel bo’r angen fel allwedd i atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf, gweler isod). Fodd bynnag, gan fod y mannau hynny wedi llenwi, mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn gweithredu rhestr aros - sy'n golygu nad yw cyfeirwyr yn gallu cael mynediad cyflym i'r llwybrau amgen er mwyn atal pobl rhag mynd i lety dros dro.

**Arferion Da a Galluogwyr**

Canolbwyntio ar anghenion grwpiau penodol

5.7 Mewn safleoedd astudiaethau achos lle canolbwyntiwyd ar waith rhagofalus, canfu'r tîm ymchwil enghreifftiau o arferion addawol a chyfle i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio wrth ymwneud â grwpiau penodol – yn enwedig pobl iau (er y rhai ag anghenion lluosog a chymhleth hefyd, a ystyriwyd isod). Mabwysiadodd un prosiect y meini prawf atgyfeirio neu hunangyfeirio isaf bosibl er mwyn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hyn yn golygu bod y prosiect yn derbyn unrhyw atgyfeiriadau gan, neu ar ran, unrhyw un sydd o fewn eu hystod oedran ac sydd ag unrhyw fath o broblem yn ymwneud â thai - yr unig reswm y maent yn gwrthod atgyfeiriad yw os yw wedi dod gan weithiwr proffesiynol ac nad yw'r person ifanc eisiau'r atgyfeiriad neu os oes camddealltwriaeth wedi bod ynghylch yr hyn y gallai'r

gwasanaeth ei gynnig. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd wedi meithrin partneriaethau atgyfeirio gydag amrywiaeth helaeth o asiantaethau i gynnwys pobl ifanc sydd ag unrhyw fath o broblem yn ymwneud â thai, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Plant i sylwi ar unigolion wrth bontio allweddol a/neu lle mae tenantiaeth neu sefyllfa'n ymwneud â chartref y gellid efallai ei chynnal. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau Gadael Gofal a thimau Ymyriad Teuluol sy'n gweithio gyda rhieni ifanc sydd mewn perygl o golli tenantiaethau a/neu blant i ofal yn ogystal â phobl ifanc eraill y mae eu trefniadau byw mewn perygl. Fel y soniwyd yn yr adran flaenorol, mae prosiect sy'n gweithio gyda phobl ifanc LHDTC+ yn cyflawni gwaith ataliol ochr yn ochr â llety â chymorth i archwilio opsiynau amgen; mae'n cyflawni hyn drwy ddarparu hyfforddiant i sefydliadau ar lefel leol/rhanbarthol a thrwy gynnig allgymorth un i un.

Cefnogi ymyrryd cynnar

5.8 Mae dysgu o'r prosiectau allgymorth hynny a oedd o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn yn dangos sut y gall cynnig cymorth fel y bo'r angen gyflawni atal digartrefedd yn fwy rhagofalus. Ar sail ffurflenni cynnydd, mae'r holl brosiectau sy'n ymgorffori elfen cymorth fel bo'r angen yn adrodd am ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag atal digartrefedd, yn enwedig trwy gyfryngu gyda theuluoedd neu ofalwyr eraill, neu drwy sicrhau llety arall. Fodd bynnag, ni allwn adrodd union rifau yma, oherwydd nad yw dulliau casglu data yn cael eu cofnodi'n gyson (ystyrir hyn yn Adran 9, sy'n ymwneud â'r defnydd o dystiolaeth i fesur perfformiad ac effaith).

5.9 Soniodd swyddogion prosiectau a gyfwelwyd am sut roedd eu gwasanaeth wedi atal pobl rhag mynd drwy'r system ddigartrefedd yn gyfan gwbl trwy ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, neu gyfryngu lle mae cydberthynas mewn perygl o chwalu (a oedd yn ei dro yn lleihau naill ai nifer yr achosion neu hyd y defnydd o lety dros dro). Mewn un achos, esboniodd un o'r rhai a gyfwelwyd oedd â phrofiad bywyd sut roedd y prosiect wedi ei atal rhag dod yn ddigartref oherwydd iddo fynd i'r ddalfa:

"Gynt, pan dw i wedi dod allan dw i heb gael llety ... Dw i newydd fynd yn ôl i'm hen arferion a diweddu'n ôl yn y carchar … y tro hwn cefais gysylltiad â [gweithwyr prosiect] ... Roedden nhw'n mynd i'm rhyddhau fel rhywun heb gartref sefydlog, ond fe frwydrodd [y gweithiwr] i mi gael rhywle ... Cawsom gyfarfodydd ar y cyd gyda'r swyddog tai i wneud hyn. Fe wnaeth [y gweithiwr] helpu i wneud yn siŵr fy mod i'n cael yr hyn yr oedd gen i hawl iddo." (Cyfweliad astudiaeth achos – un a phrofiad bywyd).

5.10 Er bod ymyrraeth gynnar yn cael ei hymgorffori yn bennaf trwy brosiectau a oedd yn cynnig cefnogaeth fel bo'r angen, nid oedd hyn bob amser yn wir. Er enghraifft, cymerodd prosiect Tai yn Gyntaf, drwy gydnabod bod canolbwyntio ar bobl sy'n cysgu allan yn golygu nad oeddent yn darganfod y digartref cudd (ee, cysgu o soffa i soffa - y teimlwyd ei fod yn effeithio ar fenywod yn benodol) yn cymryd camau i ddarparu ar gyfer y grŵp hwn, a allai yn ei dro atal y bobl hyn rhag cyflwyno'u hunain i'r awdurdod lleol yn ddiweddarach.

Cefnogi integreiddio ac annibyniaeth

5.11 Roedd cael yr hyblygrwydd a'r sgiliau i weithio gyda beth bynnag sy'n flaenoriaeth i'r unigolyn a chynnig cefnogaeth gyfannol ar sail hynny – yn hytrach na chanolbwyntio ar y broblem tai yn unig yn cael ei ystyried gan staff gweithredol a phobl â phrofiad bywyd fel y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod canlyniadau atal yn cael eu cynnal. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynnig amrywiaeth o gymorth gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, hyfforddiant tenantiaeth, magu hyder, ac integreiddio cymunedol, wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn.

5.12 Amlygodd defnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran yn y gwerthusiad, yn enwedig pobl ifanc a'r rhai ag anghenion lluosog a chymhleth, sut roedd y gefnogaeth ddwys a gynigir drwy brosiectau wedi'u targedu yn eu helpu i ddod yn fwy sefydlog. Gwelwyd hyn gan ddefnyddwyr gwasanaethau fel

elfen allweddol i'w hatal rhag mynd drwy'r system ddigartrefedd eto yn y dyfodol:

> "Mae gen i fwy o wybodaeth nawr am y denantiaeth a beth mae'n ei olygu, deall y broses a beth i'w wneud. Rwyf hefyd yn gwybod beth yw eich hawliau ac yn talu rhent allan o fudd-daliadau. Pethau ymarferol yn y denantiaeth roedd angen i mi wybod ... [y gweithwyr] yn esbonio peth o'r dryswch a fyddai'n golygu na fyddwn i'n cario 'mlaen weithiau'. (Cyfweliad astudiaeth achos un â phrofiad bywyd yn y gorffennol).

> "Mae'n debyg fy mod i'n gwybod llawer mwy nag o'n i cyn i mi symud i mewn i'r fflatiau hyfforddi. Mae'n teimlo fel gwybodaeth gyffredin nawr." (Cyfweliad astudiaeth achos un â phrofiad bywyd yn y gorffennol).

5.13 I bobl sydd ag anghenion lluosog a chymhleth yn enwedig, roedd cefnogaeth ddwys yn cael ei hystyried yn hanfodol i gefnogi symud ymlaen yn gadarnhaol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd digartrefedd yn digwydd eto (fodd bynnag, mae'r broses hon yn golygu y gall gymryd amser sylweddol i fesur allbynnau atal yn y dyfodol). Dywedodd un a gyfwelwyd a oedd mewn llety dros dro, ac sy'n derbyn cefnogaeth fel y bo'r angen trwy nyrs iechyd meddwl, wrthym sut roedd hyn yn ei helpu i gael ei fywyd yn ôl ar y trywydd iawn a pharatoi i symud i lety sefydlog.

> "Fe ges i fy adalw y llynedd i'r carchar... Collais fy mam pan oeddwn mewn carchar [dod yn ddigartref] ac roeddwn mewn lle gwael. Mae [y gweithiwr cymorth] wastad yn dod i'r hostel - mae hi'n dod i fy ngweld i a dwi'n gwerthfawrogi hyn yn fawr... Dw i'n gallu agor allan wrthi am stwff sensitif - fe wnaethon ni glicio yn syth... [mae hi] yn mynd â fi am goffi a mynd am dro ac mae hi'n dweud y gallaf i ffonio hi ar unrhyw adeg. Rhai dyddiau mae fy iselder yn ddrwg - ond gallwch siarad â rhywun... dw i wedi dechrau garddio a dw i'n siarad [ar banel profiad bywyd]. Gynt, byddwn yn mynd yn dawel, fe wnaeth hi fy helpu i agor allan, mae hi mor amyneddgar. Dw i wedi bod yn y carchar ar hyd fy oes fel oedolyn - gallwn syrthio'n ôl yn hawdd heb gadw'n brysur. Dw i ar y gofrestr ar gyfer llety nawr – dw i ddim yn meddwl [fy mod i] yn barod i symud ymlaen eto -

> does dim pwysau sy'n beth da... Dyma'r hiraf i mi fod allan o'r carchar nawr." (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws gwasanaethau eraill

5.14 Roedd rhai prosiectau yn cyfeirio at asiantaethau ar draws sectorau yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r rôl y gallant ei chwarae o bosibl wrth adnabod ac ymateb i'r rhai sydd mewn risg o ddigartrefedd. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hyn wedi gwella o ganlyniad i'r pandemig. Mae rhywfaint o weithgarwch ar y gweill i godi ymwybyddiaeth bod digartrefedd yn 'gyfrifoldeb ar bawb', nid gwasanaethau digartrefedd yn unig, e.e., awdurdodau gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad ar y cyd sy'n cynnwys partneriaid statudol a chymunedol a gwirfoddol i ystyried pa rôl y gall pob un ei chwarae.

5.15 Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod llawer o'u haelodau sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn buddsoddi'n sylweddol mewn amrediad eang o wasanaethau i atal tenantiaeth rhag chwalu (e.e. cynyddu incwm, cyngor ar effeithlonrwydd ynni, cymorth tenantiaeth) a'u bod yn gweld galw enfawr am y gwasanaethau hyn ar ôl COVID-19 ac yn sgil yr argyfwng costau byw.

**Rhwystrau**

Diffyg modelau ymyrraeth gynnar wedi'u hymgorffori mewn prosiectau

5.16 Fel yr amlygwyd ar ddechrau'r adran hon, dylai 'atal gwirioneddol' ddechrau cyn y 56 diwrnod pryd mae dyletswydd statudol yn dechrau, gyda'r dyletswyddau hynny'n cael eu trin fel y 'rheng olaf o amddiffyniad' pan fydd gweithgareddau i'w hatal wedi methu. Ar hyn o bryd adroddodd y rhan fwyaf o brosiectau a ariannwyd fod eu prif lwybrau atgyfeirio yn dod trwy lwybrau lle mae gwasanaethau digartrefedd statudol eisoes yn chwarae rhan, oherwydd bod cymysgedd o wasanaethau statudol o dan bwysau neu oherwydd diffyg cyflenwad o opsiynau dros dro addas. Roedd hwn yn

broblem benodol i bobl ifanc - gyda rhai cyfwelwyr yn adrodd am brinder, neu ddim, opsiynau wedi'u teilwra ar gyfer y grŵp oedran hwn yn eu hardal - lle mae opsiynau ar gael, cyfeiriodd staff at 'dagfeydd' oherwydd diffyg llety symud ymlaen. Er nad oes amheuaeth bod angen y llwybrau atgyfeirio hyn, ac y gallant gefnogi llwybrau effeithiol trwy wasanaethau digartrefedd, mae'n golygu mai cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael (y tu hwnt i'r ychydig enghreifftiau a ddarperir uchod) i brosiectau fabwysiadu dull ymyrryd cynnar.

5.17 Pan oedd un awdurdod lleol wedi penderfynu ariannu drwy Grant Cymorth Tai ymestyn prosiect y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gwmpasu eu hardal, roedd yr awdurdod wedyn yn rheoli atgyfeiriadau i'r prosiect. Daeth y gwaith agosach hwn rhwng y prosiect a'r awdurdod comisiynu â llawer o fanteision ond cyfyngodd ar ddisgresiwn y prosiect i weithio'n fwy rhagofalus yn y maes hwnnw.

Llai o ganolbwyntio ar integreiddio cymunedol

5.18 Yn aml mae angen darparu cymorth nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â thai er mwyn sicrhau bod pobl yn fwy tebygol o gynnal llety yn y dyfodol (gan felly atal digartrefedd rhag digwydd neu ddigwydd eto). Eto i gyd, mewn un prosiect, roedd rhai staff cymorth tai yn teimlo nad oedd cymorth integreiddio cymunedol gysylltiedig yn werthfawr. Eu barn nhw oedd y byddai adnoddau'n cael eu defnyddio'n well i ddarparu mwy o gymorth ar sail llety.

Bylchau mewn casglu data

5.19 Er bod cofnodion monitro yn rhoi rhyw syniad i ba raddau y mae digartrefedd (boed yn barhaus neu drwy ymyrraeth gynnar) yn digwydd, efallai bod hyn yn cael ei rwystro gan ddiffyg data wedi'i dargedu neu gasglu tystiolaeth ar draws prosiectau. Gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a) bwysleisio'r angen i awdurdodau lleol asesu eu perfformiad atal presennol a dangos sut i wella hyn, mae'r diffyg cysylltiad trwy brosiectau a ariennir yn gyfle a gollwyd.

### Diffyg opsiynau llety

5.20 Fel yr amlygwyd yn y bennod ddiwethaf, mae canfyddiad cyson ar draws yr adroddiad yn ymwneud â'r cyflenwad. Mae'r diffyg llety addas a adroddwyd ar draws pob awdurdod lleol yn rhwystro sylweddol rhag gweithredu dull atal, yn enwedig trwy ymyrraeth gynnar.

## 6. Gweithio ar y cyd

6.1 Ym mhob cyfweliad â gweithwyr, rheolwyr a phobl sy'n defnyddio prosiectau a ariennir, bu'r tîm ymchwil yn holi pa mor hawdd oedd cyrraedd gwasanaethau ehangach i gyd-weithio â nhw. Mae un prosiect brysbennu ac asesu aml-asiantaeth a ariennwyd yn ystod Cam 2 wedi'i gynnwys fel astudiaeth achos. Trafodwyd y dulliau aml-asiantaeth a ddefnyddiwyd yn ystod cam 2 a thu hwnt hefyd yn y tair astudiaeth achos o awdurdodau lleol. Lle canfuwyd gwaith partneriaeth cadarnhaol yn yr astudiaethau achos Tai yn Gyntaf a’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, cafodd cynrychiolwyr eu cyfweld o'r Gwasanaeth Prawf, Gwasanaethau Plant a rheolwr yn goruchwylio tîm amlddisgyblaethol, a oedd yn atyfeirio a rheoli achosion cleientiaid ar y cyd â'r prosiectau hyn.

6.2 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau plant, gofal cymdeithasol i oedolion a'r sector cymunedol a gwirfoddol ehangach. Caiff gweithio mewn partneriaeth rhwng prosiectau a ariennir, landlordiaid cymdeithasol a swyddogaethau digartrefedd a chymorth tai awdurdodau lleol eu hystyried yn yr adran ganlynol.

### Partneriaethau gyda Gwasanaethau Tai a Digartrefedd

6.3 Yn yr adran hon, ystyrir tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth:

- Rhwng prosiectau a ariennir sy'n cael eu rhedeg y tu allan i'r awdurdod lleol a swyddogaethau digartrefedd yr awdurdod lleol (opsiynau tai, comisiynu grantiau cymorth tai, gwasanaethau strategol tai / digartrefedd, dyraniadau tai, etc); a
- Gyda darparwyr tai cymdeithasol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol).

6.4 Roedd enghreifftiau o weithio da mewn partneriaeth rhwng prosiectau a ariennir a darparwyr tai. Er enghraifft, esboniodd un prosiect Tai yn Gyntaf sut y bu i gymdeithas dai y mae wedi adeiladu perthynas dda â hi gadw

eiddo a ddyrannwyd yn wag am sawl mis tra bod y tenant newydd yn ddifrifol wael yn yr ysbyty. Yna, bu'r gymdeithas dai yn gweithio gyda'r prosiect am yr ychydig flynyddoedd wedyn i reoli problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r tenant ar y cyd, cyn cytuno i'w trosglwyddo i eiddo mewn ardal wahanol er mwyn iddynt gael dechrau o'r newydd.

6.5 Fodd bynnag, ar y cyfan, canfu'r gwerthusiad, hyd yn oed pan fydd prosiectau'n dangos modelau addawol o ailgartrefu / atal digartrefedd parhaus, nad ydynt o reidrwydd wedi'u hintegreiddio'n effeithiol o fewn system Ailgartrefu Cyflym leol ehangach. Canfu'r tîm ymchwil yr hwyluswyr a'r rhwystrau canlynol i hyn.

6.6 Roedd ymwybyddiaeth, awydd a chapasiti prosiectau i herio amodoldeb ac eirioli dros yr hawl i gartrefu'r rhai y maent yn eu cefnogi o fewn systemau dyraniadau tai ehangach yn amrywio. Roedd yn amlwg fod y cyfnod pontio yn y symudiad i lety mwy parhaol yn cael ei ystyried fel rhywbeth angenrheidiol, ond nid yw staff y prosiect bob amser yn ei ddisgrifio mewn ffordd a fyddai'n awgrymu bod tai yn cael eu hystyried fel hawl. Amlygodd y cyfranogwyr enghreifftiau lle roedd gweithwyr rheng flaen yn normaleiddio ac yn derbyn polisïau 'un cynnig' a'r angen i unigolion brofi eu 'parodrwydd am denantiaeth' ac roeddent yn teimlo na allent wneud fawr ddim i ddylanwadu ar rannau eraill o'r llwybr. Pan oedd Tai yn Gyntaf a gwasanaethau cymorth dwys eraill yn gymharol newydd, roedd ymdeimlad nad yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eto yn llwyr ddeall nac yn ymddiried yn y model cymorth i roi gofal cofleidiol i'r unigolyn a'i alluogi i gynnal tenantiaeth.

6.7 Lle mae gan ddarparwyr cymorth berthynas uniongyrchol, ffurfioledig â darparwyr tai (e.e., drwy gynnig ar y cyd ar y cychwyn, strwythur grŵp neu bartneriaeth sy'n bod eisoes, neu drwy gytundeb lefel gwasanaeth neu lle mae uwch swyddogion yn y sefydliad tai yn deall ac yn derbyn gwerthoedd cynnig prosiect (h.y., Tai yn Gyntaf), teimlwyd bod hyn yn galluogi gwell mynediad i gartrefi. Roedd prosiect a gynhaliwyd gan sefydliad trydydd sector yn disgrifio'i rwystredigaeth am fethiant yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â gofynion symud ymlaen a ganfuwyd ar ddechrau'r prosiect, a'i ddiffyg

perthynas uniongyrchol â darparwyr tai eraill (gan gynnwys landlordiaid sector preifat a gwerthwyr tai) y tu allan i'r cyngor. Roedd prosiect Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc wedi uno â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig tua 5 mlynedd yn ôl, ar ôl cael trafferth yn y gorffennol i ganfod ffyrdd o symud ymlaen trwy lwybrau eraill. Gall y prosiect bellach fanteisio ar ddatblygiadau tai fforddiadwy newydd i gynnig opsiynau llety sefydlog. Partneriaethau anffurfiol yn unig a oedd gan brosiect arall gyda darparwyr tai a oedd yn dibynnu ar berthynas gyda swyddogion tai unigol.

6.8 Efallai na fydd sicrwydd cyllid, na chynnig â therfyn amser ar gyfer cymorth cofleidiol ar ailsefydlu, a chynnwys gwasanaethau ehangach (e.e., iechyd meddwl) lle bo angen yn ddigon i dawelu meddwl landlordiaid i gynnig hawliau tenantiaeth ddiogel, yn enwedig i'r rhai sydd ag anghenion lluosog a chymhleth a/neu hanes o broblemau tenantiaeth. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru bod diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar lefel genedlaethol yn cynyddu pryderon eu haelodau y byddai tenantiaid yn cael eu gadael heb driniaeth a/neu gymorth.

6.9 Fe wnaeth un landlord a gyfwelwyd, sy'n darparu tenantiaethau i brosiect Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, amlygu’r costau a'r risgiau i landlordiaid sy'n aml wedi'u cuddio rhag cyllidwyr, ond sy'n cynnwys gwaith rheoli ychwanegol ar dai a all gynnwys costau adnewyddu sylweddol lle mae eiddo wedi'i ddifrodi.

Model cymorth ac eiriolaeth

6.10 Mae un prosiect a ariennir gan y Gronfa Arloesi yn rhoi asesiad cyfannol a seiliedig ar gryfderau i bobl ifanc sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn risg o fod yn ddigartref, boed nhw’n byw gyda theulu, mewn llety dros dro neu â’u tenantiaeth eu hunain. Mae'r asesiad yn cynnwys tai, cysylltiadau cymdeithasol, iechyd a llesiant, bywyd bob dydd, ac agweddau ac ymddygiad. Mae'r person ifanc yn cyd-gynhyrchu'r asesiad a’r cynllun

gweithredu ac yn penderfynu pa bobl (gweithwyr proffesiynol neu eraill) y mae am eu gwahodd i gyfarfod i'w helpu i gyrraedd ei nodau.

6.11 Gall gweithwyr y prosiect yn y gwasanaeth hwn gynnig cymorth hyblyg i helpu pobl i gael yr hyn sydd ei angen arnynt, ac sydd ganddynt hawl iddo, gan wasanaethau eraill - gallai hyn gynnwys eiriolaeth, atgyfeiriadau, gweithio ar y cyd, mynychu cyfarfodydd neu alwadau ffôn gyda'r person ifanc. Mae gweithwyr y prosiect wedi meithrin perthynas dda gyda rhai gweithwyr proffesiynol statudol, trwy ddarparu cymorth hyblyg, perthynol ac ymarferol i gleientiaid a rennir ganddynt ac nad oes gan swyddogion digartrefedd statudol yr amser na'r cylch gwaith i'w ddarparu, a gall hyn weithredu fel 'system rhybuddio cynnar' i atal argyfyngau.

> "Mae 'na ffactor ofn gydag asiantaethau statudol, ni'n gallu dweud – nid gwasanaethau cymdeithasol ydym - ac mae hynny'n gwneud i bobl deimlo eu bod nhw'n gallu bod yn fwy agored. Rwy'n deall hynny o'm profiad gwaith..." (Cyfweliad astudiaeth achos – gweithiwr proffesiynol)

**Arferion Da a Galluogwyr**

6.12 Mae'r adran hon yn cyflwyno enghreifftiau o dri model addawol o ddarparu cymorth amlasiantaeth i bobl sy'n profi digartrefedd neu mewn risg o ddigartrefedd a ganfuwyd o fewn safleoedd astudiaethau achos ac sy’n gydnaws â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Brysbennu ac Asesu

6.13 Crëwyd y Tîm Allgymorth Arbenigol Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau rhanbarthol (a adnabyddir yn lleol fel y Tîm Allgymorth Tai) mewn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Anghenion Iechyd a gwblhawyd yn gynnar yn 2020. Canfu’r asesiad hwn heriau o ran cael gofal iechyd meddwl addas i'r rhai sy’n defnyddio sylweddau yr un pryd a/neu nad oedd eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Cychwynnwyd y Tîm Allgymorth Tai rhanbarthol gan ddefnyddio

cyllid Cam 2 yn ystod pandemig COVID-19. Yn dilyn cyllid Cam 2, comisiynwyd y tîm gan y tri chyngor yn yr ardal, gan ddefnyddio'r Grant Cymorth Tai gyda chyfraniad gan y Bwrdd Cynllunio Ardal a’r Gwasanaeth Iechyd.

6.14 Mae'r tîm amlddisgyblaethol integredig yn cynnwys nyrsys arbenigol, gweithwyr cymorth a Chynghorwyr Trawma i ddarparu cymorth allgymorth i bobl sy'n profi digartrefedd a'u rhoi mewn llety dros dro. Nod y tîm yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd a lleihau'r cylch o ddigartrefedd ailadroddus. Daw atgyfeiriadau yn bennaf gan ddarparwyr trydydd sector sy'n goruchwylio hosteli, lleoliadau llety dros dro a Phrosiectau Tai yn Gyntaf. Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn bobl sengl sy'n profi digartrefedd sydd mewn argyfwng ac sydd angen ymyrraeth iechyd.

6.15 Bu’r gwerthuswyr yn cyfweld nifer o bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, a ddywedodd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'n arbennig y ffaith fod gweithwyr y Tîm Allgymorth Tai yn dod allan i ymweld â nhw yn eu llety dros dro / llety â chymorth ac yn cadw cysylltiad agos â staff cymorth tai (lle roeddent wedi cydsynio i rannu gwybodaeth fel hyn) a chydag eraill sy'n ymwneud â'u gofal. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r dull cyfannol a phersonol o ymdrin â defnyddio sylweddau a chymorth iechyd meddwl sy'n deillio o'r cydweithio hwn. Er enghraifft, disgrifiodd un person sut y cafodd ei gefnogi gan weithiwr y Tîm Allgymorth Tai (nyrs iechyd meddwl) i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned – o fowlio i gasglu sbwriel, ac o wirfoddoli i ymuno â grŵp cynnwys defnyddwyr gwasanaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal i roi adborth ar wasanaethau. Roedd y rhain wedi helpu'r unigolyn i osgoi sylweddau drwy wella ei hyder ac adeiladu rhwydwaith newydd o bobl i gefnogi adferiad. Dywedodd y person hwn hefyd wrthym ei fod wedi derbyn brechiadau, gwiriadau iechyd corfforol ac asesiad gan nyrs y Gwasanaeth Allgymorth Tai:

> 'Mae hi'n rhoi pigiadau COVID, yn gofyn sut ydych chi, sut mae pethau'n mynd - hyfryd.'

### Tîm Amlddisgyblaethol Digartrefedd

6.16 Fel rhan o adolygiad o wasanaethau allgymorth mewn un awdurdod lleol, defnyddiwyd cyllid Cam 2 i greu tîm o Gydlynwyr Achosion Anghenion Cymhleth, pob un â llwyth achosion o 10-15 o'r rhai â'r lefel uchaf o anghenion sy'n byw yn llety anghenion cymhleth y cyngor. Lansiwyd y tîm amlddisgyblaethol digartrefedd yn 2019, pan oedd cyfraddau cysgu allan yn uchel iawn, ac mae'n darparu triniaeth ac ymyraethau therapiwtig i'r unigolion hyn ac yn rheoli eu hachosion. Wrth i gyllid Cam 2 ddod i ben, mae'r tîm wedi parhau i adeiladu ac esblygu trwy wneud ymgeisio'n. llwyddiannus am ffrydiau cyllido newydd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol bellach yn cynnwys cwnselwyr, gweithwyr sylweddau / nyrsys / gweithiwr mynediad cyflym at bresgripsiynu, gweithwyr ymateb cymunedol (yn gweithio o amgylch *cuckooing* / llinellau cyffuriau), therapyddion galwedigaethol, nyrs seiciatryddol gymunedol, gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl, nyrs gofal sylfaenol, swyddog prawf, gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl oedolion, swyddog heddlu, swyddogion gweithgareddau dargyfeiriol, a hyfforddwr cychwyn-gwaith.

6.17 Crëwyd y tîm i fynd i'r afael â methiant gwasanaethau prif ffrwd i gynnwys pobl sy'n profi digartrefedd, yn enwedig y rhai ag anghenion lluosog a chymhleth. Gallant asesu a chynnig ymyrraeth gychwynnol i sefydlogi, gyda'r nod o eirioli a chydlynu gwasanaethau prif ffrwd i ddarparu cefnogaeth barhaus lle bo angen. Ni fwriedir i'w mewnbwn fod yn hir-dymor; ac oherwydd bod llawer o'r tîm wedi ymuno o wasanaethau prif ffrwd lleol, maent yn adrodd rhywfaint o lwyddiant wrth wella mynediad gan y garfan i'w gwasanaeth 'cartref'.

### Swydd nyrs digartrefedd arbenigol

6.18 Esboniodd un awdurdod lleol eu bod wedi elwa o nyrs digartrefedd arbenigol a ariennir gan y gwasanaeth iechyd am nifer o flynyddoedd a'u bod yn gwybod bod y model hwn yn gweithio. Roedd cyllid Cam 2 yn caniatáu

cynyddu'r swydd i fod yn un lawn amser a hefyd yn darparu cyllid cyfatebol (gyda'r Bwrdd Iechyd) ar gyfer nyrs iechyd meddwl. Mae'r nyrsys yn cynnal clinigau hygyrch mewn amrywiol leoliadau gan gynnwys allgymorth, hosteli, tai â chymorth a chanolfannau dydd. Maent yn gweithredu fel cydlynwyr gofal, gan gynorthwyo'r bobl hynny sy'n profi digartrefedd a phobl agored i niwed i gael mynediad at wasanaethau iechyd prif ffrwd lle bynnag y bo modd. Roedd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol a gafodd eu cyfweld yn dadlau y dylai 'pob awdurdod lleol gael nyrs allgymorth'.

6.19 Ceir enghreifftiau pellach o'r holl rhaglenni a ariennir, gan gynnwys sefydlu paneli darparwyr amlasiantaeth (ar gyfer atgyfeiriadau a rheoli achosion parhaus), a phartneriaethau gyda sefydliadau'r trydydd sector.

**Galluogwyr gweithio mewn partneriaeth**

6.20 Yn gyffredinol, mae'r gwerthusiad wedi nodi'r galluogwyr canlynol o weithio mewn partneriaeth:

- Partneriaethau sy'n rhan annatod o gynllun prosiectau, e.e., gyda chytundebau lefel gwasanaeth rhwng partneriaid.
- Arweinyddiaeth draws-sectorol – e.e. ymrwymiad gan uwch reolwyr mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Secondio gweithwyr o wasanaethau prif ffrwd i dimau amlddisgyblaethol
- Darparu cymorth sy'n cofleidio'r unigolyn (yn hytrach na darparu hyd at ffin yr asiantaeth)
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio gwasanaethau
- Cydleoli gwasanaethau neu gymorth
- Hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, gan ddod â gweithwyr o asiantaethau partner ynghyd.
- 'Celloedd' / grwpiau llywio amlasiantaeth COVID-19 sy'n goruchwylio atgyfeiriadau / cydlynu gwaith achosion.

- Sefydlu strwythurau llywodraethu amlasiantaethol i oruchwylio Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai awdurdodau lleol (sy'n cynnwys eu Strategaeth Digartrefedd)
- Cyllid – yn yr achos hwn yn aml o Gyfnod 2 – a all weithredu fel 'sbardun': darparu cyllid pontio, gan alluogi ehangu modelau presennol, neu well cysylltiadau i Ailgartrefu Cyflym.
- Gall cyllid Grant Cymorth Tai (cyfatebol/parhaol) hyrwyddo integreiddio lleol.
- Mae angen amser i sefydlu modelau amlddisgyblaethol; mae newid gwasanaethau ehangach yn nod mwy hirdymor fyth.

**Rhwystrau**

Gweithredu: heriau

6.21 Ar draws yr holl astudiaethau achos, roedd enghreifftiau o wahanol elfennau o weledigaeth y llywodraeth ar gyfer gweithio ar y cyd megis: brysbennu ac asesu amlasiantaethol, mentrau sy’n canolbwyntio ar y rhai sy'n gadael carchar neu ofal awdurdodau lleol, a strwythurau ar gyfer cydlynu a llywodraethu amlasiantaethol.

6.22 Fodd bynnag, teimlwyd bod rhai prosiectau Tai yn Gyntaf a Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc a ariannwyd yn gweithredu 'mewn swigen', gyda gwaith partneriaeth wedi'i gyfyngu i'r darparwr cymorth, darparwr tai ac efallai dîm digartrefedd neu gymorth tai yr awdurdod lleol. Er bod ceisiadau am gyllid yn addo cysylltiadau a chydweithio traws-sectorol, yn aml nid oedd y rhain wedi'u ffurfioli; y teimlad oedd bod ymrwymiad gwasanaethau iechyd yn arbennig o ddiffygiol. Esboniodd prosiectau eraill a ariannwyd eu bod wedi llwyddo dros amser i feithrin cysylltiadau gweithredol â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, cael mynediad at therapi galwedigaethol, a hyd yn oed gymorth iechyd meddwl, er bod hyn fel arfer yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth achlysurol.

6.23 Roedd diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac effaith hyn ar unigolion, cymunedau a thenantiaethau yn thema barhaus gan landlordiaid cymdeithasol, darparwyr cymorth tai ac awdurdodau lleol. Mewn rhai

ardaloedd, adroddwyd bod yr aros am asesiad cychwynnol gyhyd â dwy flynedd. Soniodd gweithwyr cymorth tai oedd yn cymryd rhan am ddarparu cefnogaeth emosiynol a chyfeirio at gefnogaeth y sector cymunedol a gwirfoddol yn ystod yr aros. Roedd y rhwystrau yn ddwysach i'r rhai yr oedd eu hanghenion iechyd meddwl yn rhy llym i gael eu rheoli mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol, ond heb fod yn ddigon difrifol i gyrraedd trothwyon ar gyfer gofal iechyd meddwl eilaidd, yn enwedig lle mae defnydd o sylweddau yn cyd-ddigwydd. Hyd yn oed lle nodwyd cyllid ar gyfer swyddi seicoleg glinigol arbenigol i weithio gyda charfannau digartref, adroddwyd ei bod yn anodd recriwtio i'r swyddi hynny.

6.24 Ar draws sectorau, adroddwyd ar wasanaethau statudol gan gyfranogwyr i fod dan ormod o bwysau ac yn cael eu llethu, gyda diffyg adnoddau i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd darparwyr cymorth a ariannwyd yn gallu darparu cefnogaeth fwy hyblyg, perthynol a chyfannol, ac eiriol dros wasanaethau statudol, i raddau.

## 7. Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

7.1 Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i'r holl themâu eraill sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, ac mae'n gofyn am weithio ar draws gwasanaethau a systemau eraill a gweithredu elfennau cydgynhyrchu. Mae'r adran hon yn ystyried i ba raddau y mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu'n fwy cyffredinol, law yn llaw ag i ba raddau y mae prosiectau'n gweithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.

7.2 Wrth fesur i ba raddau y mae egwyddorion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu gweithredu ar draws y prosiectau a werthuswyd, mae'r tîm ymchwil wedi cael eu harwain gan y diffiniadau a amlygwyd ym mharagraffau 3.22 i 3.25 uchod, gydag ymadroddion allweddol yn cael eu harchwilio drwy'r dadansoddiad thematig.

7.3 Ar sail adolygiad ar draws yr holl brosiectau a ariennir, adroddir ar amrywiaeth helaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, megis cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i sefydlu grwpiau dysgu neu gymorth cymheiriaid a chwarae rhan weithgar wrth greu a datblygu cynlluniau cymorth. O'r prosiectau a gynhwyswyd yn yr astudiaethau achos, mae'r rhan fwyaf wedi mabwysiadu elfennau o gynnig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar lefel fwy sylfaenol, gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaethau pa weithgareddau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys mewn prosiect. Mae gwasanaethau mwy sefydledig yn gweithio o ddifrif tuag at fodel cymorth lle rhennir grym rhwng defnyddiwr a gweithiwr gwasanaeth, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn dewis pwy, sut, ble a phryd i gael gafael ar gymorth.

7.4 Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac o fewn hyn, ddulliau sy'n ystyriol o drawma, yn cael eu defnyddio'n gyson ymysg pawb o'r staff nac ar draws holl wahanol elfennau brosiect, nac ar draws llwybrau ehangach y mae'r prosiectau hyn yn ffurfio rhan ohonynt. Roedd rhai staff gweithredol yn ansicr ynghylch beth roedd yn ei olygu i gynnig dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'n ystyriol drawma (efallai nad oedd yn syndod bod hyn yn llai amlwg mewn prosiectau sydd wedi

mabwysiadu Tai yn Gyntaf, gan fod y dulliau hyn wedi'u hymgorffori yn ethos y model).

**Arferion da a galluogwyr**

Cynnig wedi'i deilwra ar gyfer grwpiau penodol

7.5 Drwy’r holl brosiectau a ariennir, nodwyd enghreifftiau o brosiectau sy'n darparu cymorth cyfannol i bobl sydd ag amrywiaeth o anghenion. Canfu'r tîm ymchwil enghreifftiau o brosiectau a deilwrodd eu cymorth yn benodol i anghenion y rhai sy'n gadael gofal, gyda 9 o brosiectau’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn adrodd eu bod yn canolbwyntio’n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar y grŵp hwn; mae pedwar prosiect arall yn targedu pobl sy'n dod drwy'r system cyfiawnder troseddol ac mae 3 yn gweithio gyda phobl ifanc LHDTC+ ar hyn o bryd. Mae'r holl brosiectau Tai yn Gyntaf wedi'u teilwra i bobl sy'n dangos anghenion lluosog a chymhleth. Clywodd y tîm ymchwil hefyd gan bobl sydd â hanes o fod yn y carchar a/neu gamddefnyddio sylweddau, a ddisgrifiodd y gefnogaeth a gawsant fel cyfraniad at ddod yn annibynnol (sy'n cael ei ystyried isod).

7.6 Mae rhai prosiectau'n gweithio'n rhagweithiol gyda phobl i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Roedd rhai prosiectau yn cefnogi pobl ifanc ar sail eu hanghenion iechyd meddwl, megis drwy helpu pobl i gael at feddyg teulu. Roedd un o brosiectau’r Gronfa Arloesi yn cefnogi pobl ifanc a oedd â chyflyrau iechyd meddwl heb ddiagnosis. O ganlyniad, cafodd 9 o bobl ifanc ddiagnosis o ADHD a chyflyrau eraill (anhwylder deubegynol, ASD, anhwylder personoliaeth ffiniol ac anhwylder personoliaeth ansefydlog sy'n dod i'r amlwg). Roedd hyn yn golygu bod y bobl ifanc yn gallu cael gafael ar gymorth priodol ar gyfer eu cyflyrau. Roedd enghreifftiau eraill o gefnogaeth gyfannol yn cynnwys sefydlu gofal plant a gwneud atgyfeiriadau at wasanaeth LHDTC+, gan gyfeirio at fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd cymdeithasol.

7.7 Roedd rhai prosiectau yn cyflogi staff arbenigol, fel seicotherapyddion neu seicolegwyr ac wedi mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma ar lefel sefydliadol. Clywsom gan brosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc (staff a defnyddwyr gwasanaethau) mor bwysig yw sicrhau bod gweithwyr ieuenctid arbenigol ar waith, fel bod anghenion unigryw pobl ifanc yn cael eu deall:

> '[Mae'r prosiect] yn gaffaeliad i bobl ifanc - maen nhw'n eitha unigryw - dim ond nhw sy'n delio'n benodol gyda phobl ifanc - dyna maen nhw'n wirioneddol fedrus am ei wneud... [roedd angen] llwybr arbenigol i bobl ifanc'. (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

7.8 Mewn prosiect wedi'i deilwra i bobl o grwpiau LHDTC+, clywodd y tîm ymchwil gan berson a allai fod wedi aros yn ddigartref oni bai am gael cynnig gwasanaeth a oedd wedi'i deilwra i'w anghenion:

> "Cefais fy ngwneud yn ddigartref a chefais gynnig eiddo gan y cyngor ond fe’m gwrthodwyd gan nad oeddwn am gael fy rhoi yn y lle anghywir, roedd yn well i mi fod yn ddigartref gan y gallwn ddewis lle roeddwn i eisiau bod a theimlo'n fwy diogel... Cyn [y prosiect yma] roedd yn gymorth negyddol gan nad oedd pobl yn deall ... Roedd yn teimlo fel bod un maint yn addas i bawb ac [nad oedd] ddim gwell na bod yn ddigartref ... [doedd fy] hunaniaeth yn y gorffennol ddim yn cael ei gydnabod, doedd teulu ddim yn ymateb i bwy oeddwn i... Cefais fy nghyfeirio ato yn fy enw 'marw'... Nid oedd unrhyw gefnogaeth yn benodol ar gyfer LGBTQ cyn [y prosiect hwn], neb y gallwn ddibynnu arno." (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

7.9 Mae'r dyfyniad uchod yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried sut mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig i wahanol grwpiau, yn enwedig lle nad oes llawer o opsiynau llety arbenigol ar gael (e.e., ar gyfer LHDTC+).

Ystyried anghenion a safbwyntiau pobl

7.10 Roedd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy amlwg lle cafodd ei ymgorffori yng nghynllun prosiect, megis trwy fodel sy'n cefnogi llwythi achosion bach, cyflogi staff â phrofiad bywyd neu a ddarperir trwy sefydliad sy'n canolbwyntio ar waith mwy arbenigol (fel y disgrifir uchod). Mae llawer o brosiectau (y rhai sydd wedi'u cynnwys fel astudiaethau achos a thu hwnt) yn dweud bod staff yn cael cynnig hyfforddiant mewn dulliau sy'n ystyriol o drawma.

7.11 Cyfeiriodd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran at enghreifftiau o wasanaeth a oedd yn teimlo'n bersonol, wedi'i deilwra i'w hanghenion a'u bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a oedd wedi arwain at fwy o hyder. Dywedodd un person ei fod yn teimlo ei fod yn derbyn gofal a bod staff wedi mynd 'y tu hwnt i hynny' i ddod i'w adnabod a deall ei anghenion, gydag un yn ei helpu i gael bwrsariaethau gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a gwneud cais i'r brifysgol i astudio theatr gerddorol. Mae prosiect LHDTC+ wedi cefnogi 4 o bobl ifanc sy'n trawsnewid, gan gynnwys eirioli ar eu rhan a darparu gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio gwasanaethau. Daw'r dyfyniadau isod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a ddefnyddiodd 2 brosiect cymorth fel bo'r angen (datblygwyd y ddau drwy gyllid Cam 2):

> "Os yw [y gweithiwr] yn meddwl bod gen i syniad gwael mae'n fy arwain ac yn fy nghefnogi ni waeth beth... Maen nhw i gyd yn gwybod beth rydw i eisiau, a dw i'n dweud wrthyn nhw beth rydw i eisiau." (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).
>
> 'Mae'r help yn hyblyg gyda phan welaf nhw mae'n bont dda rhwng y ffurfiol a'r anffurfiol.' (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

7.12 Gwasanaeth allgymorth iechyd, a dderbyniodd gyllid cychwynnol drwy Gam 2 ac sy'n cefnogi'r rhai ag anghenion lluosog a chymhleth:

> 'Mae [y gweithiwr cymorth] yn grêt - mae o wastad ar ben arall ffôn - daeth i fy ngweld i yn yr ysbyty pan o'n i mewn coma - mae'r gefnogaeth yn

rhagorol a dweud y gwir.' (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

"Os ydych chi'n cael noson wael neu'n cael diwrnod gwael - mae [y gweithiwr cymorth] yn dod i fy ngweld i - rwy'n ei werthfawrogi'n fawr... [rydym ni'/n] mynd allan am dro yn yr ardal leol... dw i'n gallu agor i fyny wrthi am stwff sensitif - fe wnaethon ni glicio yn syth - yn gyntaf oll roeddwn i wedi ypsetio - ond [mae o] wedi bod mor hawdd.' (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

Hyrwyddo annibyniaeth

7.13 Clywodd y tîm ymchwil gan ddefnyddwyr gwasanaethau, bod cymorth, lle'r oedd yn cael ei gynnig, wedi bod yn allweddol wrth eu helpu i gael eu bywydau at ei gilydd, megis mewn un enghraifft pan oedd rhywun yn gadael carchar a oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn adeiladu ei annibyniaeth drwy chwilio am waith cyflogedig:

'Roedd gennym ni gynllun ar gyfer pryd ro'n i'n dod allan [o'r carchar] ... Roedd hi hefyd wedi bod mewn cysylltiad â fy swyddog prawf cyn i mi ddod allan ac maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd... Cliciodd rhywbeth pan oeddwn yn y carchar, a phenderfynais nad oeddwn eisiau dod yn ôl … y cyfan sy'n rhaid i mi ei wneud yw codi'r ffôn ... cefais gefnogaeth gan dimau iechyd meddwl ac fe wnaeth [gweithiwr cymorth] fy helpu gyda hynny ... Ro'n i'n arfer ysmygu chwyn bob dydd, dwi ddim wedi ei ysmygu ers mis Ionawr – o ran gwaith, fe ges i hyder i wneud cais am stwff'. (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

7.14 Adroddodd prosiect sy'n seiliedig ar lety, a ariannwyd gan y Gronfa Arloesi i Bobl Ifanc, fod defnyddwyr eu gwasanaethau yn gweithio tuag at annibyniaeth drwy ymgymryd â phrosiectau gwirfoddol a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymuned leol.

Rhoi rheolaeth ac ymreolaeth

7.15 Sicrhaodd ychydig o brosiectau fod defnyddwyr gwasanaethau yn cyfrannu'n weithredol at asesu cynnydd eu hachos. Roedd ein canfyddiadau yn amlygu hyn ar gyfer pobl ifanc yn benodol. Mabwysiadodd un prosiect adolygiad dau ran o gynlluniau cymorth a phellter a deithiwyd, lle mae'r person ifanc a'r gweithiwr yn cwblhau'r adroddiadau cynnydd yn annibynnol, gyda barn y naill a'r llall yn cael pwysoliad cyfartal. Gweithiodd prosiect arall gyda phobl ifanc i gytuno ar sut y dylid gwario cynllun cronfa galedi.

7.16 Soniodd prosiect arall am fabwysiadu 'dull adferol' a'u bod wedi cymryd camau a arweiniodd at adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gan y gweithwyr sy'n eu hannog gefndir o brofiad uniongyrchol. Mae'r prosiect hwn yn cydnabod y gall fod amharodrwydd weithiau gan bobl ifanc (yn enwedig rhai o gefndir gofal) i gysylltu â gweithwyr proffesiynol gan eu bod wedi arfer â phethau sy'n cael eu 'gwneud drostyn nhw'. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos i oresgyn y rhwystrau hyn trwy sicrhau bod y person ifanc, yn ogystal â mynychu, yn cychwyn cyfarfodydd amlasiantaethol ynglŷn â hwy, gan ganiatáu iddynt wahodd gweithwyr proffesiynol neu aelodau o'r teulu yr hoffent iddynt fod yno. Mae'r person ifanc hefyd yn cael ei gopïo i mewn i e-byst at, ac oddi wrth, weithwyr proffesiynol eraill. Mae hyn yn cynnwys copïo'r person ifanc yn ôl i mewn pan fydd gweithwyr proffesiynol yn eu hepgor mewn e-bost ymateb – er gwaethaf 'cicio'n ôl' a adroddwyd gan asiantaethau eraill:

> 'Ein nod yw bod yn hollol dryloyw, cynnwys pobl ifanc ym mhopeth a wnawn - dydyn ni ddim yn mynychu cyfarfodydd, cael galwadau ffôn, anfon e-byst amdanyn nhw heb eu gwahodd nhw, eu cynnwys nhw, a'u copïo nhw i mewn.' (Cyfweliad astudiaeth achos).

7.17 Mae rhai cyfleoedd i ddysgu rhwng prosiectau a'i gilydd yma ynghylch ffyrdd effeithiol o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, lle gall prosiectau ei chael hi'n anodd ymrwymo, neu efallai mewn rhai achosion nad ydynt yn cydnabod y gwerth o wneud hynny (gweler yr adran cydgynhyrchu isod).

Cynnig dewis

7.18 Mae elfennau sy'n seiliedig ar ddewis yn amlwg o fewn prosiectau a ariennir, mae rhai'n cyfeirio at natur wirfoddol cymryd rhan mewn gweithgareddau, a gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau beth yr hoffent gymryd rhan ynddo. Mae eraill yn cynnig enghreifftiau o gymorth cyfannol sy'n seiliedig ar anghenion a diddordebau defnyddwyr gwasanaethau. Oherwydd materion yn ymwneud ag amodoldeb a phwysau i symud ymlaen - dewis efallai yw'r elfen wannaf a ganfuwyd mewn prosiectau.

**Rhwystrau**

Ffactorau cysyniadol

7.19 Gofynnwyd i brosiectau wrth ymgeisio ar y cychwyn ddangos sut maent yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y person/sy'n ystyriol o drawma. Er bod yr egwyddorion yn cael eu rhoi ar waith mewn rhai achosion, canfu'r tîm ymchwil amwysedd ymysg ychydig o brosiectau ynghylch beth y mae'r rhain yn ei olygu yn ymarferol. Er enghraifft, awgrymodd aelod o staff mewn un prosiect y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu 'cyfeirio at wasanaethau eraill' i reoli unrhyw drawma. O ran dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, roedd ychydig o aelodau staff naill ai'n drysu rhwng hyn ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, neu adrodd bod hyn wedi'i weithredu, ond yna roeddent yn rhoi enghreifftiau lle mai cyfyngedig oedd hyblygrwydd neu reolaeth y defnyddiwr dros y gwasanaeth a gafodd (gweler isod am enghreifftiau manylach). Roedd bwlch a ganfuwyd yn ymwneud â hyfforddiant, a ddisgrifiwyd gan ychydig o brosiectau fel rhywbeth anfynych, gyda diffyg hyfforddiant diweddaru i'r rhai sydd ei angen. Mewn rhai achosion, achoswyd yr analluedd i weithredu dull sy'n ystyriol o drawma neu'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan heriau ar lefel system. Er enghraifft, mae'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn nodi mai un dangosydd gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol ar drawma yw nad yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i ddigartrefedd. Fodd

bynnag, rhoddwyd person a gefnogwyd drwy'r prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc mewn hostel digartrefedd unwaith ei fod wedi troi'n 25 oed oherwydd diffyg opsiynau a ganfuwyd.

Ffactorau ar lefel prosiect/rhaglen

7.20 Weithiau gall sicrhau bod prosiectau'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'n ystyriol o drawma gael ei lesteirio oherwydd y model, yn enwedig lle mae amodoldeb ar waith. Er enghraifft, roedd angen i fodel tai a rennir ystyried yn ofalus sut y byddai person yn ffitio i mewn i'r gwasanaeth. Cynhaliwyd proses ddewis a oedd yn ymdrin â risg fforddiadwyedd ac addasrwydd mewn modd mwy petrusgar, ac eto roedd cyfiawnhad dros hyn fel rhywbeth roedd ei angen er mwyn hyrwyddo llesiant a diogelwch y preswylydd arall mewn lleoliad a rennir.

7.21 Mewn cyfweliad a oedd yn cynnwys defnyddiwr gwasanaeth a'i weithiwr cymorth – roedd y canfyddiad o amodoldeb ynghylch elfen cymorth y prosiect yn wahanol:

> "Os nad ydw i'n teimlo fel gweld [fy ngweithiwr cymorth] heddiw byddaf yn ei ffonio a dweud na allaf gyfarfod.' (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).
>
> "Os oedd hyn bob wythnos, mae gennym ni drefn yn ei lle. Pe na bai [y defnyddiwr gwasanaeth] yn cael gafael ar gymorth ni allai aros yn y fflat [disgwylir i'r preswylydd] gyd-drafod â gweithwyr cymorth." (Cyfweliad astudiaeth achos - gweithiwr cymorth).

7.22 Roedd adroddiad Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, 2020a) yn nodi y gall trefniadau cyllido a chomisiynu tymor byr beri rhwystr rhag cefnogi pobl mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma - oherwydd cymysgedd o heriau cysylltiedig â staffio (e.e., cyflog, amodau, etc) ac ymdeimlad o werth yng ngweithlu'r sector. Roedd y mater hwn o adnoddau yn golygu na ellid cynnig

hyfforddiant i'r graddau yr oedd prosiectau'n ei ddymuno. Er enghraifft, dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr prosiectau eu bod yn cynnig hyfforddiant ystyriol o drawma i staff, ond nid oedd hyn bob amser yn cynnwys yr holl staff, yn enwedig rhai mwy newydd, gydag un a gyfwelwyd yn dweud nad oedd ganddynt yr adnoddau i gynnig hyfforddiant diweddaru.

Ffactorau traws-bartneriaethol

7.23 Mewn rhai achosion mae cefnogaeth ar lefel prosiect yn gweithio'n dda; fodd bynnag, roedd ychydig o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ymddangos yn ansicr ynghylch sut y cafodd y gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddynt eu cydgysylltu. Er enghraifft, roedd un defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn teimlo, er bod ei iechyd a'i lesiant yn gwella oherwydd cymorth sy'n gysylltiedig â phrosiectau'n ymwneud â'i iechyd meddwl, nad oedd yn siŵr beth oedd yn digwydd gyda'i sefyllfa o ran llety ac yn teimlo bod hyn yn dal heb ei ddatrys.

7.24 Cyfeiriodd rhai staff prosiectau at bryderon ynghylch gweithredu polisïau neu reoliadau ehangach neu deimlo'n hyderus i gymryd risgiau cadarnhaol o amgylch meysydd a allai ganolbwyntio ar yr unigolyn – megis protocolau rhannu gwybodaeth fel nad oes raid i bobl adrodd eu hanes sawl gwaith. Er enghraifft, roedd arweinydd strategol oedd yn rhedeg prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn ansicr ynghylch lle i geisio cymorth os aiff pethau o chwith mewn eiddo Tai yn Gyntaf a bod defnyddiwr y gwasanaeth yn gwrthod pob cymorth, neu sut i osgoi rhywun rhag gorfod ailadrodd ei stori os yw'n gwrthod caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu ar draws asiantaethau.

7.25 Er y byddai disgwyl i brosiectau Tai yn Gyntaf a aseswyd fel rhai sy’n glynu’n agos at weithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/sy'n ystyriol o drawma, roedd prosiectau'n dweud bod eu gallu i weithio fel hyn gan ddefnyddio model rheoli achosion dwys weithiau'n cael ei gyfyngu gan y systemau ehangach gor-estynedig a/neu anhyblyg y maent yn helpu pobl i gael mynediad atynt. Cyfeiriodd darparwr cymdeithas dai a weithiodd yn

agos gyda phrosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc at ddarparwyr eraill yn osgoi cwsmeriaid yr aseswyd bod ganddynt anghenion lefel uchel.

Ffactorau ar lefel system

7.26 Yn y rhan fwyaf o achosion, er bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig o fewn paramedrau cymorth y prosiect - anaml iawn y mae hyn yn parhau ar hyd llwybr. Mae hyn yn gysylltiedig â'r materion uchod sy'n ymwneud â phrotocolau rhannu gwybodaeth a gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, gyda rhai ohonynt yn wynebu llwyth gwaith trwm ac yn cael eu hystyried fel pe baent yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n cael eu gyrru’n fwy gan brosesau. Er enghraifft, clywsom gan ambell sefydliad fod diwylliant o gyfeirio pobl heb ofyn am eu caniatâd na hyd yn oed esbonio diben neu natur y cynnig.

7.27 Symud ymlaen oedd y rhwystr a adroddwyd amlaf ac roedd yn golygu y gallai profiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn ffiniau prosiect fynd i drafferthion yn hwyrach ymlaen. Er enghraifft, dywedodd defnyddiwr gwasanaeth a gefnogwyd drwy un o brosiectau’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc ei fod wedi cael gwasanaeth personol, cadarnhaol gan weithwyr y prosiect ond nad yw ei lety dilynol, a gyrchwyd fel rhan o'i lwybr lletya ehangach, yn addas.

7.28 Daw darlun da o'r 'datgysylltu' hwn ar draws y system gan berson ifanc a oedd newydd symud i denantiaeth sefydlog o wasanaeth tai â chymorth y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc:

> "Os ydych chi'n gwrthod fflat mae hynny'n [cael ei ystyried] fel gwneud eich hun yn ddigartref yn fwriadol fel y gallwch gael eich tynnu oddi ar [y prosiect]. Doedd gen i ddim dewis mewn gwirionedd. Mewn gwirionedd, nid dyma lle rydw i eisiau bod ... Nid yw’n rhy ddrwg, mae'n glyd [ond] fe wnaethon nhw roi balconi i rywun sy'n ofni uchderau ar y trydydd llawr.' (Cyfweliad astudiaeth achos).

7.29 Mae hon yn enghraifft amlwg o'r sail resymegol dros y newidiadau cyfreithiol a gynigiwyd yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2023f), er enghraifft i ddiddymu'r profion bwriadoldeb a blaenoriaeth angen. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am system ddigartrefedd statudol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

7.30 Roedd gan yr awdurdod lleol dan sylw bolisi un cynnig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n barod i symud ymlaen, nad oedd staff yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i'w herio. Dywedodd y person ifanc hefyd nad oedd yn teimlo'n barod am annibyniaeth:

> 'Byddai ychydig o wybodaeth am y broses symud ymlaen [wedi bod yn ddefnyddiol] a'r cymhlethdodau o gael eich lle eich hun, er enghraifft treth y cyngor. Roedd yn sawl tudalen o hyd, ond doeddwn i ddim yn gallu gweithio allan a oedd yn rhaid i mi dalu. Sut ydych chi'n dysgu sut i dalu nwy, trydan, etc (y pethau nad oedd yn rhaid i ni eu gwybod yn y fflatiau hyfforddi). Byddai'n dda cael y pethau hyn wedi eu hesbonio fel gwasanaeth cymorth. Byddai'n help enfawr. Dw i'n gwybod y pethau sylfaenol, ond dwi'n teimlo mod i'n gorfod dysgu wrth fynd ymlaen ... Pan ddaw'r gefnogaeth i ben, rwyf eisiau dal i fynd yn gyfforddus.' (Cyfweliad astudiaeth achos).

7.31 Fel person ifanc nad oedd wedi dal tenantiaeth o'r blaen, mae'r sylwadau hyn yn peri pryder ac efallai y bydd yn cael sgil-effaith yn y dyfodol (h.y. cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y denantiaeth yn methu yn ddiweddarach).

### Llwybrau pobl ifanc

7.32 Roedd y meini prawf oedran a weithredwyd ar draws rhai prosiectau yn golygu bod y rhai oedd yn cyrraedd 25 oed wedi profi diffyg grymuso a dewis, sydd ymhlith hanfodion dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er enghraifft, yn un o'r prosiectau Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc, lle mae'r gefnogaeth a'r llety yn cael eu darparu fel pecyn, ac nid yw'r naill na'r llall yn barhaol oherwydd y meini prawf oedran, roedd diffyg opsiynau symud

ymlaen yn golygu bod yn rhaid i un o ddefnyddwyr y gwasanaeth a drodd yn 25 oed symud 'yn ôl' i lety brys:

> "Bu’n rhaid i un o'n trigolion adael y Prosiect wrth iddo fynd y tu hwnt i'r uchafswm oedran. Yn anffodus [gwnaethom ddihysbyddu] yr holl opsiynau, ni chafodd unrhyw ddewis ond symud yn ôl i Lety Argyfwng Anghenion Cyffredinol. Mae hyn ymhell o fod yn ddelfrydol a gallai weld llawer o'n gwaith caled a'u cynnydd yn ymddatod. (Cyfweliad astudiaeth achos).

7.33 Mae hyn yn mynd yn groes i egwyddorion Tai yn Gyntaf sy’n ymwneud â chynnig cymorth sefydlog cyhyd ag y mae rhywun ei angen a'r egwyddorion ynghylch 'datblygiad cadarnhaol pobl ifanc' (Canolfan Tai yn Gyntaf Ewrop, 2022). Mewn prosiect arall, rhoddwyd enghreifftiau o ychydig o bobl yn symud yn ôl i mewn gyda'r teulu hyd nes y gellid dod o hyd i lety parhaol. Er i'r rhai a holwyd dynnu sylw at y ffaith bod y defnyddwyr gwasanaethau hyn wedi gwella sgiliau annibyniaeth ar gyfer y dyfodol, nid yw er budd pobl eu symud 'yn ôl' ar draws llwybr, ac felly nid yw'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylid nodi bod prosiect Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc arall a ariennir gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn trwy gyflawni gwaith i sicrhau bod cymorth parhaus ar gael i bobl ifanc sy'n troi'n 26 oed drwy ganolfan sy'n cael ei datblygu ar gyfer oedolion yn yr ardal. Mae'r tîm hefyd yn awyddus i ddatblygu cynnig pob oedran, gan weithio gyda chydweithwyr yn adran dai'r awdurdod lleol i hwyluso'r cyfnod pontio hwn, sy'n swnio fel cam cadarnhaol.

## 8. Cydgynhyrchu

### Cwmpas a Chyfyngiadau

8.1 Fel blaenoriaeth allweddol ar lefel genedlaethol a rhaglen, roedd cydgynhyrchu yn rhan o’r Theori Newid, ac ystyriwyd hyn ar bob cam ar draws y gwaith maes. Mae'r tîm ymchwil yn awgrymu, yn dilyn cyhoeddiad diweddar ar gyfer Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022b) sy'n ystyried cydgynhyrchu o safbwynt gofal a chymorth, bod angen, er mwyn i'r egwyddor hon fod yn bresennol, cymryd camau i sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth lais a rheolaeth dros y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn (ac felly mae ganddo gysylltiad agos â gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn).

8.2 Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (dim dyddiad) yn tynnu sylw at y berthynas rhwng gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydgynhyrchu, gan y gall y ddau weld defnyddwyr gwasanaeth yn 'bartneriaid cyfartal' wrth gynllunio a datblygu. Felly, dylid ystyried bod cysylltiad agos rhwng y ddau gysyniad i’r graddau y gallai cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau fod yn angenrheidiol i sicrhau y gellir dweud bod prosiectau'n cael eu harwain gan unigolion. Mae'r adran hon yn ystyried enghreifftiau mwy penodol o sut mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â chynllunio prosiectau ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ehangach.

8.3 Gan fod gwaith monitro prosiectau Llywodraeth Cymru yn gofyn i ddeiliaid grantiau adrodd ar gyfranogi mwy cyffredinol, mae’r gwerthusiad wedi canolbwyntio ar hyn. Mae deuddeg allan o ddeunaw o gynlluniau gwreiddiol prosiectau’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn cyfeirio at bobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd neu’i gilydd. Mae rhai o brosiectau’r Gronfa Arloesi yn cyfeirio at ddefnyddwyr gwasanaeth yn helpu gyda chynllun cychwynnol y prosiect, gan gynnwys cyfrannu at y cynnig gwreiddiol. Mae prosiectau eraill Gronfa Arloesi y cyfeirir atynt yn ymgynghori (e.e. cytundebau tai, mynd ar grwpiau cynghori), ac mae ambell un arall yn

gweithio gyda phobl i'w helpu i werthuso'r gwasanaeth (er yr ymddengys bod hyn, ar sail astudiaethau achos, yn cyfeirio mwy at gasglu adborth).

8.4 Canfu'r ymchwil hwn fod pocedi o arferion da ar draws rhai prosiectau a ariennir (sy'n cael eu hystyried isod), ond nad yw egwyddorion cydgynhyrchu yn cael eu gweithredu'n gyson ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried profiad defnyddwyr gwasanaeth ar hyd y llwybr digartrefedd cyfan (sef gwasanaethau nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â phrosiectau a ariennir).

**Arferion da a galluogwyr**

8.5 Mae'r ymchwil hwn wedi nodi enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dylanwadu ar gynllunio a gweithredu ar draws rhai prosiectau, ac o arferion da ac arloesedd o fewn prosiectau. Mae yna hefyd rai enghreifftiau addawol o sgyrsiau cydgynhyrchu yn digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Cyfrannu at gynllunio gwasanaethau

8.6 Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Gronfa Arloesi yn adrodd bod defnyddwyr gwasanaethau wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at ddatblygiad y prosiect, megis cyd-gynllunio taflenni gwaith i gefnogi'r model darparu gwasanaethau. Ar ôl eu creu, cyflwynwyd y taflenni gwaith wedyn i bobl ifanc i dderbyn adborth ychwanegol ac unrhyw ddiwygiadau yr hoffent eu hargymell cyn gorffen. Roedd un prosiect llety â chymorth yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau i helpu i lunio'r prosiect ac maent wedi parhau i annog mewnbwn. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi ymdeimlad o berchnogaeth, trwy ddewis enw'r prosiect a helpu i gynllunio cynnig y prosiect:

> '[Ro'n i'n rhan o'r dechrau [o'r prosiect] pan brynon nhw'r tŷ am y tro cyntaf ac [o'n i] helpu gydag addurno a'i ddodrefnu... dw i ddim eisiau iddo gael ei weld fel llety i'r digartref [ond] yn fwy fel cartref ... Fe wnaethon ni'r ardd gefn a newid y lliwiau yno... Mae gen i fy lle fy hun nawr ac rydw i'n

> addurno sut rydw i eisiau hynny hefyd. (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

Sicrhau llais Profiad Bywyd mewn recriwtio a chyfleoedd gwirfoddoli

8.7 Siaradodd y tîm ymchwil â staff a oedd yn amlwg yn gweld gwerth a phwysigrwydd sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn helpu i hyrwyddo’r prosiectau sy'n cael eu cyflawni, gan wahodd defnyddwyr gwasanaethau i siarad â staff:

> "Nhw yw'r arbenigwyr, maen nhw'n byw hyn.  Byddwch yn dysgu oddi wrth eich cleient... Mae pobl yn ymddieithrio, ac mae'n ein helpu i ddeall hynny.'

8.8 Roedd rhai prosiectau yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn eu proses recriwtio - wrth awgrymu cwestiynau, eistedd ar baneli cyfweld staff a chymryd rhan mewn sesiynau sefydlu:

> '[Rydyn ni] weithiau'n gwahodd cleientiaid i mewn, i wneud cyflwyniad a sgwrs sefydlu ar gyfer recriwtiaid newydd... Cleientiaid Tai yn Gyntaf ar baneli cyfweld ar gyfer staff newydd. Ceisio eu cael nhw i gymryd rhan ar bob lefel'.

8.9 Mae hyn yn teimlo fel ffordd gymharol hawdd o sicrhau y gall prosiectau weithio tuag at 'recriwtio seiliedig ar werthoedd' a all yn ei dro gefnogi dulliau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

8.10 Mae un prosiect a ariennir yn recriwtio staff sydd â phrofiad bywyd, ac yn sicrhau bod hyn yn un o ofynion y swydd. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda chyn-ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cefnogi'r prosiect fel gwirfoddolwyr ac yn cyfrannu oherwydd bod ganddynt ddealltwriaeth fanwl o broblemau o safbwynt profiad bywyd. Mae'r prosiect yn y broses o gynnwys gwirfoddolwyr wrth lunio pecyn croeso ar gyfer gwirfoddolwyr eraill.

Cyfrannu at gyfeiriad strategol

8.11 Bu defnyddwyr gwasanaethau a gefnogir drwy brosiect y Gronfa Arloesi (sydd â llawer ohonynt â phrofiad bywyd o niwroamrywiaeth a/neu heriau iechyd meddwl) yn cymryd rhan yn ymchwil Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Cymru i Ddigartrefedd a Niwroamrywiaeth (Russell, dim dyddiad), a buont yn cymryd rhan hefyd yng Nghynhadledd Genedlaethol Shelter Cymru ym mis Mehefin 2022.

8.12 Adroddodd rhai prosiectau ar weithgareddau cydgynhyrchu ar lefel sefydliad - a oedd hefyd yn ymgorffori defnyddwyr gwasanaeth prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys prosiect amlasiantaethol dan arweiniad gwasanaethau iechyd, a ddatblygodd drwy ddefnyddio cyllid Cam 2 a ganfu, fel gwasanaeth cymharol newydd, fod mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth sydd â phrofiad bywyd o gamddefnyddio sylweddau yn hanfodol er mwyn arwain ei ddatblygiad. Mae hyn wedi cynnwys mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol a chynllunio teithiau gweledol i ddefnyddwyr gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth. Mae'r prosiect yn cynnal fforwm wythnosol i ddefnyddwyr gwasanaethau gyflwyno ymatebion drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal a’r farn yw eu bod yn ddechrau dylanwadu ar wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau ehangach ar draws yr awdurdod lleol, ac ar lefel ranbarthol. Dywedodd defnyddiwr gwasanaethau ei fod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno, ac adfyfyriodd ar sut roedd yn teimlo bod cymryd rhan wedi gwella ei lesiant a'i hyder:

> 'Mae ychydig o bobl ar draws gwasanaethau yn rhoi adborth am yr hyn sy'n digwydd. Rwy'n dweud wrthynt am fy mhrofiad bywyd. Dw i'n teimlo fy mod i'n gallu siarad... Rwy’n cael mwy o hyder ynof fi fy hun; fyddwn i byth yn siarad mewn grŵp o'r blaen – fe alla i siarad am fy ngorffennol - mae'r lleill wedi bod yn yr un sefyllfa â fi'. (Cyfweliad astudiaeth achos – un â phrofiad bywyd).

Mae sgyrsiau yn digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol

8.13 Canfu’r cyfweliadau â hysbyswyr cenedlaethol allweddol rai ffyrdd addawol y gall prosiectau gysylltu â nhw, megis rhaglen a gweithgareddau Arbenigwyr trwy Brofiad Cymorth Cymru, sy'n cyfrannu safbwyntiau rhai â phrofiad bywyd at ddatblygu’r strategaeth genedlaethol neu Grwpiau Cynghori ar Ddigartrefedd. Mae gan Shelter Cymru Banel Daliwch Sylw ac maent wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau ynghylch sut y gall sefydliadau gynyddu lefelau cyfranogi defnyddwyr gwasanaethau (Shelter Cymru, 2017). Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd dysgu gwych i brosiectau ac awdurdodau lleol. Canfu’r gwerthusiad ychydig o aelodau staff a oedd yn gwybod am y cyfleoedd hyn ac yn gwerthfawrogi’r rhain a ffynonellau rhanbarthol a chenedlaethol allanol eraill o gymorth cydgynhyrchu, boed hynny trwy fforymau hyfforddi neu draws-sectorol, neu ddysgu gan grwpiau defnyddwyr gwasanaethau ehangach. Ond ar sail y gwerthusiad mae'r adnoddau hyn yn llai tebygol o dreiddio i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau.

8.14 Amlygodd y gwerthusiad fod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar lefel genedlaethol o ran cefnogi awdurdodau lleol i gyd-gynhyrchu ymyraethau digartrefedd - gyda Shelter Cymru yn tynnu sylw at ddiffyg 'fframwaith moesegol' cenedlaethol sy'n ystyried materion yn ymwneud â GDPR, rhannu data ac asesiadau risg, er enghraifft.

**Rhwystrau**

Rhwystrau rhag cynnwys defnyddwyr gwasanaethau

8.15 Ar y cyfan, roedd ymdeimlad bod staff gweithredol yn llai ymwybodol o beth yw cydgynhyrchu a bod hyn yn un o egwyddorion sylfaenol polisi Llywodraeth Cymru. Tystiolaeth o hyn oedd lefelau cymharol isel o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, a diffyg ymwybyddiaeth o sut i wreiddio gwerthoedd a chreu'r cyfleoedd iawn. Ar sail y gwerthusiad hwn, disgrifir y prif resymau dros hyn isod. Gan fod nifer yr enghreifftiau o

gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn isel, ni allwn nodi rhwystrau penodol ar gyfer gwahanol grwpiau.

Diffyg eglurder

8.16 Amlygodd arweinwyr rhaglenni a gymerodd ran mor bwysig yw i brosiectau gynnwys defnyddwyr gwasanaethau i helpu i cynllunio a gweithredu prosiectau. Mae hyn yn cael ei ddatgan fel gofyniad ar gyfer ariannu, ac mae angen i ddeiliaid grantiau ddangos sut mae hyn yn cael ei gyflawni trwy adroddiadau cynnydd blynyddol. Eto i gyd, nid oedd y tîm ymchwil yn gallu nodi unrhyw ddisgrifiad penodol o ran ym mha ffurf y dylai hyn fod, na sut y disgwylir i brosiectau weithredu'r gofyniad hwn.

8.17 O fewn safleoedd yr astudiaeth achos, roedd staff y prosiect yn drysu rhwng cyd-gynhyrchu ac elfennau eraill o ddarparu gwasanaethau, megis cael mecanweithiau adborth effeithiol, neu gynnig dewis e.e.: 'Mae'n rhan o'r prosiect, felly os bydd rhywun yn dweud eu bod am wneud rhywbeth rydym yn ceisio cyflawni'r awydd hwnnw.... eu hannog nhw i ddod ymlaen ac rydyn ni'n cynllunio llawer o bethau... teithiau cerdded a choginio." (Cyfweliad astudiaeth achos). Er y gallai'r ffactorau hyn fod yn angenrheidiol i gydgynhyrchu, nid ydynt yn ddigonol i gadarnhau bod cydgynhyrchu wedi digwydd / yn digwydd.

8.18 Mewn prosiect lle’r oedd gwell dealltwriaeth o gydgynhyrchu, daeth aelod o staff i'r casgliad nad oeddent yn ei weithredu er gwaethaf tynnu sylw at rai arferion da o ran cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth:

> 'Dim cyd-gynhyrchu fel y cyfryw er ein bod [yn casglu] adborth rheolaidd gan bobl ifanc ac yn datgan bod ein hamodau meddiannaeth yn seiliedig ar gymheiriaid, a ffurfir trwy drafod, adolygu a gweithredu gan y Rheolwr Prosiect. Rydym yn ceisio annog ymdeimlad o berchnogaeth ac yn ceisio cyd-drafod cymaint â phosibl gyda'n defnyddwyr gwasanaeth.' (Cyfweliad astudiaeth achos).

8.19 Yr hyn a awgrymir yw, er bod defnyddwyr gwasanaethau yn cymryd rhan, ni welir bod hyn yn cyrraedd trothwy 'uchel' cydgynhyrchu. Gallai ei gwneud yn glir beth mae cyd-gynhyrchu yn ei olygu yn y cyd-destun hwn, a sicrhau bod hyn yn realistig, helpu gwella’r defnydd ohono. Eto i gyd, roedd rhai hysbyswyr cenedlaethol yn teimlo nad oedd cydgynhyrchu bob amser wedi'i wreiddio ar lefel Llywodraeth Cymru - gydag enghraifft fod deimlad nad oedd gweithredu cynllunio Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cael ei gyd-gynhyrchu’n ddigonol ag awdurdodau lleol. Mae'r ymchwil gyda hysbyswyr allweddol hyd yma wedi canfod y byddai rhai awdurdodau lleol yn croesawu'r cyfle i rannu dysgu o ddulliau cydgynhyrchu gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i helpu i lywio cynllunio.

Diffyg cyswllt rhwng uchelgais cydgynhyrchu ar lefel strategol/polisi a gweithredu hynny

8.20 Roedd diffyg cyswllt amlwg rhwng y gwerthoedd a'r camau gweithredu arfaethedig ynghylch cynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn ceisiadau gwreiddiol ac adroddiadau cynnydd parhaus, a'r hyn a oedd yn digwydd ar lawr gwlad. Mewn rhai prosiectau disgrifiodd staff strategol sut y dylai'r prosiect weithio'n 'ddamcaniaethol', weithiau gyda llai o ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad (e.e., staff strategol o un sefydliad yn cyfeirio at gyd-gynhyrchu fel rhywbeth sy’n ganolog, ond nid oedd staff rheng flaen yn gweithredu hyn).

Nid yw’r gwerth canfyddedig yn glir

8.21 Er bod pawb a gyfwelwyd yn cydnabod yr angen i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, roedd ychydig o achosion lle nad oedd staff yn cydnabod pa rôl y byddai cyd-gynhyrchu yn ei chwarae wrth wella darpariaeth gwasanaethau. Gall hyn esbonio pam nad oedd yn ymddangos bod cydgynhyrchu yn cael ei ystyried yn ystyrlon mewn ychydig o brosiectau. Er enghraifft, adroddodd un prosiect eu bod wedi gofyn i bobl ifanc gymryd mwy

o ran a dweud eu barn (gan gynnwys mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth), ond nad oedd y rhan fwyaf yn dymuno gwneud hynny. Pan ofynnwyd iddynt pam fod hyn, adroddodd staff fod defnyddwyr gwasanaethau yn brysur, neu fod eu bywydau yn gymhleth. Eto nid oedd yn ymddangos bod y prosiect wedi archwilio gyda defnyddwyr gwasanaeth os oedd ffyrdd yr hoffent gymryd rhan y tu allan i'r opsiynau a gyflwynwyd iddynt (ee, efallai na fyddai rhai yn teimlo'n gyfforddus wrth eistedd mewn cyfarfod â gweithwyr proffesiynol).

## 9. Defnyddio Tystiolaeth: Mesur Perfformiad ac Effaith

9.1 Mae'n ofynnol i brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen Tai yn Gyntaf a’r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc gwblhau adroddiad monitro bob 6 mis lle cofnodir dangosyddion perfformiad allweddol parhaus. Mae prosiectau hefyd yn cwblhau cynllun cyflawni blynyddol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau a chadarnhau'r cyllid parhaus sydd ei angen (noder, nid yw dangosyddion perfformiad allweddol prosiectau unigol yn cael eu casglu ar lefel rhaglen). Canfu'r tîm ymchwil nad oes prosesau mesur cadarn ar waith yn gyffredinol ar draws prosiectau a ariennir, gyda mwy o ganolbwyntio ar allbynnau na chanlyniadau a dysgu. Lle’r oedd prosiectau'n darparu tystiolaeth, roedd hyn yn tueddu i adlewyrchu eu cynnig ehangach o wasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar y prosiect ei hun.

**Prosiectau Cam 2**

9.2 Oherwydd natur y cyllid cyflym a'r ffaith bod y prosiectau a ariennir gan refeniw bellach naill ai wedi'u prif ffrydio (fel arfer o dan y Grant Cymorth Tai, sydd â'i fframwaith monitro ac adrodd ei hun), yn cael eu darparu trwy amrywiaeth o wahanol ffrydiau cyllido, neu nad ydynt yn gweithredu mwyach, ni allem gasglu data cadarn ar ddangosyddion perfformiad allweddol ac nid yw’r dangosyddion hyn yn cael eu paratoi bellach. Roedd hyn yn golygu bod lefel ac ansawdd y data sy'n cael ei gasglu yn gymysg a, lle mae gwasanaethau'n dal i redeg, mae'n dibynnu ar ofynion ffrydiau cyllido penodol.

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc

9.3 Caiff allbynnau monitro y Gronfa Arloesi eu gosod ar lefel prosiect, sy'n golygu bod set eang iawn o ganlyniadau yn bresennol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau tai, cymuned, ffordd o fyw, iechyd, lles a lefel gwasanaethau. Mae ambell un yn mesur effaith ehangach ar y system, fel datblygu hyfforddiant arbenigol i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda charfannau

penodol (e.e., LHDTC+). Gan fod y Gronfa Arloesi wedi'i dargedu'n benodol tuag at bobl ifanc, mae pob mesur yn ymwneud â'r grŵp hwn, er yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r prosiectau'n darparu dadansoddiad pellach ar sail carfannau (oni bai eu bod yn gweithio gyda grŵp penodol, fel rhai sy'n gadael gofal/LHDTC+).

Tai yn Gyntaf

9.4 Caiff canlyniadau Tai yn Gyntaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru eu monitro ar lefel prosiect ac ar sail canlyniadau a ddatblygir yn uniongyrchol gyda phrosiectau. Mae canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf ledled Cymru (gan gynnwys y prosiectau hynny nad ydynt wedi'u hariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru) yn cael eu cofnodi gan *Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru* Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru.

9.5 Adroddodd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2023) gyfradd cynnal tenantiaeth o 91% ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf ledled Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2022. Fe wnaeth Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru hefyd ryddhau ffigurau sy'n benodol ar gyfer y gwerthusiad hwn. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, a oedd yn gywir ar 30 Medi 2022, cyfraddau cynnal tenantiaeth ar gyfer pob un o'r wyth prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw 91.9% ac 88.8% ar gyfer y pedwar safle astudiaeth achos a ddewiswyd ar gyfer y gwerthusiad.

9.6 Ar gyfer prosiectau Tai yn Gyntaf penodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a adolygwyd yma, mae mesurau canlyniadau ychwanegol y manylir arnynt mewn adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth o fesurau megis llwyth achosion ar y pryd, pobl sy'n cael mynediad at lety neu sy'n cael cymorth wrth aros am lety, nifer y tenantiaethau a grëwyd a ffigurau lefel uchel cynnal tenantiaeth. Weithiau adroddir ar amseroedd aros am dai, yn ogystal â nifer yr oriau cymorth a ymrwymwyd i allgymorth a/neu gymorth dwys ar draws y prosiect. Mae rhai prosiectau yn adrodd ar fesurau llesiant ac yn cynnwys astudiaethau achos yn eu ceisiadau cyllido.

**Arferion da a galluogwyr**

9.7 Mae bron pob prosiect yn adrodd ar o leiaf un canlyniad neu allbwn nad yw'n gysylltiedig â thai. Er enghraifft, mae 10 o brosiectau'r Gronfa Arloesi yn mesur canlyniadau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ac mae bron pob un yn ystyried mesurau sy'n ymwneud ag iechyd, lles, hyder a gwella cydberthynas. Fel yr amlygwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, o ystyried pwysigrwydd gweithio gyda'r 'hyn sy'n flaenoriaeth' a deall bod angen i ganlyniadau tai cadarnhaol edrych y tu hwnt i fesurau tai, mae'r ehangder hwn yn ymddangos yn gadarnhaol.

9.8 Lle cofnodir data, mae prosiectau'n adrodd graddau uchel o gynnal tenantiaethau. Er enghraifft, mae un prosiect Tai yn Gyntaf yn adrodd cyfradd cynnal tenantiaethau o 92% ar draws 25 tenantiaeth ers 2019 a dim ond un achos lle daeth y denantiaeth i ben oherwydd carchar hirdymor.

9.9 Mae ychydig o feysydd astudiaeth achos yn casglu gwybodaeth yn fewnol i gasglu adborth, mesur cynnydd a/neu bellter a deithiwyd, megis trwy holiaduron ymadael, neu ddulliau mesur Sêr Canlyniadau. Adroddodd rhai prosiectau eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd â chleientiaid i adolygu eu nodau, gydag un yn cyfuno data asesu a chynnydd mewn system sengl i ganiatáu adroddiadau manylach. Er bod rhai prosiectau ar raddfa fach, gall hyn gynnig rhywfaint o wersi defnyddiol i Lywodraeth Cymru.

**Rhwystrau**

Diffyg cysondeb

9.10 Er bod rhai prosiectau'n mesur canlyniadau a allai fod o werth ehangach, mae'r rhain wedi'u gosod ar lefel y prosiect, yn hytrach na lefel y rhaglen. Pan fo themâu cyffredin yn dod i'r amlwg (e.e., ynghylch llesiant, canlyniadau tai), mae'r ffyrdd y caiff gwybodaeth ei chasglu yn wahanol (e.e. y geiriad penodol yn wahanol, neu mae'n mesur canlyniad / allbwn sydd naill ai'n canolbwyntio ar y gwasanaeth neu'r defnyddiwr. Mae rhai yn defnyddio

niferoedd, eraill yn adrodd canrannau). Roedd hyn yn golygu nad yw'r tîm ymchwil wedi gallu adnabod allbynnau ar lefel rhaglenni gyda sicrwydd.

9.11 I ryw raddau gellir disgwyl hyn, gan fod prosiectau a ariennir trwy'r ffrwd hon yn amrywio'n fawr o ran model, grŵp targed, graddfa a chanlyniadau arfaethedig prosiect. Gall hyn amrywio o ddarparu cymorth brys neu ataliol (gweithio gyda hyd at 100 o bobl neu fwy), i brofi gwahanol fodelau llety (cynlluniau lletywr neu rannu, fflatiau hyfforddi, Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc – gyda llawer ohonynt â chapasiti bach o ran llety).

Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio mwy ar allbynnau

9.12 Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, casglwyd gwybodaeth yn bennaf at ddiben adrodd i Lywodraeth Cymru am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd, a oedd yn tueddu i gael eu fframio o amgylch allbynnau penodol (er bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y modd y gosodwyd y rhain). Dywedodd prosiect a oedd yn cydnabod bod y dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol yn 'eithaf sylfaenol' wrthym y byddent yn croesawu'r cyfle i drafod dysgu a gwella gyda Llywodraeth Cymru, a'r cyfle i adnewyddu'r dangosyddion perfformiad allweddol, ond nad yw'r naill na’r llall wedi digwydd hyd yn hyn.

Diffyg eglurder

9.13 Roedd rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn codi canlyniadau 'meddalach', megis gwelliannau i lesiant ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir sut mae'r dystiolaeth hon yn cael ei chasglu. Yn achos un prosiect, hysbyswyd y tîm ymchwil fod y dangosyddion perfformiad allweddol llesiant wedi cael eu hasesu gan aelodau staff, yn hytrach na thrwy ofyn i bobl ifanc yn uniongyrchol.

Rhwystrau sy'n gysylltiedig â COVID-19

9.14 Roedd rhai prosiectau wedi bwriadu casglu gwybodaeth ychwanegol, megis asesu cost a budd neu roi mesurau hydredol ar waith trwy raddfeydd Llesiant Meddwl Warwick Edinburgh.[4] Fodd bynnag, nododd y tîm ymchwil nad oedd hyn yn digwydd ar y cyfan. Cyfeiriodd rhai o'r rhai a holwyd at COVID-19 fel rheswm dros hyn oherwydd bod oedi ar ddyddiadau cychwyn, a tharfu sy'n golygu na allai prosiectau gychwyn na gweithredu fel y bwriadwyd. Roedd modelau Tai yn Gyntaf a llety a rennir yn benodol wedi cael trafferth cyflawni fel y cynlluniwyd ar y cychwyn oherwydd y pandemig. Roedd hyn yn golygu na chafodd mesuriadau 'cadarn' ychwanegol eu gweithredu o'r cychwyn cyntaf.

Problemau cyfathrebu

9.15 Roedd rhai staff prosiectau a gymerodd ran yn ansicr ynghylch sut roedd dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu mesur. Er enghraifft, mewn un prosiect awgrymodd un â swyddogaeth strategol a gyfwelwyd fod staff rheng flaen yn casglu gwybodaeth (gan eu bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau), ond pan ofynnwyd iddynt, canfuwyd nad oedd hyn yn wir. Mewn prosiect partneriaeth sy'n cael ei gyflawni gan sefydliad trydydd sector ac awdurdod lleol, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd o blith y ddau bartner fod y partner arall yn casglu'r dangosyddion perfformad allweddol.

Casglu tystiolaeth gadarn o brosiectau ar raddfa fach sy'n gweithio gydag unigolion cymhleth

9.16 Dywedodd prosiectau a oedd yn llai ac a oedd yn gweithio gydag unigolion mwy cymhleth, y gallai eu teithiau at gartrefu gymryd mwy o amser ac yn llai llinellol, nad oedd dangosyddion meintiol traddodiadol a dangosyddion perfformiad allwedd rhifol yn mesur rhai o'r ffactorau a ganfuwyd fel

[4] Warwick-Edinburgh Mental Well-Being Scale (WEMWBS) © Prifysgol Warwick 2006, cedwir pob hawl.

'llwyddiant'. Nododd ambell un fod canlyniadau nad oedd yn ymwneud â thai weithiau'n fwy priodol. Er enghraifft, dangosydd a adroddwyd gan un prosiect oedd galluogi pobl ag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl i gydweithredu â gwasanaethau a allai eu helpu i wella. O'r safbwynt hwn, mae'r cleient mewn gwell sefyllfa i ddatblygu sgiliau bywyd a lleihau digartrefedd yn y dyfodol. Teimlai prosiect arall y byddai dull ansoddol yn cynnig gwybodaeth fwy gwerthfawr ac roedd yn casglu astudiaethau achos cleientiaid at y diben hwn.

Diffyg llais profiad bywyd

**9.17** Fel yr amlygwyd uchod, argymhellwyd bod pobl sydd â phrofiad bywyd yn cyfrannu ati werthuso gwasanaethau. Fodd bynnag, er bod rhai prosiectau y cyfeirir atynt yn cynnwys pobl ifanc wrth werthuso, nid oedd hyn yn amlwg ymhlith yr holl astudiaethau achos. Efallai fod ffactorau COVID-19 wedi rhwystro sefydlu hyn ar y cychwyn ond, trwy siarad â staff, ymddengys nad oedd hyn wedi cael ei ystyried y tu hwnt i gasglu adborth.

## 10. Casgliadau ac Argymhellion

10.1 Canfu'r gwerthusiad ganlyniadau ac effaith gadarnhaol ar lefel prosiect unigol, gydag enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaethau'n profi gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a lle cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol o ran tai, er gwaethaf adroddiadau helaeth am amgylchedd anodd lle mae opsiynau llety addas yn mynd yn fwyfwy prin. Y rhwystr mwyaf sylfaenol i brosiectau weithredu a gweithio tuag at weledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru (fel yr amlygwyd yn y theori newid ar lefel polisi, gweler Atodiad C) oedd diffyg cydgysylltu ar lefel system leol. Roedd hyn yn golygu mai mewn rhai elfennau yn unig o'r llwybr cartrefu y derbyniodd rhai defnyddwyr wasanaeth cadarnhaol. Roedd staff gweithredol yn arbennig yn gweithio'n galed i sicrhau profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau o fewn prosiectau, er y gellid asesu diffyg ymwybyddiaeth o beth oedd rhan hyn yn y system na sut i ddatblygu cysyniadau neu gymhwyso blaenoriaethau polisi cenedlaethol. Mae'r adran hon yn cynnig rhai sylwadau adfyfyryriol ac argymhellion cyffredinol i arwain y strategaeth ariannu genedlaethol, er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r weledigaeth polisi cenedlaethol, gan ystyried ffyrdd y gall deiliaid grantiau a Llywodraeth Cymru gydweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol i adeiladu system Ailgartrefu Cyflym sydd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn sail iddi.

### Archwilio ffyrdd o ymgorffori dull system gyfan ar lefel leol

10.2 Canfu ambell brosiect ei ffordd yn llwyddiannus drwy wahanol gamau ar draws y system Ailgartrefu Cyflym – megis lle cafodd trwyddedau eu 'gwrthdroi' i sicrhau tenantiaethau a phartneru gyda darparwr tai sydd wedi prynu llety a chlustnodi'r anheddau hyn ar gyfer symud ymlaen o'r prosiect. Fodd bynnag, aseswyd llawer o brosiectau fel rhai 'mewn seilo', a oedd yn brin o ymrwymiad strategol ar draws y camau a'r pwyntiau cyffwrdd sydd ar hyd llwybrau ailgartrefu lleol. Roedd ymwybyddiaeth o systemau lleol yn dameidiog, ac er bod partneriaethau sefydledig ar waith weithiau ar hyd

elfennau o'r llwybr, aseswyd yn aml bod cysylltiadau ag ymyrraeth gynnar a gwasanaethau symud ymlaen yn wan. Roedd hyn yn golygu, er y gallai cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod yn bresennol mewn prosiect penodol, nid oedd hyn byth yn wir ar hyd y llwybr cyfan, yn enwedig gyda symud ymlaen (lle clywsom enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaethau yn symud 'yn ôl' i lety llai diogel, gan aros mewn llety lle nad oedd angen lefel y cymorth a gynigiwyd bellach neu deimlo o dan bwysau i dderbyn cynnig llety sefydlog er ei fod yn anaddas).

**Argymhellion**

10.3 Mae'r argymhellion canlynol yn archwilio ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda deiliaid grantiau presennol neu yn y dyfodol i'w helpu i gysylltu prosiectau â strategaethau a chynlluniau lleol a sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio'n well mewn systemau tai a digartrefedd lleol: mae'r diagram Ailgartrefu Cyflym (Ffigur 1, gweler paragraff 2.14) yn cyflwyno gweledigaeth lefel uchel o sut mae hyn yn gweithio ar draws ardaloedd lleol.

10.4 Dylai fod yn ofynnol i brosiectau ddangos dealltwriaeth o ble mae'r cyfleoedd a'r tagfeydd lleol, ac yn ofynnol iddynt hefyd ystyried y camau a gymerir, a pha gynlluniau wrth gefn fydd ar waith i oresgyn problemau wrth iddynt godi - er enghraifft, lle mae diffyg opsiynau llety sefydlog sy'n diwallu anghenion grwpiau penodol. Dylai deiliad y grant nodi'n glir sut y caiff cynnydd ei fesur a'i adrodd.

10.5 Dylid disgwyl i brosiectau nodi sut maent yn cyfrannu at y system Ailgartrefu Cyflym, e.e. sicrhau llety sefydlog a rhoi cefnogaeth i bontio at hyn. Gall hyn gynnwys sefydlu partneriaethau mwy ffurfiol gyda gwasanaeth sy'n gweithio ar draws rhan wahanol o'r system (er enghraifft, gallai prosiect tai â chymorth bartneru â phrosiect ailsefydlu). Dylai ymgeiswyr amlygu’n glir beth yw cyfrifoldebau pob partner; gellid cyflawni hyn drwy sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth, trefniadau cyllid cyfatebol neu ddangos prawf o’r

strwythurau amlasiantaethol presennol a ddefnyddir i gytuno ar y cyd ar gyfrifoldebau.

10.6 Dylid blaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau sydd â hyblygrwydd yn rhan annatod ohonynt i helpu defnyddwyr gwasanaethau i symud yn fwy di-dor ar hyd y llwybr tai - yn enwedig lle maent yn gysylltiedig â gwasanaethau sy'n cynnig ymyrraeth gynnar a chymorth i symud ymlaen.

10.7 Wrth asesu ceisiadau am gyllid yn y dyfodol, dylid rhoi ffafriaeth lle mae ymgeiswyr wedi ystyried lle mae prosiect yn ymgorffori cynllunio strategol ar gyfer anghenion gofal hirdymor defnyddwyr gwasanaethau os/pan fyddant yn symud y tu hwnt i ddarpariaeth gwasanaethau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- Modelau i leihau cymorth Tai yn Gyntaf er mwyn rhyddhau lleoedd lle nad oes angen cymorth dwys mwyach, heb beryglu 'ymyl dibyn' o gymorth i bobl y gall eu hamgylchiadau newid yn hawdd.
- Datblygu partneriaethau o'r cychwyn fel y gall gwasanaeth gefnogi'r rhai sy'n 'pontio' i fod yn oedolion, fel Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc gan weithio'n agos gyda Tai yn Gyntaf ar gyfer oedolion – gall hyn hefyd gefnogi pontio esmwythach, mwy ystyriol o drawma at weithiwr cymorth newydd, os oes angen.
- Partneriaethau gyda gofal cymdeithasol ac iechyd oedolion i ddarparu modelau gofal ychwanegol neu amgen lle mae pobl yn heneiddio yn eu lle o fewn model a/neu yn datblygu anghenion gofal.

10.8 Unwaith y bydd cyllid yn ei le (ac ar gyfer prosiectau presennol) dylai Llywodraeth Cymru (efallai drwy reolwyr rhaglenni) chwarae rhan weithredol o ran annog prosiectau i archwilio opsiynau i dyfu eu cynnig y tu hwnt i brif gyllid y rhaglen (megis prosiectau Cam 2 – a ddefnyddiodd gyllid fel sbardun i ehangu eu cylch gwaith). Gallai hyn olygu canfod ffordd o gwmpas y cyfleoedd ariannu sydd ar gael, a chyngor ac awgrymiadau ar sut i adeiladu a datblygu cysylltiadau ar draws y system.

10.9 Awgrym mwy uchelgeisiol yw ystyried llwybrau ariannu 'o'r dechrau i'r diwedd' neu ar raddfa fwy ac yn ddelfrydol mewn partneriaeth ag adrannau

awdurdodau lleol eraill a gwasanaethau cyhoeddus i ysgogi systemau lleol. Gallai hyn fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer Tai yn Gyntaf/Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, lle clywsom fod ffynonellau bach neu dymor cymharol fyr o gyllid yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio staff arbenigol, a lle mae angen ymgorffori'r model mewn ymateb strategol ehangach i amddifadedd lluosog na all eistedd gyda gwasanaethau digartrefedd yn unig. Yn bwysicaf oll, gall hyn sicrhau cynnig mwy di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Cynllunio ymyrryd ac atal cynnar o’r cychwyn**

10.10 Fel un o flaenoriaethau digartrefedd Llywodraeth Cymru, dylai ymyrryd ac atal cynnar ffurfio elfen o'r rhan fwyaf (os nad pob un) o’r prosiectau a ariennir. Clywsom enghreifftiau o ychydig o brosiectau'n cynllunio elfennau o waith ataliol yn llwyddiannus o’r cychwyn, megis trwy gynnig cyfryngu teuluol, partneru â gwasanaethau 'pontio' (ysbyty/carchar/gofal cymdeithasol) a chynnig cymorth arbenigol fel bo’r angen ar gyfer carfannau ag anghenion penodol (fel pobl ifanc LHDTC+). O'r prosiectau a werthuswyd a oedd yn cyflawn gwaith atal wedi'i dargedu a mwy rhagofalus, adroddwyd canlyniadau cadarnhaol ynghylch dargyfeirio achosion oddi wrth wasanaethau statudol. Ar hyn o bryd, oherwydd y pwysau statudol a wynebir, mae prosiectau llety yn benodol yn tueddu i dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer y rhai sydd ar gamau mwy llym o angen llety. Mae hyn yn golygu y gall y rhai sydd ar gamau atal eilaidd a hyd yn oed trydyddol fynd yn acíwt ac y bydd angen ymyrraeth statudol fwy costus arnynt yn y dyfodol.

Argymhellion

10.11 Law yn llaw â chynnwys atal fel rhan o ddull system, rydym yn cynnig rhai argymhellion ychwanegol.

10.12 Er ein bod yn cydnabod heriau mewn ardaloedd lleol, byddem yn argymell ei gwneud yn ofynnol i brosiectau sicrhau bod o leiaf gyfran o atgyfeiriadau yn cael eu cadw ar gyfer y rhai sydd ar gamau llai acíwt o ddigartrefedd (e.e., y

rhai ar gamau eilaidd a/neu drydyddol ar y continwwm a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru), gyda gofyn i brosiectau roi dadansoddiad o ble/pa gyfran o/sut y bydd llwybrau atgyfeirio yn cyflawni hyn. O fewn hyn, ystyried sut i gynnwys mecanweithiau i fesur effaith a dangos lle mae prosiectau wedi dargyfeirio'r angen am ymyrraeth statudol (fel y clywsom trwy waith maes ansoddol). Gall hyn helpu i sicrhau ymrwymiad gan awdurdodau lleol a helpu i adnabod pa fodelau sy'n gwneud yn well mewn gwahanol gyd-destunau lleol.

10.13 Annog darpar gyllidwyr i gynllunio elfennau o waith ataliol fel rhan o'r modelau gwasanaeth a fabwysiedir. Er enghraifft, gall hyn gynnwys elfen cymorth fel bo'r angen i weithio gyda'r rhai sydd ar restr aros, gan ganolbwyntio ar ddargyfeirio angen drwy archwilio opsiynau tai addas eraill. Gall prosiectau sy'n cynnig hyfforddiant neu gymorth tenantiaeth seiliedig ar lety gynnig elfennau allgymorth – fel y gall defnyddwyr gwasanaeth elwa o dderbyn sgiliau i gynnal tenantiaethau unwaith y byddant yn caffael llety (na fyddai o anghenraid drwy'r prosiect).

**Mesur effaith ar lefel leol a chenedlaethol**

10.14 Mae gan brosiectau a ariennir y potensial i ddangos gwybodaeth werthfawr a defnyddiol, ond ar hyn o bryd nid yw hyn yn digwydd, oherwydd cymysgedd o fesurau anghyson a diffyg eglurder ynghylch sut y casglwyd data a gofnodwyd. Yn ehangach, gwelsom ormod o bwyslais ar allbynnau a llai ar sut y gall y mesurau presennol helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni gwerth am arian ac yn gweithio tuag at flaenoriaethau polisi cenedlaethol. Clywsom enghreifftiau o brosiectau, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau (fel LHDTC+) neu fodelau mwy newydd / heb eu profi gymaint (megis fflatiau hyfforddi), yn canfod gwybodaeth ansoddol werthfawr, nad oedd y dangosyddion perfformiad allweddol presennol yn ei chodi mewn gwirionedd.

Argymhellion

10.15 Bydd y mesurau penodol sydd ar waith, a sut maent yn cyfrannu at weithio tuag at weledigaeth Ailgartrefu Cyflym yn dibynnu ar y modelau cyllido a fabwysiadwyd, isod mae rhai awgrymiadau.

10.16 Sicrhau bod mesurau'n cyd-fynd â nodau strategol Llywodraeth Cymru. Er yn cydnabod bod prosiectau o fewn rhaglenni (y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc yn fwy penodol) yn wahanol - argymhellir archwilio mesurau cyffredin ar draws y rhain. Mae'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2024) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu dull strwythuredig o ddiffinio a chreu dangosyddion mesuradwy. Mae'r fframwaith yn ymdrin â'r themâu strategol allweddol a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn megis: gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma (un enghraifft o ddangosydd yma yw nad yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i ddigartrefedd), darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chefnogi'r gweithlu, ac yn fframio hyn o fewn model ataliol Ailgartrefu Cyflym. Mae'r Fframwaith Canlyniadau Grantiau Cymorth Tai (Llywodraeth Cymru, 2023), sydd wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2023 hefyd yn berthnasol i ddarparwyr sy'n defnyddio hyn, yn rhannol o leiaf, i ariannu eu prosiectau. Mae'r fframwaith yn ymdrin â deilliannau sy'n benodol i wahanol fathau o gymorth tai, neu gymorth nad yw'n ymwneud â thai, ochr yn ochr â mesurau eilaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n mesur y graddau mae hyn yn digwydd ac yn cael eu fframio o amgylch canlyniadau a adroddir gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd angen profi dangosyddion terfynol mewn gwahanol amgylcheddau lleol lle mae prosiectau'n cael eu rhedeg ynddynt, er mwyn sicrhau y gallant gasglu data cadarn ar draws gwahanol gyd-destunau ac amodau lleol.

10.17 Rydym yn awgrymu ystyried a all datblygu Theori Newid helpu arwain syniadau ynghylch sut i fesur canlyniadau ac effaith, gan gysylltu’r polisi a gynhyrchwyd gan y Theori Newid drwy'r ymchwil hwn i lunio’r blaenoriaethau cenedlaethol ar draws y tri cham yn y llwybr Ailgartrefu Cyflym (gweler paragraff 2.14).

10.18 Archwilio ffyrdd o gynllunio mesurau mwy 'pwrpasol' ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hariannu'n benodol i roi gwybodaeth ynghylch demograffeg, neu fodelau prosiect lle na wyddom gymaint amdanynt, yn enwedig y rhai y mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eu profi am y potensial o'u tyfu (e.e. fflatiau hyfforddi, modelau rhannu). Er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn yn fach o ran maint, gall mesur cyffredin sy'n cysylltu â nodweddion y mae prosiectau'n eu rhannu gefnogi dysgu ehangach.

- Pa fesurau bynnag sy'n cael eu creu, dylai'r rhain fod yn gyson ac yn briodol i gael canlyniadau enghreifftiol arfaethedig i brosiectau – gweler isod). Dylent o leiaf gynnwys ffyrdd o fesur llif o fewn y system ehangach, megis lle mae digartrefedd wedi'i atal neu ddefnyddwyr gwasanaethau wedi cael cymorth i symud ymlaen i lety. Dylai prosiectau sy'n cyflawni atal neu symud ymlaen gael eu cefnogi i fesur cynaliadwyedd tenantiaeth – fel y gellir olrhain effaith hirdymor.
- Pan adroddir ar ganlyniadau ar lefel cleientiaid (e.e. ynghylch iechyd a llesiant), dylid rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu hunan-adrodd gan ddefnyddwyr gwasanaethau (yn ddienw yn ddelfrydol).
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfarfodydd cynnydd rheolaidd yn digwydd gyda'r diben penodol o fonitro a chefnogi prosiectau i gasglu tystiolaeth o ansawdd, arfer da a'n hyn a ddysgir, gan gadw golwg ar sut mae'r rhain yn dangos canlyniadau ac effaith yn unol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

**Datblygu eglurder a goruchwyliaeth mewn cysyniadau sy'n ffurfio blaenoriaethau cenedlaethol allweddol Llywodraeth Cymru**

10.19 Amlygodd y gwerthusiad fod staff gweithredol, yn enwedig, naill ai'n anghyfarwydd â rhai o'r cysyniadau allweddol sy'n ffurfio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, neu wedi eu camddehongli (yn benodol Ailgartrefu Cyflym, cydgynhyrchu, dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ystyriol o drawma a chysyniadau model penodol – megis Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc). Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys bod o'r farn nad oes lle i dai â chymorth mewn system Ailgartrefu Cyflym, bod dull sy'n ystyriol o drawma

yn golygu cyfeirio at wasanaeth 'arbenigol'. Gwelwyd hefyd ddiffyg eglurder ynghylch sut i gymhwyso'r blaenoriaethau hyn yn ymarferol (e.e. sut i ymgorffori elfennau o gydgynhyrchu). Roedd ymdeimlad nad oedd staff o reidrwydd yn gweld sut yr oedd rhai o'r blaenoriaethau hyn yn gweddu i'w prosiect a/neu sut y gallent helpu i wella canlyniadau'r prosiect.

Argymhellion

10.20 Mae'r argymhellion yma'n awgrymu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o brosiectau a darparu cymorth iddynt er mwyn ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn ymarferol.

10.21 Datblygu goruchwyliaeth ac eglurder cysyniadau allweddol o'r cychwyn fel rhan o reoli prosiectau. Gweithio'n agos gyda deiliaid grantiau ar y cychwyn i egluro a chynnwys cysyniadau allweddol (Ailgartrefu Cyflym, cydgynhyrchu, dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/sy'n ystyriol drawma, etc) yn eu prosiectau – gyda thrafodaeth agored ynghylch y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgorffori'r rhain yn eu cyd-destunau lleol. Gallai hyn gynnwys nodi pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol, y ffyrdd mwyaf effeithiol o weithredu blaenoriaethau, a ffyrdd realistig ac effeithiol o fesur y rhain.

10.22 Gall integreiddio cysyniadau allweddol o fewn gweithgareddau ariannu Llywodraeth Cymru anfon neges gref at brosiectau ynghylch eu pwysigrwydd. Er enghraifft, gall ymgorffori cydgynhyrchu yn y broses gomisiynu rhaglenni ddangos ei fod yn cael ei gymryd o ddifrif fel cam allweddol wrth roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, gan gefnogi deiliaid grant posibl i ddod yn fwy cyfarwydd â'r hyn y mae'n ei olygu, sut mae'n gweithio, a sut y gall ychwanegu gwerth. Gall cydgynhyrchu gyda'r rhai sy'n cyflawni prosiectau hefyd gynnig llwybr at ddatblygu canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer staff sy'n darparu gwasanaethau, a all gynnwys themâu fel 'safonau gofynnol' ac 'arferion da'.

10.23 Byddai prosiectau'n elwa ar ganllawiau mwy ymarferol i'w helpu i weld gwerth cysyniadau allweddol, megis dadlau'r achos dros gydgynhyrchu o ran

canlyniadau llesiant unigol a buddion i brosiectau a systemau ehangach, sut y gall meithrin perthynas â darparwyr tai a chymorth gefnogi uchelgeisiau Ailgartrefu Cyflym. Gallai rhannu'r arferion da presennol fel tystiolaeth ar draws rhai prosiectau a werthuswyd gefnogi'r nodau hyn.

10.24 Cynnwys prosiectau a ariennir mewn sgyrsiau dan arweiniad cenedlaethol a rhanbarthol, neu rwydweithiau cymheiriaid sy'n ymwneud â blaenoriaethau allweddol fel sy'n berthnasol iddynt, i rannu enghreifftiau ymarferol, llwyddiannau neu heriau.

10.25 Ar gyfer prosiectau sy'n gweithredu modelau penodol, fel Tai yn Gyntaf neu Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc - dylai ceisiadau am gyllid fynd y tu hwnt i ddatganiadau fel 'pob aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn arferion sy'n ystyriol o drawma' neu sy'n cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Efallai y gellir gofyn i ddeiliaid grant posibl ddangos sut maent yn bwriadu ymgorffori eu prosiect o fewn strategaethau ehangach a sicrhau bod eu prosiect, a'r egwyddorion ynddo, yn parhau i esblygu wrth i'r modelau hyn barhau ledled Cymru a datblygu gwersi. Gallai hyn gynnwys hyfforddi staff gweithredol am egwyddorion allweddol o fewn modelau y dylid eu cymhwyso (megis bod yn ystyriol o drawma).

10.26 Ystyried gweithredu dull strategol o fesur, adfyfyrio ar yr hyn a ddysgir a'i weithredu yn ystod y cyfnod cyllido – a nodi sut beth fydd hyn ar y cam caffael. Fel man cychwyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes mecanweithiau a strwythurau ar gael ar hyn o bryd a allai helpu i gefnogi'r dull hwn. Rydym hefyd yn awgrymu cyfeirio at ganllawiau presennol fel man cychwyn, ac yna profi a theilwra dull mewn partneriaeth â deiliaid grant. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys dull Systemau Dysgu Dynol (Lowe et al, 2021) (sy'n defnyddio dull o ddysgu cyfunol a gwella ymaddasol o reoli perfformiad). Efallai mai dull arall posibl i'w archwilio fyddai masnachfreinio cymdeithasol (The Health Foundation, 2024) i gefnogi newid ac atgynhyrchu systemau.

10.27 Mae defnyddio dull adfyfyriol ar lefel strategol yn cynnig cyfle i adnabod yr hyn a ddysgir a goresgyn rhwystrau, yn enwedig y rhai sy'n bresennol o fewn

systemau ehangach sy'n effeithio ar gyflwyno arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn gysylltiedig â'r awgrym cynharach o fynnu bod darpar ddeiliaid grantiau yn dangos bod ganddynt weithdrefnau ar waith i reoli'n well heriau sydd y tu hwnt i reolaeth y prosiect. Gellir cyfuno'r adborth a gasglwyd trwy'r broses hon a'i fwydo'n rheolaidd yn ôl (i ddeiliaid grantiau yn ogystal â'r llywodraeth). Gall hyn helpu Llywodraeth Cymru hefyd i nodi lle y gellir lliniaru problemau posibl yn lleol a pha rai sy'n gofyn am newid polisi neu fuddsoddiad neu arweiniad pellach gan y llywodraeth.

**Cyfeiriadau**

Blood, I., Birchall, A., a Pleace, N. (2021) Reducing, Changing or Ending Housing First Support. Adroddiad Ymchwil. Llundain: Homeless Link. (Gwelwyd: 26/01/2024).

Bro Morgannwg (2023) Cynllun Ailgartrefu Cyflym Bro Morgannwg. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Clementine, K. (2023) 'Section 21: Twelve households sought temporary accommodation every day last year', ITV News, 27 Mawrth 2023 (Gwelwyd: 24/01/2024).

Cyfraith Cymru (2023) Digartrefedd (Gwelwyd: 09/02/2024).

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (dim dyddiad) Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 – 2027 (Gwelwyd: 24/01/2024).

Cymorth Cymru (2022) Hyfforddiant PATH, (Gwelwyd 29/03/23)

Fitzpatrick, S., Mackie, P. & Wood, J. (2021) 'Advancing a Five-Stage Typology of Homelessness Prevention', *International Journal on Homelessness*, 2021, 1(1): tt. 79-97.

Hobson, F. (2023) Local Housing Allowance (LHA): Help with rent for private tenants. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rhif BP04957 (Gwelwyd: 30/01/2024).

Hyb ACE Cymru (2022) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. (Gwelwyd: 12/02/2024).

Lowe, T. French, M., Hawkins, M, Hesslegreaves, H and Wilson, R. (2021) 'New development: Responding to complexity in public services—the human learning systems approach', *Public Money & Management*, 41:7, 573-576

Llywodraeth Cymru (2018) Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2019) Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Hydref 2019 (Gwelwyd: 12/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2020a) Grant Cymorth Tai: Canllawiau Ymarfer. Sut y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r grant o fis Ebrill 2020. 11 Chwefrorf 2020. (Gwelwyd 12/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2020b) Cam 2 Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cysylltiedig â Thai. 3 Mehefin 2020. (Gwelwyd 25/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2021a) Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym: Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Phartneriaid. Datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 i 2027, Hydref 2021. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2021b) Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu lefel uchel 2021-2026, Rhif:43945, 30 Tachwedd 2021 (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2021c) Y Cytundeb Cydweithio, 1 Rhagfyr 2021. (Gwelwyd: 08/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2021d) Raglen Lywodraethu 2021 i 2026: diweddariad, 7 Rhagfyr 2021. (Gwelwyd: 08/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2022a) Ailgartrefu Cyflym: canllawiau. Sut y byddwn yn helpu'r rhai sy'n profi digartrefedd i ddod o hyd i dai sefydlog yn gynt, 24 Awst 2022. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2022b) Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Adroddiad y grŵp arbenigol, Medi 2022 (Gwelwyd: 06/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2023) Fframwaith canlyniadau'r Grant Cymorth Tai. I'w weithredu o fis Ebrill 2023. WG45238, diweddarwyd ddiwethaf 20 Mawrth 2023. (Gwelwyd: 26/02/2024).

Llywodraeth Cymru (2023a) Astudiaeth Ddichonoldeb Dyraniadau Tai Cymdeithasol, Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth: 63/2023, 08/06/2023. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2023b) Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, 12 Mehefin 2023. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2023c) Adroddiad Interim Gwerthuso Ymyraethau Digartrefedd, SRN 74/2023, 13 Gorffennaf 2023. (Gwelwyd: 21/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2023d) Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026. Diweddariad haf 2023. Rhif: 48269, 23 Awst 2023 (Gwelwyd: 25/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2023e) Ystadegau Digartrefedd yng Nghymru, 2022-23, SFR 69/2023, 6 Medi 2023 (Accessed: 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2023f) Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Rhif: 48223, 10 Hydref 2023 (Gwelwyd 24/01/2024).

Llywodraeth Cymru (2024) Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Osmond, A. (2023) Housing First for Youth in Wales, cyflwyniad Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru / Cymorth Cymru. (Gwelwyd: 31/10/2023).

Pawson, R. a Tilly, N (1997) Realistic Evaluation. Llundain: Sage Publications Ltd.

Russell, H. (dim dyddiad) Participatory Methods in Youth Homelessness and Neurodiversity Research. End Youth Homelessness Cymru. Gwelwyd 24/01/2024).

Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2022) Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru (Chwefror 2018 – Medi 2021). (Gwelwyd: 12/02/2023).

Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2023) Egwyddorion Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc. (Gwelwyd 29/01/2024).

Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2023) Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru (Chwefror 2018 – Medi 2022). (Gwelwyd 30/01/2024).

Sefydliad Bevan (2023) Wales' Housing Crisis: Local Housing Allowance and the private rental market in Wales, Winter 2023. (Gwelwyd: 26/01/2024).

Shelter Cymru (2017) Adnoddau Neb Heb Help. Abertawe: Shelter Cymru. (Gwelwyd: 12/02/2024).

The Health Foundation (2024) Exploring Social Franchising

(Gwelwyd: 08/02/2024).

Watkins, P. (2023) Ffocws y Senedd ar iechyd meddwl. Ymchwil y Senedd, 23 Mai 2023. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar ran Llywodraeth Cymru (2019) Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor, Hydref 2019. (Gwelwyd: 24/01/2024).

Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar ran Llywodraeth Cymru (2020a) Y fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd), Mawrth 2020. (Accessed: 24/01/2024).

Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar ran Llywodraeth Cymru (2020b) Atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno drwy ailgartrefu cyflym a phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, Gorffennaf 2020. (Gwelwyd: 24/01/2024).

**Atodiad A**

Cwestiynau ymchwil:

**Cwestiynau ymchwil ynghylch prosesau**

1) Sut mae prosiectau yn cael eu cyflawni ar draws awdurdodau lleol?
    a. A ellir sefydlu theorïau newid cyffredin?
2) Beth yw'r rhwystrau a'r galluogwyr wrth sefydlu gwahanol fathau o brosiect?
    a. Sut allai'r rhain fod yn wahanol ar gyfer mathau o brosiectau?
    b. A oes yna ffactorau cyffredin sy'n galluogi cyflawni effeithiol?
3) Beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau i bartneriaid cyflenwi ar gyfer y mathau o brosiectau?
    a. Beth yw'r ffactorau sy'n lleihau gofynion adnoddau ar gyfer rhai prosiectau?
4) Beth yw effaith cyd-destun lleol wrth sefydlu prosiectau?
5) I ba raddau y mae wedi dulliau sy'n cael eu harwain gan seicoleg ac sy'n ystyriol o drawma wedi'u hintegreiddio i ffyrdd o weithio?

**Cwestiynau ymchwil ynghylch canlyniadau**

- Canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth:

6) A yw adnoddau'n cyrraedd y defnyddwyr gwasanaethau a fwriadwyd?
    a. A yw defnyddwyr gwasanaethau yn cael cynnig atebion tai priodol?
7) Beth mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei ystyried yn ffactorau galluogi a/neu analluogi sy'n gysylltiedig â'u canlyniadau?
    a. A oes unrhyw grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn wynebu mwy o rwystrau i atebion digartrefedd priodol? e.e. y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.
8) A yw'r effaith yn amrywio yn sgil digartrefedd defnyddiwr gwasanaeth a rhyngweithiadau â gwasanaethau cyhoeddus eraill (e.e. gwasanaethau iechyd meddwl)?
9) Pa effeithiau y gellir eu gweld ar ddefnyddwyr gwasanaethau a sut mae'r rhain yn wahanol? Yn benodol, o ran:

    a. Sefydlogrwydd llety
    b. Defnyddio/rhyngweithio â gwasanaethau cymorth tai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol
    c. Llesiant corfforol
    d. Lles emosiynol/meddyliol
    e. Cymryd rhan mewn ymddygiad peryglus
    f. Ar y rhai sydd heb unrhyw fynediad at arian cyhoeddus.

- Canlyniadau i ddarparwyr a gwasanaethau cysylltiedig eraill:

10) Pa effaith y gellir ei gweld ar ddarparwyr a gwasanaethau cysylltiedig eraill? Gan gynnwys:
    a. Adnoddau
    b. Ffyrdd o weithio
11) Sut mae'r cyllid wedi cefnogi cynyddu capasiti yn y system ar gyfer oedolion a phobl ifanc? Gan gynnwys:
    a. Mynediad at gymorth i denantiaid ac ansawdd y cymorth hwnnw
    b. Mynediad at lety ac ansawdd y llety
    c. Capasiti darparwyr
    d. Gallu darparwyr
12) Beth yw graddau'r gwaith partneriaeth yn y prosiectau a gefnogir gan y gronfa? Gan gynnwys:
    a. Beth yw'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth?
    b. Sut y gwnaeth effeithiolrwydd y gronfa / y broses ymgeisio gefnogi datblygu gwaith partneriaeth?
    c. Beth yw effaith y gwaith partneriaeth?

Canlyniadau Strategol:

13) Beth yw cryfderau a gwendidau gwahanol fathau o ymyrraeth digartrefedd yng Nghymru?
14) Sut mae'r gwahanol fathau o ymyrraeth yn cyfrannu at nodau Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cymru?

    a. Lle mae modelau gwahanol wedi'u datblygu sy'n cyd-fynd yn agosach ag amcanion strategaeth digartrefedd?

15) A yw'r prosiectau wedi'u cyflawni fel y bwriadwyd?

16) A yw'r ymyraethau'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig?

17) Beth oedd gwerth am arian yr ymyrraeth ar gyfer tai a gwasanaethau eraill? Gan gynnwys:

    a. Beth yw'r buddion?
    b. Beth yw'r costau a'r arbedion?
    c. A yw'r buddion yn gorbwyso'r costau?
    d. Beth yw'r gymhareb o gostau i fudd-daliadau?

18) Sut mae hyn yn cymharu ar draws gwahanol fodelau o gymorth tai?

19) Pa mor gynaliadwy yw'r dulliau atal a lliniaru digartrefedd a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol? Gan gynnwys:

    a. Pa mor llwyddiannus y gallai canlyniadau fod yn effeithiol yn fwy hirdymor?
    b. Heriau a rhwystrau rhag hyn?
    c. Sylfeini y dylid eu cynnal?

20) Beth ddylid ei ystyried neu ei wella pe bai'r mathau hyn o ymyrraeth yn cael eu darparu eto neu rywle arall yng Nghymru?

## Atodiad B

### Disgrifiadau o brosiectau a gynhwysir mewn astudiaethau achos

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys disgrifiadau o'r prosiectau a ariennir a'r awdurdodau lleol a ffurfiodd yr astudiaethau achos manylach. Mae enghreifftiau esboniadol o'r prosiectau hyn a'n canfyddiadau cyffredinol o ran yr heriau, y galluogwyr a'r effeithiau yn y gwahanol gyd-destunau hyn wedi'u cyflwyno o dan brif benawdau thematig yr adroddiad. Mae'r atodiad yn dechrau gyda disgrifiadau o'r modelau Tai yn Gyntaf a Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, gyda’r ddau ohonynt yn cael eu gweithredu mewn sawl un o'r prosiectau astudiaeth achos.

### Disgrifiadau o’r modelau

Gan fod llawer o'r prosiectau a werthuswyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn dull Tai yn Gyntaf neu Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, cyflwynir trosolwg o’r ddau fodel hyn.

### Tai yn Gyntaf: trosolwg o’r model a'i ddatblygiad yng Nghymru

Mae Tai yn Gyntaf yn ddull seiliedig ar dystiolaeth o gefnogi pobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth lluosog a hanes o digartrefedd sydd wedi ymwreiddio, neu’n digwydd dro ar ôl tro, i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Cyd-gynhyrchwyd yr egwyddorion Tai yn Gyntaf canlynol gyda Chymorth Cymru a Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018)[5] a chawsant eu cymeradwyo ganddynt:

1. Mae gan bobl yr hawl i gartref.
2. Rhoddir cymorth hyblyg gyhyd ag y bo angen.
3. Mae tai a chymorth yn cael eu gwahanu.
4. Mae'r gwasanaeth wedi'i dargedu at unigolion sy'n dangos patrymau mynych o ymddieithrio â llety hostel a/neu, unigolion sy'n cysgu allan neu'n cyrchu llety arhosiad brys dros nos (EOS) ar adeg yr atgyfeiriad.
5. Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth.
6. Defnyddir dull lleihau niwed wrth ymdrin â chamddefnyddio sylweddau.

[5] Llywodraeth Cymru (2018) Tai yn Gyntaf - Canllawiau ac Egwyddorion Cenedlaethol i Gymru

7. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n ystyriol yn seicolegol, ystyriol o drawma, ystyriol o ran rhywedd, sy'n sensitif ac sy'n ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.
8. Defnyddir dull o gynnwys gweithredol.
9. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar gryfderau, nodau a dyheadau pobl, ac o'r herwydd mae ganddo ymrwymiad penodol i lwyth bach o achosion.
10. Mae'r amrediad ehangaf o wasanaethau yn ymwneud â'r achos o'r cychwyn cyntaf (iechyd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, yr heddlu), fel y gall unigolion gael mynediad atynt os oes angen neu os dymunir.

Gan ddefnyddio data hyd at fis Medi 2021, canfu Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2022)[6] gynlluniau Tai yn Gyntaf mewn 15 awdurdod lleol yng Nghymru, a oedd, bryd hynny, wedi cefnogi cyfanswm o 221 o bobl i gynnal eu tenantiaethau.

**Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc: trosolwg o'r model a'i ddatblygiad yng Nghymru**

Mae Tai yn Gyntaf wedi'i addasu ar gyfer pobl iau (Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc - HF4Y), gyda'r egwyddorion canlynol (Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, 2023):[7]

- Mynediad di-oed at dai heb unrhyw ragamodau
- Dewis a hunanbenderfyniad i bobl ifanc
- Pwyslais cadarnhaol ar ddatblygiad pobl ifanc
- Cefnogaeth unigolyddol ar sail dewis cleientiaid
- Integreiddio cymdeithasol a chymunedol.

Ym mis Mawrth 2023, canfu Cymorth Cymru (Osmond, 2023)[8] dros 10 o brosiectau yng Nghymru a oedd yn darparu Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn unig, a dim ond rhai ohonynt sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc.

---

[6] Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2021) *Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru (Chwefror 2018 – Medi 2021).* Caerdydd: Cymorth Cymru. (Gwelwyd: 09/02/2024).
[7] Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2023) *Egwyddorion ar gyfer Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc, Cymorth Cymru.* (Gwelwyd: 09/02/2024).
[8] Osmond, A. (2023) Housing First for Youth in Wales, cyflwyniad Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru / Cymorth Cymru. (Gwelwyd: 09/02/2024).

**Amlinelliad Prosiect 1: Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc**

**Gwybodaeth am y Darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Sir wledig yn bennaf ar arfordir gorllewin Cymru. Mae'r gwasanaeth yn ymestyn dros ardal wledig fawr er ei fod wedi'i leoli mewn ardal arfordirol lle mae crynhoad uchel o bobl sy'n cysgu allan. Mae dwy brifysgol o fewn ffiniau'r sir, sydd, ynghyd â thwristiaeth, wedi cynyddu'r pwysau ar y llety sy'n fforddiadwy ac ar gael. Mae gan yr ardal lefelau isel o dai cymdeithasol, mae'n gweithio gyda'r awdurdod lleol ac mae ganddi berthynas agos â landlord cymdeithasol cofrestredig y cyfunodd ag ef oddeutu 5 mlynedd yn ôl. Mae'r darparwr yn gweithio gydag asiantaethau lleol gan gynnwys mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol.

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Elusen sy'n darparu cymorth cysylltiedig â thai a thenantiaeth i bobl 16 oed a throsodd y mae digartrefedd yn effeithio arnynt. Mae'n eu helpu i gaffael y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynnal tenantiaeth.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc ar raddfa fach (gweler y disgrifiad ar wahân o'r model), yn cynnwys bloc o 5 fflat hunangynhwysol, wedi'u dodrefnu, gan ddarparu llety a chymorth staff ar y safle i bobl (16-25 oed), gyda swyddfa ar y safle ag adrannau sy'n agored i staff a phreswylwyr. Fe'i cynlluniwyd i ymdrin ag anghenion datblygu oedolion ifanc drwy roi mynediad di-oed iddynt at lety sy'n ddiogel, fforddiadwy ac addas, gyda chymorth sy'n addas i'w hoedran. Dyrennir gweithiwr cymorth i bob person ifanc. Mae'r prosiect yn cynnal cyfarfodydd tŷ misol, prydau cymunedol/garddio wythnosol, teithiau cerdded a gweithdy gwleidyddiaeth gyda gweithiwr allgymorth. Mae adolygiadau cynnydd yn digwydd bob 2-3 mis.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc. Cyllid atodol Grant Cymorth Tai.

**Strwythur staffio**

Mae staff Gweithwyr Allweddol y Prosiect wedi'u lleoli ar y safle (gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau, er nad ydynt yn 24/7), gyda chefnogaeth swyddogion diogelwch, swyddog llety dros dro a goruchwyliaeth uwch-reolwr. Mae'r cyfrifoldeb ar alwad yn cael ei rannu rhwng y Tîm Rheoli gan ddarparu cronfa staff o 6 aelod, ac mae un ohonynt ar alwad bob nos.

**Llwybrau atgyfeirio**

Llwybrau atgyfeirio ar draws adrannau awdurdodau lleol, yn enwedig tai, troseddau ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol (gadael gofal).

**Defnyddwyr Gwasanaethau a dargedir**

Pobl 16-23 oed ar adeg mynediad, gan ganolbwyntio ar rai sy’n gadael gofal, y rhai sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol ac sydd ag anawsterau dysgu ysgafn i gymedrol.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu cyllid ychwanegol drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae gan y sefydliad bartneriaeth sefydledig gyda chymdeithas dai fel darparwr ac mae'n gweithio gyda nhw i gan lety symud ymlaen addas ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

**Mesurau perfformiad**

Mae'r prosiect yn casglu mesurau canlyniadau sy’n ymwneud â lleihau digartrefedd, y rhai sy'n cael cyngor, gwasanaethau arbenigol ac addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn mesur canlyniadau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol a chynhwysiant cymdeithasol (rhwydweithiau teuluol a'r gymuned ehangach).

**Amlinelliad Prosiect 2: Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Canolbarth Cymru, ardal ddaearyddol fawr, wledig yn bennaf, gyda’r dwysedd poblogaeth isaf o holl brif ardaloedd Cymru. Mae materion sy'n effeithio ar bobl yn lleol yn cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth, mynediad teg at wasanaethau a chyfleoedd gwaith. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau ieuenctid a phartneriaid statudol ac mae wedi meithrin cysylltiadau dros amser o fewn ymdrechion ehangach tuag at weithio amlasiantaethol. Mae gan y gwasanaeth fynediad at stoc sy'n eiddo i'r cyngor, er bod amseroedd aros yn hir mewn rhai ardaloedd.

**Sefydliad(au) sy’n cyflawni’r prosiect**

Partneriaeth rhwng Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol a thîm Gwasanaethau Plant.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc (Gweler disgrifiad ar wahân o’r model). Mae'n darparu cefnogaeth ddwys i bobl ifanc 16-25 oed, yn dilyn dull 'yr hyn sy'n bwysig' sy’n ystyriol o drawma ac 'arwyddion llesiant'. Mae Gweithwyr Ieuenctid ar wahân yn arwain ar gefnogaeth cofleidiol y person ifanc ac yn cynnwys partneriaid fel y bo'n briodol. Mae ail faes, dan arweiniad y tîm gwaith cymdeithasol, yn targedu ymyrraeth ac atal cynnar i leihau'r galw ar wasanaethau statudol a llety brys drwy gynnig cymorth arbenigol i bobl sy'n cyflwyno’u hunain fel rhai digartref a phobl 14+ oed gan ganolbwyntio ar atal digartrefedd yn gynharach i bobl ifanc sy'n pontio o ofal.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, rhywfaint o arian ychwanegol gan Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru a’r Grant Cymorth Tai.

**Strwythur staffio**

Cefnogir yr elfen Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc gan Gydlynydd Digartrefedd Ieuenctid a thîm Gwaith Ieuenctid datgysylltiedig i roi cymorth dwys - rhan o Dîm Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ehangach – sydd wedi chwarae rhan wrth dynnu sylw at bwysigrwydd blaenoriaethu anghenion y garfan 16-25 ac sy'n dylanwadu ar agenda'r Awdurdod Lleol. Ar

gyfer y maes cynghori, darperir cyllid ar gyfer Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithiwr Argyfwng Atal Digartrefedd (sy'n gysylltiedig â phobl sy'n gadael gofal).

**Llwybrau atyfeirio**

Daw atgyfeiriadau yn bennaf trwy dimau gofal cymdeithasol plant a digartrefedd yr awdurdod lleol.

**Defnyddwyr y gwasanaeth**

Derbynnir atgyfeiriadau gan bobl 16-25 oed sy'n cyflwyno’u hunain fel rhai digartref, pobl sy'n cysgu allan a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Canolbwyntir ar y rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'n gweithio mewn partneriaeth â chymdeithas dai fel darparwr sy'n gwerthfawrogi egwyddorion Tai yn Gyntaf ac sydd wedi darparu nifer o unedau llety. Mae’n gweithio'n agos gyda 14+ oed trwy'r Tîm Gofal i gefnogi ymyrryd ac atal cynnar. Mae ychydig o bobl ifanc yn mynychu rhwydwaith ehangach Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc yn rheolaidd. Mae asesiadau manwl yn cael eu cynnal ar y cyd rhwng Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n ddigartref am y tro cyntaf.

**Mesurau perfformiad**

Mae'r offeryn Graddfa Richter ar gyfer mesur y pellter a deithiwyd yn cael ei ddefnyddio i adolygu adfyfyrdodau pob person ifanc ar eu cynnydd mewn meysydd allweddol a bydd yn fesur o effeithlonrwydd y prosiect yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn mesur canran y bobl ifanc sy'n cofnodi gwelliannau mewn lles emosiynol a hyder, sgiliau cyllidebu a'r rhai sy'n cynnal llety neu'n symud ymlaen i ddewis arall addas. Mae hefyd yn cofnodi'r rhai nad ydynt yn lletya sy'n derbyn asesiad ar y cyd gan wasanaethau plant a thai a lle mae digartrefedd yn cael ei atal drwy bobl ifanc a'u teuluoedd sy'n derbyn cymorth wedi'i dargedu.

**Amlinelliad prosiect 3: Fflatiau hyfforddiant pontio**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredol**

De Cymru, dinas arfordirol gyda phoblogaeth fawr. Mae’r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar iechyd a chydweithio. Mae gan yr ardal stoc tai sylweddol sy'n eiddo i'r cyngor, er ei bod hefyd yn gweithio gydag amryw o landlordiaid cymdeithasol ond nid oes ganddi gysylltiadau â sector rhentu preifat. Yn lleol, mae prinder penodol o eiddo 1 ystafell wely addas a fforddiadwy a nifer cynyddol o bobl ag anghenion iechyd lluosog a chymhleth yn dod drwy'r system ddigartrefedd.

**Sefydliad(au) sy’n cyflawni’r prosiect**

Partneriaeth rhwng Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Adran Tai yr awdurdod lleol ac elusen genedlaethol i blant.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Cynllun fflat hyfforddiant pontio i gynorthwyo pobl ifanc, sydd mewn risg o ddigartrefedd neu sy'n derbyn gofal, dros 17 oed, neu rai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Nod y fflatiau hyfforddi yw helpu pobl ifanc i adeiladu annibyniaeth a chynnig profiad realistig o fyw'n annibynnol.  Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n dal y denantiaeth ac yn 'gosod' y fflat i'r person ifanc drwy gytundeb nad yw'n sefydlu tenantiaeth gyfreithiol gyda'r person ifanc ond sy'n nodi'r disgwyliadau ynghylch ymddygiad a chyfrifoldebau. Mae pecynnau cymorth yn seiliedig ar angen unigol ac maent yn cynnwys cymorth i ddatblygu sgiliau ymarferol ac emosiynol wrth baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.

Mae yna hefyd elfen o gynghori, a ddarperir drwy raglen allgymorth sy'n cynnig: hyfforddiant sgiliau byw annibynnol i bobl ifanc 15+ tra eu bod yn dal i fyw gartref, mewn gofal maeth neu mewn lleoliad preswyl; cymorth dwys o bobl ifnac hyd at 16+ sydd mewn risg o drefniant leoli yn methu, neu mewn risg o fod yn ddigartref.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc.

**Strwythur staffio**

Mae'r elusen yn darparu gweithwyr sy'n cynnig cymorth dwys fel y bo'r angen i'r person ifanc tra'u bod yn byw yn y fflat hyfforddiant (ar gael tan 10pm bob dydd o'r wythnos a hyd at 6pm ar y penwythnos). Mae'n cynnwys Rheolwr Gwasanaethau Plant sy'n rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd, a 4 gweithiwr cymorth llawn amser. Mae gan bob defnyddiwr y gwasanaeth weithiwr penodedig.

**Llwybrau atgyfeirio**

Mae'r atgyfeiriadau trwy weithiwr cymdeithasol person ifanc, gweithiwr cymdeithasol goruchwylio, staff gofal preswyl, swyddogion atal digartrefedd neu gynghorwyr personol.

**Defnyddwyr y gwasanaeth**

Mae'r prosiect yn targedu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd mewn risg o fod yn ddigartref neu lle canfuwyd risg o leoliad yn torri i lawr.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r elusen yn cyflwyno sesiynau hyfforddi a chymorth byw'n annibynnol trwy bartneriaethau masnachol a thrydydd sector ehangach ac yn ddiweddar derbyniodd grant i ddatblygu llesiant trwy annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Mae presenoldeb mewn Llwybr Llety traws-sector bob pythefnos yn cynnig ffordd o rannu gwybodaeth ar gyfer atgyfeiriadau newydd. Mae'r fflatiau hyfforddi yn cael eu prydlesu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Adran Tai.

**Mesurau perfformiad**

Mae'r prosiect yn defnyddio'r Seren Canlyniadau Tenantiaeth i fonitro canlyniadau. Mae hefyd yn casglu mesurau ar y nifer sy'n cwblhau'n meddiannaeth y fflat hyfforddiant yn llwyddiannus, y rhai sy'n cwblhau hyfforddiant cysylltiedig â thenantiaeth a chynyddu gwybodaeth am eu dewisiadau tai. Mae yna fesur ychwanegol ar gyfrannu at y lleihad yn nifer y cyflwyniadau digartrefedd (dangosydd – nifer y bobl sy'n cael cefnogaeth drwy'r prosiect nad ydynt yn cyflwyno'u hunain fel rhai digartref).

**Amlinelliad prosiect 4: Cynllun llety a rennir**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

De-ddwyrain Cymru, sy'n ymestyn dros 4 ardal awdurdod lleol ac sy'n cynnwys lleiniau cymudwyr trefol, ardaloedd arfordirol a gwledig. Mae diffyg eiddo fforddiadwy 1 ystafell wely yn broblem er bod y gwasanaeth yn gydweithrediad rhwng darparwyr cymorth a llety.

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Darparwr cymorth cysylltiedig â thai a llety nid-er-elw.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Mae hwn yn cynnig lleoliadau llety a rennir ar gyfer 2 berson ifanc mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gyda chymorth fel y bo'r angen. Ar ôl ymarfer cychwynnol i ddewis 2 addas, cynigir cytundeb trwydded 6 mis i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Ar ddiwedd y cyfnod hwn mae'r drwydded naill ai'n cael ei throsglwyddo i denantiaeth daliad byr sicr (os yw'r person yn dymuno) neu gellir ymestyn y cytundeb trwydded os oes angen cymorth pellach. Mae pobl ifanc yn cael eu hannog i ddatblygu eu rheolau tŷ eu hunain, a'r nod yw meithrin eu gwydnwch, eu sgiliau a'u cefnogi i wneud cynlluniau ystyrlon ar gyfer eu dyfodol. Mae'r gwasanaeth yn rhoi £750 i bob person ifanc i gyfrannu tuag at hyfforddiant personol, addysg a phrofiadau dysgu. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi gan PIE.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc. Cronfeydd bach o arian a ddyfernir gan Asda, Tesco a Chronfa Cymru (yr ymgeisir amdanynt drwy fforwm dan arweiniad defnyddwyr y gwasanaeth).

**Strwythur staffio**

Mae'r prosiect yn cael ei staffio gan 4 Swyddog Ymyrraeth Tai sy'n hwyluso'r broses o ddewis 2 addas i rannu, yn cynnig cymorth i bobl ifanc unwaith y byddant yn y llety a rennir a'u cefnogi i symud ymlaen lle bo hynny'n briodol (cymhareb cymorth tua 8 i 1). Mae

defnyddwyr y gwasanaeth yn gysylltiedig hefyd â 2 aelod o staff datblygu Ieuenctid a Chymunedol sy'n cefnogi pobl ifanc i mewn i weithgareddau addysg, cyflogaeth a gwirfoddoli. Goruchwylir gan Reolwr Prosiect a Gwasanaeth.

**Llwybrau atgyfeirio**

Opsiynau tai awdurdodau lleol yn bennaf neu dimau 16+ ar draws y sir.

**Defnyddwyr y gwasanaeth**

Mae'n targedu pob person ifanc 16-25 oed.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r prosiect yn gysylltiedig â chymdeithasau tai ar draws y siroedd, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â thimau gwasanaethau cymdeithasol 16+ a thimau opsiynau tai awdurdodau lleol. Hefyd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi pobl ifanc.

**Mesurau perfformiad**

Mesurir y ganran o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n cynnal eu llety, sy’n fwy sefydlog yn ariannol ac sy’n ymwneud yn fwy â gweithgareddau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, ynghyd â gwelliant a ganfuwyd i anghenion iechyd corfforol a meddyliol a llesiant.

**Amlinelliad prosiect 5: Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

De Cymru, gan gynnwys dinas arfordirol a hen ardaloedd diwydiannol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn dull amlasiantaeth sy’n canolbwynio’n strategol ar ardal leol. Mae rhestrau aros tai yn fawr, gydag un awdurdod lleol yn darparu ei stoc ei hun a'r llall yn caffael llety drwy bartner sy’n landlord cymdeithasol cofrestredig.

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Sefydliad elusennol sy'n arbenigo mewn cymorth i bobl ifanc, plant a theuluoedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda 2 awdurdod lleol.

**Trosolwg o Fodel y Gwasanaeth**

**Model a diben y gwasanaeth**

Gwasanaeth peilot Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc sy'n mynd i'r afael ag anghenion a gofynion penodol pobl ifanc 16-25 oed gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i aros mewn eiddo i bobl ifanc sydd cryn bellter o allu bod yn annibynnol. Mae'r model yn gweithio'n uniongyrchol gyda dwy ardal awdurdod lleol (er nad yw wedi'i gomisiynu ganddynt) gyda rhanddeiliaid sy'n landlordiaid cofrestredig cymdeithasol yn darparu 20 uned (10 yr un yn y ddwy ardal awdurdod lleol). Mae tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn rhoi cymorth gan gynnwys seicolegwyr clinigol/cwnsela mewnol, arbenigwyr iechyd meddwl ac arbenigwyr rhwydwaith amlasiantaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cefnogir unigolion i gael mynediad yn gyflym at lety parhaol a diogel i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol a thrwy hynny wella gwydnwch. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cynnig o gymorth dwys a phersonol sy'n ystyriol o drawma, 24 awr y dydd.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, er bod rhoddion a grantiau cyffredinol a wneir i'r elusen yn adnoddau ychwanegol y mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio e.e. pecynnau bwyd, offer cegin, dillad a chymorth digidol ac addysgol etc.

**Strwythur staffio**

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys pennaeth darparu gwasanaethau, rheolwr contractau a sicrhau ansawdd, seicolegydd clinigol, 2 reolwr prosiect, 6 gweithiwr cymorth rhyddhad a chyflenwi dwbl a rheolwr ymyrraeth ac atal cynnar.

**Llwybrau atgyfeirio**

Derbynnir atgyfeiriadau gan amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a thimau Grant Cymorth Tai. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu llwybrau atgyfeirio gyda'i rwydweithiau a'i bartneriaid gan gynnwys partneriaid lleol, Cymorth Cymru ac is-grwpiau rhanbarthol Tai yn Gyntaf.

**Defnyddwyr y gwasanaeth**

Pobl ifanc ag anghenion uchel a chymhleth ac sydd wedi ymddieithrio dro ar ôl tro o wasanaethau llwybrau digartrefedd.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r gwasanaeth yn partneru gyda thimau digartrefedd awdurdodau lleol ac adrannau tai, timau gwasanaethau cymdeithasol, timau iechyd meddwl cymunedol, timau camddefnyddio sylweddau, timau troseddau ieuenctid lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y ddwy ardal a landlordiaid preifat. Mae'r sefydliad elusennol yn mynychu cyfarfod amlasiantaethol bob pythefnos a 2 fforwm rhanbarthol ac mae wedi datblygu cysylltiadau â'r prosiect peilot Tai yn Gyntaf i oedolion sy'n rhedeg yn un o’r ardaloedd awdurdod lleol ac yn cymryd rhan yn ei grŵp llywio amlasiantaeth.

**Mesurau perfformiad**

Yn ogystal â'r niferoedd sy'n cymryd rehan ac yn cael eu cartrefu, a chyfraddau cynnal tenantiaeth, mae'r gwasanaeth yn adrodd ar amrediad eang o ddangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â gwahanol agweddau ar lesiant, lleihau niwed ac ymwneud â gwasanaethau ehangach.

**Amlinelliad prosiect 6: Prosiect tai â chymorth**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Gogledd Cymru, sy'n cwmpasu ardal fawr gyda chymysgedd o ardaloedd arfordirol, gwledig a threfol gyda'r gwasanaeth yn defnyddio stoc tai awdurdodau lleol ym mhrif ardal ei waith. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar y garfan darged

yn genedlaethol. Gall datblygu'r gwasanaeth gynnwys darparu o bell i ranbarthau eraill ac ardaloedd awdurdodau lleol yn genedlaethol.

**Sefydliad(au) sy’n cyflawni’r prosiect**

Partneriaeth rhwng darparwr tai mawr a gefnogir gan y sector gwirfoddol, elusen leol sy'n gweithio gyda phobl ifanc LHDTC+, ac awdurdod lleol.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Prosiect tai â chymorth, dwysedd uchel ar raddfa fach ar gyfer pobl ifanc (16-25) sy'n adnabod eu hunain fel LHDTC+. Y nod yw darparu amgylchedd diogel a therapiwtig i bobl ifanc LHDTC+, lle gallant gael y gefnogaeth bwrpasol sydd ei hangen i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r gwytnwch i allu byw'n annibynnol yn barhaol a rhoi ansawdd bywyd iddynt, gan leihau'r risg o ddigartrefedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Darperir tair uned llety mewn tŷ â staff 24 awr, a phedwerydd mewn tŷ a rennir gerllaw. Tyfodd y model tai â chymorth o wasanaeth allgymorth ac mae'r prosiect yn parhau i ddarparu cymorth allgymorth i bobl yn y gymuned leol a’r tu hwnt (o bell) i atal digartrefedd a chefnogi ailsefydlu. Dyma'r unig brosiect o'i fath yng Nghymru.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc.

**Strwythur staffio**

Darperir gwasanaeth 24/7 gan staff yn y tŷ; mae'r holl staff cymorth yn LHDTC+ eu hunain, felly gallant weithredu fel modelau rôl a darparu cymorth arbenigol. Mae Rheolwr Prosiect yn goruchwylio atgyfeiriadau ac yn rheoli gweithwyr cymorth a chynorthwywyr. Mae'r prosiect yn derbyn cefnogaeth 12 awr y mis gan seicotherapydd arbenigol (sy'n darparu cymysgedd o gymorth grŵp, 1-1 a staff); Mae gweithiwr ieuenctid yn darparu gweithgareddau a hyfforddiant. Sicrheir yr ansawdd gan Reolwr y Gwasanaeth.

**Llwybrau atgyfeirio**

Mae Rheolwr y Prosiect yn gweinyddu proses atgyfeirio sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan bob asiantaeth sy’n bartner ynghyd â rhanddeiliaid allweddol o dimau Atal Digartrefedd awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, cymdeithasau tai, addysg ac asiantaethau'r sector gwirfoddol.

**Defnyddwyr a dargedir gan y Gwasanaeth**

Pobl ifanc (16-25) sy'n adnabod eu hunain fel LHDTC+. Caiff y rhai sydd â'r angen mwyaf (yn seiliedig ar broses asesu sy'n ystyriol o seicoleg) eu blaenoriaethu. Nid oes polisi cysylltiad lleol, er bod ffafriaeth resymol yn cael ei rhoi i bobl ifanc o'r awdurdod lleol sy'n ei gynnal.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni gan bartneriaeth rhwng awdurdod lleol a dwy elusen. Rhan allweddol o'r model yw darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar faterion ieuenctid LHDTC+ gan staff y prosiect i awdurdodau lleol, darparwyr, swyddogion digartrefedd a thai a phartneriaid eraill.

**Mesurau perfformiad**

Mae'r prosiect wedi datblygu set fanwl o fesurau canlyniadau pwrpasol, sy'n ymestyn dros agweddau seicolegol, tai, cymdeithasol, ariannol, iechyd, addysgol ac emosiynol. Maent hefyd yn casglu data o angen ar gyfer tai â chymorth LHDTC+, yn ôl ymholiadau ac atgyfeiriadau i'r prosiect.

**Amlinelliad prosiect 7: Prosiect cymorth fel y bo'r angen**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredol**

Mae'n gweithredu ar draws holl ranbarth gogledd Cymru, gan gynnwys lleoliadau arfordirol, gwledig a threfol bach. O ganlyniad, nodweddir y rhanbarth gan farchnadoedd tai amrywiol, pob un yn dod â heriau gwahanol, er enghraifft mewn perthynas â fforddiadwyedd, neu fynediad at wasanaethau. Bu nifer o enghreifftiau o gydweithio a chomisiynu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol.

**Sefydliad(au) sy’n cyflawni’r prosiect**

Elusen genedlaethol sy'n gweithio gyda phobl ifanc, plant a theuluoedd.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Mae'r prosiect yn darparu cymorth cyfannol ar sail cryfderau ac eiriolaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n ddigartref neu mewn risg o fod yn ddigartref neu lle maent newydd symud i denantiaeth newydd. O ran atgyfeirio, mae pobl ifanc yn cyd-gynhyrchu asesiad sy'n cynnwys tai, cysylltiadau cymdeithasol, iechyd a llesiant, byw'n ddyddiol, ac agweddau ac ymddygiad, ac yn cytuno ar yr hyn y maent eisiau canolbwyntio arno tra byddant yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Mae union hyd amser y cymorth yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau'r unigolyn, ond mae tua 20 wythnos ar gyfartaledd.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc, wedi'i ategu gan gyllid ymddiriedolaeth elusennol a chomisiynau gan awdurdodau lleol drwy Grant Cymorth Tai.

**Strwythur staffio**

Dau uwch-ymarferydd sy'n rhannu rôl arwain tîm, 2 ymarferwr, 2 weithiwr ymgysylltu (gyda phrofiad bywyd), gwirfoddolwyr (gyda phrofiad bywyd); mae'r uwch-reolwr yn goruchwylio. Mae pob un o'r ymarferwyr arfer yn arfer dal llwyth achosion o 10-12 o bobl ifanc ar y tro. Yn ogystal, mae'r gweithwyr ymgysylltu yn cynnig sesiynau llesiant grŵp neu un-i-un, a allai gynnwys gweithgareddau cymdeithasol, gwiriadau llesiant a chefnogaeth ddwys ynghylch sgiliau bywyd, fel coginio.

**Llwybrau atgyfeirio**

Mae un awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi comisiynu 10 lle o fewn y prosiect gan ddefnyddio Grant Cymorth Tai a rheolaethau ac yn adolygu atgyfeiriadau i'r rhain yn rheolaidd; ar draws gweddill y rhanbarth, daw atgyfeiriadau o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys: timau gadael gofal awdurdodau lleol, elusennau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, a gwasanaethau digartrefedd.

**Defnyddwyr a dargedir gan y gwasanaeth**

Mae'r prosiect fel arfer yn gweithio gyda thua 40 o bobl ifanc (16-25 oed) ar unrhyw adeg. Gall y gwasanaeth weithio gyda phobl beth bynnag fo'u deiliadaeth neu lety presennol, boed nhw'n byw gyda theulu, mewn llety dros dro neu lety â chymorth awdurdod lleol neu yn eu tenantiaeth eu hunain.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae gweithwyr cymorth yn cysylltu ag amrediad eang o asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol, landlordiaid a darparwyr llety, iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau plant, a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys gwneud atgyfeiriadau, eirioli, a gweithio ar y cyd. Cefnogir pobl ifanc i wahodd gweithwyr proffesiynol a/neu deulu a ffrindiau i gyfarfod i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd ynghylch yr amcanion maent wedi'u pennu. Mae'r ethos yn un o dryloywder: mae'r gwasanaeth yn copïo pobl ifanc i mewn i unrhyw ohebiaeth rhyngddo a gweithwyr proffesiynol eraill amdanynt ac yn eu cefnogi lle bynnag y bo modd i gysylltu â gwasanaethau eraill eu hunain.

**Mesurau perfformiad**

Yn ogystal â mesurau allbynnau (atgyfeiriadau i mewn ac allan, sesiynau a chyfarfodydd cynhadledd grŵp a gynhelir), mae'r gwasanaeth hefyd yn cofnodi canlyniadau pobl ifanc yr adroddir amdanynt mewn perthynas â'u sefyllfa dai, unigedd/unigrwydd, bodlonrwydd gyda chymorth, gwell hyder wrth ddatrys problemau/anawsterau ar eu pen eu hunain, gwelliannau yn eu perthynas â'u teulu/rhwydwaith o gefnogaeth.

**Amlinelliad prosiect 8: Tai yn Gyntaf**

Mae astudiaeth achos 8 yn edrych ar dri gwasanaeth Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu yn yr un ardal awdurdod lleol ac yn cydweithio'n agos i rannu'r hyn a ddysgir. Mae dau o'r gwasanaethau yn cael eu darparu gan yr un sefydliad/strwythur tîm felly rydym wedi cyfuno'r rhain yn un templed; darperir un gan sefydliad annibynnol, felly rydym wedi adrodd ar hwn mewn templed ar wahân.

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Dinas yn ne Cymru lle mae galw mawr am dai yn gyffredinol, gan arwain at heriau sylweddol gyda fforddiadwyedd y sector rhentu preifat. Mae'r ddinas yn datblygu amrywiaeth o fentrau i ymateb i'r nifer cymharol uchel o unigolion – llawer ag anghenion lluosog a chymhleth - sydd wedi eu rhoi o fewn y system ddigartrefedd fwy na deg o weithiau.

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Elusen fawr.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Model Tai yn Gyntaf (gweler y disgrifiad ar wahân). Cysylltu ag unigolion drwy allgymorth i feithrin ymddiriedaeth, a chydag amrywiaeth o landlordiaid sector cymdeithasol yn bennaf a rhai preifat i ganfod a chael gafael ar opsiynau tai sefydlog a fyddai orau ar gyfer diwallu anghenion a dewisiadau pobl. Model cymorth rheoli achosion dwys parhaus.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Dechreuodd y prosiect yn 2017, gydag arian gan awdurdodau lleol i dreialu cynllun 5 uned. Yna sicrhawyd cyllid refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r cynllun i gynnwys 20 o unigolion. Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid parhaus o flwyddyn i flwyddyn gan Lywodraeth Cymru o dan ei raglen Tai yn Gyntaf ac mae'n cael ei ariannu i ddarparu 25 o leoedd ar hyn o bryd.

**Strwythur staffio**

- Pump gweithiwr cymorth arbenigol cyfwerth â llawn amser o gefndiroedd amlddisgyblaethol sy'n dod â dealltwriaeth o gymorth therapiwtig ac ystyriol o drawma. Mae un yn Weithiwr Cymorth Arbenigol sector rhentu preifat, sy'n gweithio i ennyn diddordeb, cymell a recriwtio landlordiaid i'r cynllun.

- Dau weithiwr cymorth cynorthwyol cyfwerth â llawn amser, sy'n darparu gweithgareddau dargyfeiriol, ac yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau bywyd, meithrin perthynas ag eraill yn eu cymuned, a gwella eu llesiant.
- Mae Rheolwr Rhaglen (40 awr yr wythnos) a Rheolwr Gwasanaeth (14 awr yr wythnos) yn goruchwylio. Mae Cynorthwyydd Gweinyddol (20 awr yr wythnos) yn cefnogi'r tîm.

**Llwybrau atgyfeirio**

Ar ddechrau'r prosiect (ac yn dilyn sioe deithiol i sicrhau ymrwymiad), sefydlwyd grŵp llywio, gan gynnwys yr holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu'n lleol, yr awdurdod lleol (diogelu oedolion, tai), iechyd meddwl, gwasanaethau defnyddio sylweddau, a'r gwasanaeth prawf. Y grŵp hwn oedd yn gwneud penderfyniadau atgyfeirio, er bod tîm amlddisgyblaethol bellach wedi disodli hyn ac ychydig o leoedd newydd sydd wedi bod ar gael ers i'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf gyrraedd ei gapasiti.

**Defnyddwyr a dargedir gan y gwasanaeth**

Mae'r prosiect yn gweithio gydag oedolion (dynion neu fenywod) sydd ag anghenion lluosog a chymhleth, gyda phwyslais penodol ar bobl sy'n cysgu allan ac sydd wedi ymbelláu ac ymddieithrio wasanaethau llety a chymorth eraill.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Gweler y llwybrau atgyfeirio uchod i gael manylion strwythurau partneriaeth amlasiantaethol sy'n ymwneud â'r prosiect.

**Mesurau perfformiad**

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yw'r graddau y cynhelir tenantiaeth a nifer y bobl sy'n cysgu allan a ganfuwyd fel rhai addas i gymryd rhan yn y Prosiect Tai yn Gyntaf. Mae mesurau ychwanegol yn ystyried canlyniadau ynghylch iechyd corfforol a meddyliol, defnyddio sylweddau, lles ariannol a lleihad mewn gweithgareddau diwylliant stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Sefydliad(au) sy’n cyflawni’/r prosiect**

Awdurdod lleol.

**Trosolwg o'r prosiect**

**Model a diben y prosiect**

Model Tai yn Gyntaf – fel y disgrifir uchod ac yn y trosolwg o’r model. Mae'r prosiect yn gweithio gyda landlordiaid preifat lleol i ddod o hyd i lety 1 ystafell wely o ansawdd da, gan ddefnyddio pecyn o gymorth ariannol a chyswllt rheolaidd â landlordiaid. Yn fwy diweddar, mae wedi ymestyn ei bartneriaethau tai i ganolbwyntio ar landlordiaid cymdeithasol hefyd.

Datblygwyd cynllun arbenigol yn 2018 i wella cynllun Tai yn Gyntaf y cyngor ar y pryd, drwy ganolbwyntio'n bennaf ar raï’n gadael carchar ag anghenion lluosog a chymhleth, gyda phwyslais penodol ar gael mynediad i eiddo yn y Sector Rhentu Preifat. Mae'r tîm yn dechrau meithrin perthynas â'r unigolyn tra byddant yn y carchar (a gallant hefyd gefnogi cleientiaid Tai yn Gyntaf sy'n gwasanaethu dedfrydau o garchar ar hyn o bryd). Ers ei gychwyn yn 2018 roedd y cynllun wedi sicrhau 25 o unedau ar gyfer pobl sy'n cysgu allan, erbyn diwedd 2021/22; roedd 10 o ymadawyr carchar eraill yn derbyn cefnogaeth gan y prosiect carchar (cyn / ar ôl rhyddhau). Dechreuodd y prosiect hefyd gynllun peilot Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc ym mis Medi 2022, gan weithio gyda 5 o bobl ifanc (ac yn cael ei ariannu gan y Gwasanaethau Plant).

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

- Ariennir y Prosiect Tai yn Gyntaf gan y Grant Arloesi Tai yn Gyntaf.
- Mae Grant Cymorth Tai 22/23 yn cyfrannu at gyflogau staff i sicrhau parhad y gwasanaeth.
- Ariennir prosiect Ymadawyr Carchar gan Lywodraeth Cymru: Grant Atal Digartrefedd – Tai yn Gyntaf

**Strwythur staffio**

Mae'r prosiect yn cael ei staffio gan Reolwr Gwasanaeth cyfwerth ag amser llawn, 2 x Gweithwyr Cymorth Tai yn Gyntaf cyfwerth ag amser llawn, 1 x Gweithiwr Cymorth Tai yn Gyntaf Cyswllt Carchardai cyfwerth ag amser llawn, gweithwyr rhyddhad ad hoc a

gweinyddwr (25 awr yr wythnos). Mae gan y prosiect hefyd Swyddog Cyswllt Landlordiaid arbenigol sy'n meithrin perthynas â landlordiaid newydd a landlordiaid presennol y sector preifat ac yn rheoli  tai ychwanegol. Mae cefnogaeth y tu allan i oriau ar gael gan y tîm allgymorth lleol.

**Llwybrau atgyfeirio**

Daw atgyfeiriadau i'r gwasanaeth cyswllt carchardai drwy Lwybr Ymadawyr Carchar y cyngor ac asesir pobl tra byddant yn y ddalfa gan Weithiwr Cymorth Tai yn Gyntaf Cyswllt Carchardai. Cynhelir paneli atgyfeirio misol ar gyfer atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud trwy lety landlord cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael ei reoli ac yr ymatebir iddo mewn modd amserol.

**Defnyddwyr a dargedir gan y gwasanaeth**

Mae'r prosiect yn gweithio gydag oedolion, yn ddynion a menywod, ag anghenion lluosog a chymhleth, gyda phwyslais penodol ar y rhai sy'n cysgu allan ac sydd, neu ar fin, cael eu rhyddhau o'r carchar.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Gall y ddau brosiect Tai yn Gyntaf atgyfeirio at dîm amlddisgyblaethol y ddinas i helpu cael at iechyd, gofal ac amrywiol wasanaethau eraill sydd eu hangen ar eu cleientiaid. Mae'r prosiect carchardai yn gweithio gyda 4 carchar (gan gynnwys carchar menywod yn ogystal â dynion) ac mae ganddo bartneriaethau ar waith gyda thimau ailsefydlu carchardai, y gwasanaeth prawf, Prison Link Cymru, yr Heddlu a sefydliadau trydydd sector. Mae'r ddau wasanaeth wedi gweithio i gynnwys rhwydwaith o landlordiaid preifat ac maent bellach yn ehangu i fod yn bartner gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**Mesurau perfformiad**

Rhai o’r mesurau perfformiad allweddol yw’r nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi i denantiaeth ar ôl eu rhyddhau ac sy’n cynnal tenantiaeth. Mae mesurau ychwanegol yn ystyried canlyniadau mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol, defnyddio sylweddau, lles ariannol a gostyngiad yng ngweithgareddau diwylliant stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Amlinelliad prosiect 9: Tai yn Gyntaf**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Dinas, yn nwyrain Cymru gyda nifer uchel o bobl sy'n cysgu allan. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â darparwyr llety yn lleol ond mae prinder llety ar gyfer symud ymlaen yn barhaol yn effeithio ar y gallu i ddarparu. Uchelgais strategol y fenter oedd sefydlu tîm amlddisgyblaethol, grwpiau gweithredol a strategol a phartneriaethau agos gyda'r tîm cysgu allan, er bod ôl-groniadau asesiadau statudol yn rhwystr.

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Sefydliad nid-er-elw sy'n darparu tai a chymorth i amrywiaeth o grwpiau.

**Trosolwg o'r Model Gwasanaeth**

**Model a diben y gwasanaeth**

Gwasanaeth Tai Rhanbarthol yn Gyntaf (gweler trosolwg o'r model) gyda llwythi achosion o 5 cleient i bob cydlynydd tai yn gyntaf.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Cyllid Arloesi Tai yn Gyntaf ar gyfer yr holl gostau refeniw, cronfa nad yw'n refeniw gan landlordiaid ar gael fesul achos drwy arweiniad y sefydliad nid-er-elw gyda hawliadau'n cael eu gwneud gan landlordiaid am daliadau rheoli tenantiaeth safonol ar gyfer ôl-ddyledion rhent, difrod eiddo a chostau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â therfynu tenantiaeth.

**Strwythur staffio**

Mae'r strwythur staffio ar gyfer y gwasanaeth rhanbarth yn cynnwys Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dwyrain Cymru, a Rheolwr Ardal y ddinas, Rheolwr Gwasanaeth Tai yn Gyntaf, 2 gynorthwyydd cymorth Tai yn y Gyntaf a 5 cydlynydd Tai yn Gyntaf yn y ddinas.

**Llwybrau atgyfeirio**

Mae atgyfeiriadau yn cael eu trefnu ar sail gwybodaeth o allgymorth dyfal a phartneriaid / rhwydwaith i adnabod yr ymgeiswyr mwyaf addas. Ar ôl ei nodi, mae cam ymgysylltu ar y stryd yn dechrau, er y gellir defnyddio llety brys dros dro lle mae adnoddau'n caniatáu tra ceisir llety parhaol sefydlog addas. Nid oes gan y gwasanaeth restr aros ond mae'n gweithredu fesul achos.

**Defnyddwyr a dargedir gan y gwasanaeth**

Mae'r meini prawf asesu gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn cael eu bodloni pan fydd oedolion wedi gorfod cysgu allan, â phroblemau hirdymor ac wedi methu cynnal llety annibynnol na llety â chymorth.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r sefydliad dal grantiau yn darparu Tai yn Gyntaf mewn lleoliadau eraill ac yn cysylltu â hyn. Yn lleol, mae wedi cefnogi cydweithwyr yn y bwrdd iechyd lleol i sicrhau cyllid i sefydlu tîm amlddisgyblaethol i weithio law yn llaw â chydlynwyr gwasanaeth Tai yn Gyntaf. Mae grwpiau gweithredol a strategol Tai yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu gyda’r grwpiau gweithredol yn cyfarfod bob pythefnos a’r rhai strategol bob deufis. Mae timau tai a chymorth cyngor y ddinas, 2 ddarparwr tai lleol, tîm gwasanaeth cyffuriau ac alcohol a'r bwrdd iechyd lleol i gyd wedi cymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth Tai yn Gyntaf. Mae deiliad y grant yn cydweithio â sefydliadau elusennol eraill hefyd sy'n darparu cymorth i’r rhai sy’n cysgu allan a/neu gefnogaeth allgymorth yn yr ardal. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda'r heddlu a'r gwasanaeth prawf lleol.

**Mesurau perfformiad**

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys nifer o ganlyniadau sy’n ymwneud â thai (amser aros, cynigion, dewis, cynnal tenantiaeth) a chanlyniadau eraill (defnyddio sylweddau, sefydlogrwydd ariannol, gweithgaredd stryd, iechyd corfforol, etc).

**Amlinelliad prosiect 10: Gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen**

**Gwybodaeth am y darparwr**

**Lleoliad daearyddol a chyd-destun gweithredu**

Prosiect rhanbarthol yn ne-ddwyrain Cymru. Ardal gymharol boblog, lle mae'r awdurdod lleol wedi wynebu nifer o heriau gan gynnwys mwy o ddefnydd o lety dros dro yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda nifer uchel o gyflwyniadau mewn anghenion iechyd cymhleth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r galw yn y sector rhentu preifat wedi cynyddu'r pwysau fwyfwy ar fynediad at lety fforddiadwy ac addas. Mae'r cyflenwad o lety â chymorth hefyd yn rhwystr.

**Sefydliad(au) sy'n cyflawni'r prosiect**

Partneriaeth amlasiantaeth rhwng 3 chyngor sir, y GIG, Bwrdd Iechyd Prifysgol ac elusen camddefnyddio sylweddau.

**Trosolwg o Fodel y Gwasanaeth**

**Model a diben y gwasanaeth**

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth un i un i'w ddefnyddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at allgymorth ymyrraeth argyfwng a'u bod yn cael eu cyfeirio at asiantaethau priodol. Mae gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo i ddarparu gwasanaethau allgymorth ychwanegol fel podiatreg a deintyddiaeth.

**Trosolwg o'r ffynhonnell ariannu**

Cyllid Cam 2. Mae ar hyn o bryd yn derbyn cyllid drwy Fwrdd Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru; Cyllid Grant Cymorth Tai ar gyfer cwnselwyr ychwanegol sy'n ystyriol o drawma ac ymgynghorydd Cam-drin Domestig.

**Strwythur staffio**

Mae'r tîm yn esblygu. Ar adeg yr ymchwil, roedd y tîm yn cynnwys: cefnogaeth weinyddol, Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig, 2 x Gweithwyr Cymorth Cyd-ddigwydd, Nyrs arbenigol Camddefnyddio Sylweddau, Nyrs arbenigol Iechyd Meddwl, Nyrs Ymarfer Cyffredinol, 4 x Cynghorydd Trawma.

**Llwybrau atgyfeirio**

Derbynnir atgyfeiriadau gan ddarparwyr trydydd sector sy'n goruchwylio hosteli, lleoliadau llety dros dro a Phrosiectau Tai yn Gyntaf.

**Defnyddwyr y gwasanaeth**

Mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at bobl sengl sy'n profi digartrefedd ac sydd ag anghenion cymhleth, sy'n profi problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau traddodiadol, sydd mewn argyfwng ac sydd angen ymyrraeth iechyd gyflym.

**Partneriaethau a rhwydweithiau**

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth Arbenigol Tai, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau yn gydweithrediad rhwng asiantaethau (Iechyd, Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector) sy'n gweithio ar draws yr ardal.

**Amlinelliad prosiect 11**

Roedd astudiaeth achos 11 yn cynnwys cyfweliadau â 3 awdurdod lleol i ddeall sut roeddent wedi defnyddio eu dyraniadau cyllid Cam 2; yn awdurdod lleol 2, ein briff oedd canolbwyntio ar fentrau ar y cyd ag iechyd.

**Awdurdod Lleol 1**

**Lleoliad daearyddol**

Gogledd Cymru.

**Cyd-destun gweithredu**

- Trosglwyddo stoc llawn a chyfran gymharol fach o dai cymdeithasol anghenion cyffredinol (o'i gymharu â pherchnogaeth breifat/rhent) yn y fwrdeistref.

- Sector rhentu preifat cyfyngedig mewn ardaloedd mwy gwledig; mewn ardaloedd arfordirol mae galw mawr.
- Llety brys a ddarperir yn bennaf mewn gwely a brecwast / gwesty / llety gwyliau. Mae llety dros dro yn cael ei brydlesu gan landlordiaid preifat/cymdeithasol cofrestredig.

**Trosolwg o brosiectau a ariennir wrth ddefnyddio cyllid Cam 2**

- Cynllun llety hunangynhwysol dros dro un ystafell wely (10 uned), gyda chymorth derbynfa a rheoli tenantiaeth (cyllid refeniw 8 mis)
- 9 mis o gyllid ar gyfer 2 weithiwr cymorth ychwanegol ar gyfer y cynllun Tai yn Gyntaf presennol
- 9 mis o gyllid ar gyfer 4 x Gweithwyr Cymorth Brys Ailgartrefu Cyflym
- Arian 9 mis ar gyfer Swyddog Cyswllt Sector Preifat i atal troi allan o'r sector rhentu preifat
- Cydlynydd Iechyd Meddwl a Llesiant ychwanegol ar gyfer prosiect Allgymorth Dyfal (wedi'i rannu ag awdurdod cyfagos)
- 9 mis o gyllid ar gyfer Swyddog Cymorth i Bobl Ifanc, i ddarparu cymorth i bobl ifanc i'w hatal rhag mynd yn ddigartref neu i'w cynorthwyo i ganfod/cynnal llety. Nid oedd yr awdurdod lleol yn llwyddiannus yn unrhyw un o'i geisiadau am gyllid cyfalaf Cam 2 ond llwyddodd i dderbyn cyllid refeniw.

**Cynllunio a llywodraethu prosiectau Cam 2**

- Cafodd ei ddatblygu ar yr un pryd a chan yr un tîm a gynhyrchodd y Cynllun Pontio Ailgartref Cyflym a'r Strategaeth (cyfuno strategaethau Grant Cymorth Tai a Digartrefedd)
- Grŵp llywio gweithredol (gan gynnwys aelod etholedig a'r heddlu) yn goruchwylio'r 'pentref' llety dros dro

**Canlyniadau a chynaliadwyedd**

- Mae pentref hunangynhwysol llety dros dro â chymorth wedi derbyn cyllid parhaus rhannol gan Grant Cymorth Tai
- Mae'r model pentref llety wedi'i atgynhyrchu mewn 2 safle arall

- Mae'r swyddi eraill a ariennir gan Gam 2 (Tai yn Gyntaf, Gweithwyr Cymorth Symudol Ailgartrefu Cyflym, Gweithiwr Cymorth i Bobl Ifanc) a'r prosiectau rhanbarthol wedi parhau gyda chyllid y Grant Cymorth Tai
- Derbyniodd swydd Cyswllt y Sector Preifat gyllid craidd atal digartrefedd.

**Awdurdod Lleol 2**

Y briff oedd i'r astudiaeth achos hon ganolbwyntio ar brosiectau partneriaeth ag iechyd.

**Lleoliad daearyddol**
De Cymru

**Cyd-destun gweithred**

- Cyngor yn dal i fod yn berchen ar stoc dai sylweddol; er ei fod hefyd yn gweithio gyda nifer o landlordiaid cymdeithasol. Prinder arbennig o dai fforddiadwy 1 ystafell wely
- Nifer cynyddol o bobl ag anghenion iechyd lluosog a chymhleth sy'n dod drwy'r system ddigartrefedd; fodd bynnag, ar adeg y cyfweliad, dywedwyd bod cysgu ar y stryd a rei isaf ers dros ddegawd.
- Mentrau iechyd sy’n bod eisoes ar gyfer pobl ddigartref yn cael eu darparu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

**Trosolwg o brosiectau a ariennir gan ddefnyddio cyllid Cam 2**

- Costau cyflog ar gyfer 4 x Gweithiwr Ailgartrefu Cyflym a Hyfforddwr Asedau i gefnogi pobl o lety argyfwng/dros dro i dai sefydlog
- 6 mis o gyflog i Arweinydd Tîm a 3 gweithiwr ar gyfer prosiect peilot Ymyrraeth Cyfnod Allweddol, gan ddarparu cefnogaeth ddwys i dai i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar
- Costau cyflog gweithiwr camddefnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n ddigartref (gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan) neu sydd mewn risg o ddigartrefedd ac sydd ag anghenion lluosog

- Cyllid ar gyfer cyfnod trosglwyddo wrth i un Nyrs Glinigol Arbenigol ymddeol ac un arall yn dechrau, gan hefyd alluogi cynnig mwy dwys i bobl mewn llety dros dro yn ystod trosglwyddo.
- Cyllid cyfatebol i ddyblu oriau gwaith Nyrs Allgymorth Iechyd Meddwl presennol i alluogi mewnbwn nyrsio mewn brysbennu ac asesu
- Ariannu canolfan brysbennu
- Defnyddiwyd cyllid cyfalaf hefyd i ariannu caffaeliadau eiddo i'w defnyddio fel cartrefi parhaol i bobl sy'n profi digartrefedd.

**Cynllunio a llywodraethu prosiectau Cam 2**

- Cynlluniwyd prosiectau Cam 2 gan dîm comisiynu hirsefydlog
- Partneriaethau gweithredol presennol gyda phartneriaid cyllido a chyflenwi (darparwyr y GIG a CVS), wedi'u cryfhau gan gelloedd prosiect a gweithio mwy strategol trwy Gam 2.

**Canlyniadau a chynaliadwyedd**

- Mae'r holl swyddi wedi parhau i gael eu hariannu drwy Grant Cymorth Tai neu'r Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol)
- Mae canlyniadau amrywiol yn cael eu monitro, gan gynnwys rhai’n ymwneud â fframwaith canlyniadau Grant Cymorth Tai ymysg eraill.

**Awdurdod Lleol 3**

**Lleoliad daearyddol**

Gogledd Cymru

**Cyd-destun gweithredu**

- Yn hanesyddol, niferoedd uchel o bobl sy'n cysgu allan; fodd bynnag, roedd cysgu ar y stryd wedi'i leihau i sero net adeg y cyfweliad.
- Cynllunio ar stop oherwydd problemau gyda ffosffadau

- Nid oes gan unrhyw un blaid reolaeth lwyr ar y cyngor.

**Trosolwg o brosiectau a ariennir gan ddefnyddio cyllid Cam 2**

- Cyllid refeniw o 12 mis ar gyfer staffio canolfan frysbennu newydd (roedd cais Cam 2 am gyllid cyfalaf yn aflwyddiannus, felly prynwyd yr adeilad gyda chronfeydd yr awdurdod ei hun)
- Cyllid refeniw i ehangu cynllun Cartrefi Gwag yr Asiantaeth Gosod
- Yn benodol, mae'r cyllid refeniw yn galluogi:
    - Arweinydd Tîm ar gyfer prosiectau byw â chymorth dros dro
    - Swyddog Cymorth Tai - llety dros dro â chymorth
    - Swyddog Opsiynau Tai
    - Swyddog Llety Dros Dro a Chynorthwyydd: llety dros dro â chymorth
    - Swyddog Opsiynau Tai Cyfiawnder Troseddol
    - Swyddog Mynediad Sector Rhentu Preifat Lleol
    - Mentor Cymheiriaid
    - Cyfraniad o 50% i'r Swyddog Camddefnyddio Sylweddau (cais rhanbarthol)
- Cyllid cyfalaf i brynu 5 cartref cyngor a oedd yn eiddo i'r gorffennol (Hawl i Brynu)
- Cyllid cyfalaf i landlord cymdeithasol cofrestredig ailddatblygu hen loches nos yn unedau hunangynhwysol.

**Cynllunio a llywodraethu prosiectau Cam 2**

- Mae'r un tîm yn gyfrifol am Ddigartrefedd a'r Grant Cymorth Tai
- Mae Grŵp Llywio Digartref amlasiantaeth a arweinir gan y Cyngor yn goruchwylio digartrefedd a chymorth tai; er bod Grŵp Gweithredol wedi cymeradwyo cais Cam 2, oherwydd yr angen am droad cyflym a chyllid cyfatebol.

**Canlyniadau a chynaliadwyedd**

- Mae cynnydd yn nyraniad y Grant Cymorth Tai wedi galluogi'r awdurdod i ariannu'r swyddi 12 mis a ariennir drwy Gam 2 yn barhaol.

**Atodiad C**

**Theori Newid ar lefel polisi**

Cafodd y Theori Newid canlynol ei ddatblygu gan y tîm ymchwil o Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru (2019) Gweler y bennod Cynllun y Gwerthusiad am fanylion pellach o'r fethodoleg.

| **Diffinio'r broblem / dadansoddi'r sefyllfa (Beth yw'r broblem?)** | **Canolbwyntio ar yr atebion (Beth yw'r ateb?)** | **Achosiaeth (Beth fydd yn achosi i'r ateb ddigwydd?)** |
|---|---|---|
| Pa mor dda y caiff y broblem ei deall? A oes sail gadarn i hyn? A yw'n dibynnu ar dybiaethau, os felly pa dybiaethau? | Beth yw'r dyhead/yr uchelgais ar gyfer yr ateb? Ar ba egwyddorion / ddaliadau mae'r atebion wedi eu sylfaenu? Beth sy'n wahanol am y polisi hwn o gymharu â'r hyn sydd wedi cael ei wneud o'r blaen? | Sut y disgrifir ac y rhagwelir y berthynas achosol rhwng y broblem a'r ateb? Beth yw sail resymegol y broses o newid? |
| **Cyffredinol:**<br>- Mae wedi ei seilio ar y gred nad tai (neu ddiffyg tai) yw unig achos digartrefedd ac na ddylid canolbwyntio ar hyn yn unig. Mae gan y polisi bwyslais cryf ar ddulliau system gyfan ac un olwg strategol gyfun ar ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae hyn | 1. Cymryd camau i ddeall galw ar lefel leol a beth sy'n gweithio:<br>a) ystyried graddfa'r broblem trwy wella data digartrefedd<br>b) ceisio tystiolaeth o effaith gwasanaethau ac ymyraethau a rhannu hyn i osod sail ar gyfer dysgu ehangach | 1. Mae diffyg data digonol yn golygu nad yw maint y broblem a'r graddau mae'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau yn effeithiol yn cael ei ddeall yn iawn ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd casglu gwell tystiolaeth yn hwyluso gwelliant ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi canllawiau clir i awdurdodau lleol ynghylch 'beth sy'n gweithio' |

| | | |
|---|---|---|
| yn dibynnu ar gydsyniad gan bartneriaid ac asiantaethau perthnasol *[Tybio cydsyniad].*<br>- Caiff digartrefedd ei ddiffinio'n eang, hynny yw i gwmpasu digartrefedd cudd.<br>- Mae'r weledigaeth gyffredinol 'prin, byrhoedlog a ddim yn digwydd eto' yn agored i ddehongliad.<br>- Mae'n nodi symudiad i ffwrdd oddi wrth bolisi presennol sy'n gyfyngedig neu'n absennol o safbwynt: dull system gyfan; arferion ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y person; cydgynhyrchu; pwyslais ar ymyrryd ac atal o fewn ysbryd, nid llythyren y gyfraith; atebion tai cyflym ac addas a daliadaeth sicr; atebion arloesol o ran tai a chymorth. | *[Tybiaethau ar gyfer yr uchod: Bydd dull seiliedig ar dystiolaeth o asesu effaith gwasanaethau yn helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau cliriach ar effeithiolrwydd a helpu penderfyniadau comisiynu ymysg awdurdodau lleol]* | mewn ailgartrefu cyflym. *[Mae'n tybio na wahaniaethir rhwng y math o effaith y bydd tystiolaeth yn ei gael ar benderfyniadau polisi a chomisiynu yn y dyfodol.]* |
| | 2. Sicrhau mai atal cynnar yw'r dewis cyntaf wrth benderfynu ar ymyrraeth<br>*[Tybiaeth: Mae ymyrryd ac atal cynnar yn fwy cost-effeithiol, mae 'gwir atal' yn cychwyn cyn 56 diwrnod]* | 2. Er mwyn cyflawni ymyrraeth ac atal cynnar, dylai awdurdodau weithredu cyn y Ddyletswydd 56-diwrnod. Dylid ystyried dyletswyddau o fewn y Ddeddf Tai fel 'yr amddiffyniad olaf' / eu trin fel 'rhwyd ddiogelwch' pan fo pob mesur ataliol arall wedi methu – gan weithio i 'ysbryd nid llythyren y gyfraith'. Bydd hefyd angen mwy o fuddsoddi mewn mwy o atal sylfaenol, eilaidd a |

| | | |
|---|---|---|
| - Symud pwyslais: oddi wrth reoli argfywng, rhyddhau o ddigartrefedd, llety argyfwng dros dro, llety dros dro, i ymyrryd yn gynnar yn y gwraidd, ac oddi wrth fodelau grisiau / seiliedig ar wobrau at atebion tai hirdymor. | | thrydyddol er mwyn lleihau'r llif o deuluoedd sy'n syrthio i ddigartrefedd. |
| | 3. Sicrhau bod ailgartrefu cyflym a pharhaol yn cael ei flaenoriaethu fel dull o fynd i'r afael â digartrefedd<br>*[Tybiaeth: bydd y galw'n lleihau a bydd yn helpu lleihau galw ar hostelau, llety dros dro a llety argyfwng dros amser]* | 3. Er mwyn sicrhau bod ailgartrefu cyflym a pharhaol yn cael blaenoriaeth, mae angen:<br>a) symud oddi wrth y model 'grisiau' ac ennill gwobrau o weithredu gwasanaethau<br>b) gweithredu atebion tai hirdymor<br>c) symud oddi wrth ddarparu gwasanaethau llety argyfwng, llety dros dro a hostelau<br>d) ymchwilio i fabwysiadu Tai yn Gyntaf fel rhan o ddull system gyfan, gan sicrhau bod cymorth cofleidiol yn ei le<br>e) cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy (trwy ddatblygu tai cymdeithasol, dyraniadau tecach, gwell mynediad at y sector rhentu preifat)<br>*[Tybiaeth: mae hyn yn gofyn am fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau a gydberchnogir ac a gydariennir gan wasanaethau cyhoeddus perthnasol, gan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gynnwys Iechyd Meddwl, camddefnyddio sylweddau, gofal sylfaenol, diogelwch cymunedol a thai er mwyn sicrhau bod timau arbenigol amlddisgyblaethol yn helpu unigolion i ddiwallu eu hanghenion a gweithredu dull ystyriol o drawma]* |
| | 4. Mabwysiadu dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn | 4.  Dylai pob gwasanaeth gael eu cynnig mewn ffordd sy’n ystyriol o drawma, gan weithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn |
| | 5. Cefnogi dull cydlynol gyda phartneriaid lleol – gan ganolbwyntio ar rai sy’n gadael carchar, gadael gofal, allan o’r Ysbyty a phobl ifanc<br>*[Tybiaeth: mae dull cydlynol ar lefel system yn bosibl a bydd yn hwyluso rhoi diwedd ar ddigartrefedd]* | 5. Ni ellir datrys digartrefedd gyda thai yn unig, yn hytrach mae’n ‘fater gwasanaethau cyhoeddus’ sy’n gofyn am ddulliau gweithredu ar lefel system *[Tybiaeth: bydd pob gwasanaeth cyhoeddus perthnasol yn cydsynio â’r farn hon / mae ymrwymiad ar bob lefel]* trwy’r canlynol:<br><br>a) cyd-drafod â gwasanaethau cyhoeddus lleol (gan gynnwys byrddau iechyd, landlordiaid |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymdeithasol cofrestredig (RSL)) a'r trydydd sector.<br><br>b) Gweithredu llwybr carcharorion mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi *[Tybiaeth: bydd y llwybr yn rhwystro digartrefedd rheolaidd i'r grŵp hwn].*<br><br>c) Buddsoddi mew natal eilaidd wedi ei dargedu a'i anelu at bobl ifanc trwy'r gwasanaeth ieuenctid ac amrywiaeth o bartneriaethau *[Tybiaeth: mae'r sefydliadau hyn yn weithgar yn yr awdurdod lleol / byddant yn ymgeisio am gontractau ac maent yn ymrwymo'n sylfaenol i weledigaeth y polisi].*<br><br>d) Gweithio gyda'r system gofal i sicrhau pontio llwyddiannus i lety parhaol i'r rhai sy'n gadael gofal. |

| | | |
|---|---|---|
| | | e) Gweithio gyda gwasanaethau rhyddhau o ysbyty.<br><br>f) Gweithio gyda rheolwyr tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector rhentu cyhoeddus i helpu atal ac osgoi troi allan diangen.<br><br>g) Polisi, darpariaeth gwasanaethau ac arferion yn cael eu harwain a'u llunio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y rheini sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd.<br><br>h) Timau arbenigol amlddisgyblaethol (yn cael eu sefydlu trwy fodelau amgen a gydariennir o ddarparu gwasanaethau). |